

TAG UG/SAFON UWCH



TAG UG/SAFON UWCH CBAC HANES

ACHREDWYD GAN LYWODRAETH CYMRU

MANYLEB

Addysgu o 2015

I'w ddyfarnu o 2016 (UG)

I'w ddyfarnu o 2017 (Safon Uwch)

Fersiwn 2 Mawrth 2019

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Lywodraeth Cymru ar gael i ganolfannau yn Lloegr.



CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll a throsglwyddo marciau'r Asesu Di-arholiad.	70



TAG UG a Safon Uwch HANES CBAC

I'w addysgu o 2015

UG i'w ddyfarnu o 2016

Safon Uwch i'w dyfarnu o 2017

Mae'r fanyleb hon yn bodloni'r Egwyddorion Cymwysterau TAG UG a Safon Uwch sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TAG newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2015.

	Tudalen
Crynodeb o'r asesiad	3
1. Rhagarweiniad	4
1.1. Nodau ac Amcanion	4
1.2. Dysgu blaenorol a dilyniant	5
1.3. Cydraddoldeb ac asesu teg	5
1.4. Bagloriaeth Cymru	6
1.5. Persbectif Cymreig	6
2. Cynnwys y pwnc	7
2.1. Unedau UG	18
2.2. Unedau U2	34
3. Asesu 63	
3.1. Amcanion asesu a phwysoli	63
3.2. Trefniadau asesu di-arholiad	
4. Gwybodaeth dechnegol	70
4.1. Cofrestru	70
4.2. Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl	71
Atodiad A: Cynllun marcio generig Uned 5	72
Atodiad B: Codau cofrestru	75

TAG UG a SAFON UWCH HANES (Cymru)**CRYNODEB O'R ASESU**

Mae'r fanyleb hon wedi'i rhannu'n gyfanswm o bum uned, dwy uned UG a thair uned U2. Mae'r pwysoli a nodir isod yn cael ei fynegi yn nhermau'r cymhwyster Safon Uwch llawn.

UG (2 uned)

UG Uned 1 Astudiaeth o Gyfnod Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud 20% o'r cymhwyster	60 marc
Cwestiynau penagored yn canolbwyntio ar gysyniadau hanesyddol perthnasol. Dewis un astudiaeth o gyfnod o wyth opsiwn a roddir.	
UG Uned 2 Astudiaeth Fanwl: Rhan 1 Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud 20% o'r cymhwyster	60 marc
Cwestiynau'n seiliedig ar dystiolaeth yn canolbwyntio ar werthuso ffynonellau hanesyddol a dehongliadau gwahanol. Dewis un astudiaeth fanwl o wyth opsiwn a roddir.	

Safon Uwch (yr uchod yn ogystal â 3 uned bellach)

U2 Uned 3 Astudiaeth Eang Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud 20% o'r cymhwyster	60 marc
Traethodau'n canolbwyntio ar gysyniadau hanesyddol perthnasol ac yn seiliedig ar themâu hanesyddol. Dewis un astudiaeth gwmpasog o chwe opsiwn a roddir.	
U2 Uned 4 Astudiaeth Fanwl: Rhan 2 Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud 20% o'r cymhwyster	60 marc
Cwestiwn yn seiliedig ar ffynonellau a thraethawd yn deillio o astudiaeth bellach o'r astudiaeth fanwl a ddewiswyd ar gyfer yr UG yn Uned 2.	
U2 Uned 5 Dehongliadau Hanesyddol Asesu di-arholiad: 3000-4000 o eiriau 20% o'r cymhwyster	60 marc
Canolbwyntio ar broblem neu fater hanesyddol penodol. Ni ddylai'r cwestiwn a osodir ddyblygu cynnwys na chyfnod yr astudiaeth fanwl a ddewiswyd yn Unedau 2 a 4.	

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2016 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2016.

Bydd Uned 3, Uned 4 ac Uned 5 ar gael yn 2017 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2017.

Rhif Cymhwyster
ar restr [The Register](#):
TAG UG: 601/5830/X
TAG Safon Uwch: 601/5817/7

Rhif Cymeradwyo Cymwysterau Cymru
ar restr [QiW](#):
TAG UG: C00/0724/2
TAG Safon Uwch: C00/0724/1

TAG UG a SAFON UWCH HANES

1

RHAGARWEINIAD

1.1 Nodau ac amcanion

Mae manyleb UG a Safon Uwch Hanes CBAC yn annog dysgwyr i wneud y canlynol:

- datblygu diddordeb a brwdfrydedd am hanes ynghyd â dealltwriaeth o werth cynhenid ac arwyddocâd y pwnc
- dod i ddeall hunaniaethau gwahanol o fewn cymdeithas a gwerthfawrogi agweddau cymdeithasol, diwylliannol, crefyddol ac amrywiaeth ethnig, fel y bo'n briodol
- profi cwrs astudio eang a chytbwys gan adeiladu ar eu dealltwriaeth o'r gorffennol drwy wneud hynny
- gwella fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol gyda meddyliau chwilfrydig ac ymchwilgar
- datblygu'r gallu i ofyn cwestiynau perthnasol ac arwyddocaol am y gorffennol ac i ymchwilio'r cwestiynau hynny
- caffael dealltwriaeth o natur astudiaeth hanesyddol, er enghraifft, bod hanes yn ymwneud â llunio barnau'n seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael ac y gall barn hanesyddol newid
- datblygu eu defnydd a'u dealltwriaeth o dermau, cysyniadau a sgiliau hanesyddol
- gwneud cysylltiadau a thynnu cymariaethau o fewn ac/neu ar draws cyfnodau ac agweddau gwahanol ar y gorffennol
- trefnu a chyfathrebu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth hanesyddol mewn ffyrdd gwahanol, gan ddadlau achos a phrofi casgliadau.

Mae UG a Safon Uwch Hanes CBAC yn nodedig ac yn ddeniadol, gan roi cyfle i ddysgwyr:

- astudio hanes mwy nag un wlad neu wladwriaeth gan gynnwys Prydain ac o leiaf un wlad y tu allan i Ynysoedd Prydain
- astudio agweddau penodol ar y gorffennol yn eang ac yn fanwl
- astudio newid a/neu ddatblygiad dros gyfnod o amser yn y tymor hir (o leiaf 100 mlynedd) a'r tymor byr
- astudio natur a phwrpas hanes fel disgyblaeth a sut mae haneswyr yn gweithio.

1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes unrhyw ofynion dysgu blaenorol. Y ganolfan sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu pennu o ran cael mynediad i gwrs sy'n dilyn y fanyleb hon. Mae'n rhesymol derbyn y bydd llawer o'r dysgwyr wedi ennill cymwysterau sy'n cyfateb i Lefel 2 CA4. Bydd sgiliau yn Rhifedd/Mathemateg, Llythrennedd/Saesneg a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn sylfaen dda ar gyfer symud ymlaen i'r cymhwyster Lefel 3 hwn.

Bydd rhai dysgwyr eisoes wedi caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o astudio Hanes ar gyfer TGAU.

Mae'r fanyleb hon yn gweithredu fel sylfaen addas ar gyfer astudio hanes neu faes perthynol drwy ddilyn amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch, symud ymlaen i'r lefel nesaf o gymwysterau galwedigaethol neu gyflogaeth. Yn ogystal, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynol, boddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oedran ac, o'r herwydd, mae'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr barhau i ddysgu gydol oes.

1.3 Cydraddoldeb ac asesu teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau ystod amrywiol o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Caiff addasiadau rhesymol eu gwneud ar gyfer rhai dysgwyr fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. gwneud cais am amser ychwanegol mewn pwnc TAG lle mae gofyn ysgrifennu'n estynedig). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk).

Byddwn yn dilyn egwyddorion y ddogfen hon ac felly, o ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr fydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesu.

1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy Graidd Bagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

Er enghraifft:

- Gall dysgwyr drosglwyddo'r sgiliau maent yn eu meithrin yn Uned 2 ac Uned 4 i'w defnyddio yn eu projectau unigol
- Bydd paratoi at Uned 5 (asesiad di-arholiad) yn gwella sgiliau cynllunio a threfnu

1.5 Persbectif Cymreig

Rhaid i ddysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai gwneud hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd.

Dylai ffynonellau cynradd a dehongliadau hanesyddol sy'n adlewyrchu persbectif Cymreig fod ar gael i'r dysgwyr lle bo'n briodol.

2

CYNNWYS Y PWNC

Mae'r fanyleb hon yn annog astudiaeth gyfannol o hanes. Gall dysgwyr astudio hanes ar sawl graddfa a dimensiwn, gan gynnwys cyfnod, manylder a lled. Anogir dysgwyr i gaffael amrediad eang o wybodaeth hanesyddol ac amrediad llawn o sgiliau. Mae pob dimensiwn yn cynnig persbectif gwahanol ar gyfer eu hastudiaethau ac yn sicrhau lled a chysondeb. Mae'r ffaith fod dysgwyr yn gorfod astudio hanes yn eang ac yn fanwl yn yr UG a'r Safon Uwch yn agwedd bwysig ar y fanyleb.

Unedau UG

Uned 1: Astudiaeth o Gyfnod

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
20% o'r cymhwyster

Mae dysgwyr yn astudio un cyfnod o tua 100 mlynedd. Yn yr uned hon mae'r astudiaeth yn canolbwyntio ar ddatblygiadau a newidiadau dros gyfnod ehangach o amser ac mae dysgwyr yn astudio amrywiaeth o destunau arwyddocaol dros gyfnod sylweddol o amser. Mae'r uned hon yn annog dysgwyr i ddod i werthfawrogi amrywiol bersbectifau hanesyddol gan gynnwys rhai gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, crefyddol neu ddiwylliannol, lle y bo'n briodol gwneud hynny.

Drwy astudio'r testunau a enwebir caniateir i ddysgwyr ddatblygu eu diddordeb a'u dealltwriaeth o ddatblygiadau pwysig a ddigwyddodd dros y cyfnod cyfan. Bydd y cynnwys penodol a'r materion a awgrymir i'w trafod yn golygu bod cwestiynau allweddol o fewn cyrraedd dysgwyr UG a'u bod yn gallu mynd i'r afael â nhw gan drafod y cynnwys a astudiwyd. Awgrymir materion i'w trafod sy'n ddigon eang a chytbwys ac yn rhoi digon o amrywiaeth gronolegol i sicrhau astudiaeth o achos a chanlyniad yn ogystal â newid a pharhad o fewn y cynnwys penodol.

Defnyddir cwestiynau traethawd i asesu'r uned hon lle mae'r dysgwyr yn gallu dangos eu dealltwriaeth o gysyniadau a sgiliau hanesyddol. Bydd y cwestiynau'n amrywio o ganolbwyntio'n eglur ar gynnwys penodol i fod yn seiliedig ar ddatblygiadau dros ran hirach o'r cyfnod a astudiwyd. Dyma'r gwahaniaeth rhwng Uned 1 ac Uned 3 yr U2 lle mae'r canolbwynt allweddol ar newid hanesyddol dros gyfnod o 100 mlynedd o leiaf a lle mae astudio newid hanesyddol dros y cyfnod hirach hwn yn cynnwys ymchwilio i faterion sy'n fwy heriol a chymhleth. Bydd asesiad yr uned hon yn gofyn i'r dysgwyr ddangos eu bod yn gwybod ac yn deall termau a chysyniadau hanesyddol perthnasol. Bydd gofyn i ddysgwyr ddwyn i gof, dethol a defnyddio gwybodaeth briodol a chyfleu'r wybodaeth honno'n eglur ac effeithiol. Disgwylir iddynt egluro, dadansoddi a gwerthuso nodweddion allweddol y cyfnod a astudiwyd er mwyn dod i gasgliadau cadarnhaol.

Uned 2: Astudiaeth Fanwl Rhan 1

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud
20% o'r cymhwyster

Mae Uned 2 yn cynnwys rhan gyntaf astudiaeth fanwl gyflawn sy'n parhau yn Uned 4. Mae dysgwyr yn astudio rhan gynharach un astudiaeth fanwl, gan ganolbwyntio ar gymhlethdod materion sy'n effeithio ar gymdeithas. Yn yr astudiaeth fanwl mae gofyn i ymgeiswyr astudio agwedd fyrrach ar hanes yn llawer manylach. Anogir dysgwyr yn yr uned hon i ddefnyddio amrediad eang o fathau gwahanol o dystiolaeth hanesyddol. Dylai'r dystiolaeth hon gynnwys ffynonellau priodol, cynradd a/neu gyfoes i'r cyfnod, ynghyd â dehongliadau hanesyddol. Mewn cwestiwn gorfodol disgwylir i ddysgwyr ddadansoddi a gwerthuso tair ffynhonnell fydd yn cynnwys priodoliad llawn. Dim ond er mwyn sicrhau dealltwriaeth dysgwyr y byddant yn cael eu golygu.

Dylai dysgwyr hefyd astudio'r materion a nodwyd yn y rhan cynnwys a sut mae haneswyr wedi dadlau am y rhain. Mewn cwestiwn gorfodol arall disgwylir i ddysgwyr ddadansoddi a gwerthuso dehongliadau gwahanol am fater hanesyddol a astudiwyd ganddynt, gan egluro sut a pham y lluniwyd dehongliadau gwahanol am y mater hwn.

Rhaid i ddysgwyr sy'n dewis seilio'u hastudiaeth o gyfnod Uned 1 ar agweddau ar hanes Cymru a Lloegr ddewis astudiaeth fanwl am wlad y tu allan i Gymru a Lloegr ar gyfer Uned 2. I'r gwrthwyneb, os yw dysgwyr yn dewis seilio eu hastudiaeth o gyfnod ar agweddau ar hanes gwlad y tu allan i Gymru a Lloegr yna rhaid iddynt seilio eu hastudiaeth fanwl ar hanes Cymru a Lloegr.

Unedau U2

Uned 3: Astudiaeth Eang

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud
20% o'r cymhwyster

Bydd gofyn i ddysgwyr astudio amrediad o ddwy thema enwebedig ill dau'n ymdrin â thua 100 mlynedd o newid a datblygiad hanesyddol. Mae'r uned hon yn hanfodol o ran darparu ehangder gwybodaeth ar gyfer y fanyleb gyfan. Bydd gofyn i ddysgwyr ddadansoddi a gwerthuso pa mor gyflym a faint o newid hanesyddol a fu dros gyfnod o o leiaf 100 mlynedd. Y cynnwys newydd i'w astudio yn yr uned hon ynghyd â'r pwyslais clir ar newid hanesyddol dros y cyfnod cyfan sy'n gwahaniaethu rhwng yr Uned hon ac Uned 1 yr UG. Bydd gofyn i ddysgwyr ystyried hefyd natur amrywiol cymdeithas ar yr adeg hon, ynghyd â tharddiad, natur ac effaith datblygiadau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a chrefyddol, os yw'n briodol gwneud hynny.

Nod yr uned hon yw ceisio datblygu dealltwriaeth o gysylltiadau rhwng agweddau gwahanol ar y themâu i'w hastudio a chaniatáu i ddysgwyr ddwyn ynghyd wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy'n canolbwyntio ar y themâu hyn. Mae'r themâu enwebedig yn yr uned hon yn seiliedig ar gyfnod estynedig o tua 100 mlynedd o leiaf gan ganolbwyntio ar newid, parhad a datblygiad. Asesiad wedi'i seilio ar draethawd fydd hwn a fydd yn ymdrin â materion mwy cymhleth a heriol. Mewn un traethawd gorfodol disgwylir i ddysgwyr ymdrin â'r cyfnod cyfan a astudiwyd ac i gysylltu a chymharu agweddau gwahanol ar y testunau a astudiwyd. Mewn traethawd pellach canolbwyntir ar ran fwy cyfyng o un arall o'r themâu a astudiwyd er mwyn i'r dysgwyr allu canolbwyntio ar gysyniadau perthnasol eraill fel achosiaeth neu arwyddocâd.

Uned 4: Astudiaeth Fanwl Rhan 2

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud
20% o'r cymhwyster

Dyma ail hanner yr astudiaeth fanwl a ddewiswyd, yr astudiwyd y rhan gyntaf ohoni yn Uned 2. Dylid defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddysgwyd yn flaenorol yn Uned 2 wrth ymgymryd ag astudiaeth Uned 4. Yn yr uned hon anogir dysgwyr i ddefnyddio amrywiaeth eang o fathau gwahanol o dystiolaeth hanesyddol. Dylai'r dystiolaeth hon gynnwys ffynonellau priodol, cynradd a/neu gyfoes i'r cyfnod mewn cwestiwn gorfodol sy'n disgwyl i ddysgwyr ddadansoddi a gwerthuso tair ffynhonnell fydd yn cynnwys priodoliad llawn. Dim ond er mwyn sicrhau dealltwriaeth dysgwyr y byddant yn cael eu golygu. Mae'r cwestiwn hwn yn ddilyniant o'r hyn sydd ar gael yn Uned 2 yr UG gan ofyn am ddadansoddi deunydd ffynhonnell sy'n fwy eang, manwl a chymhleth. Wrth ddadansoddi a gwerthuso'r deunydd ffynhonnell, gall dysgwyr ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o ddysgu blaenorol er mwyn rhoi'r deunydd yn ei gyd-destun hanesyddol. Dylent astudio testunau hanesyddol penodol sy'n ymwneud â rhan ddiweddarach yr astudiaeth fanwl. Byddant yn ateb cwestiwn traethawd lle bydd gofyn i'r dysgwyr ddwyn i gof, dethol a defnyddio gwybodaeth briodol ac i'w gyfleu'n eglur ac yn effeithiol. Disgwylir i ddysgwyr egluro, dadansoddi a gwerthuso nodweddion allweddol sy'n gysylltiedig â rhan ddiweddarach yr astudiaeth fanwl er mwyn gallu llunio barn gadarnhaol. Hefyd, byddant yn gallu dangos a defnyddio gwybodaeth o'r astudiaeth fanwl gyflawn (Rhannau 1 a 2) lle bo'n briodol gwneud hynny.

Uned 5: Dehongliadau Hanesyddol

Asesiad di-arholiad (60 marc)
20% o'r cymhwyster

Mae dysgwyr yn ymchwilio i fater o ddadl hanesyddol drwy astudio gwahanol ddehongliadau hanesyddol.

Yn yr uned hon anogir dysgwyr i ddefnyddio amrediad o dystiolaeth, cyfoes a diweddarach, er mwyn egluro sut a pham mae dehongliadau hanesyddol gwahanol yn cael eu llunio. Drwy'r mater a ddewisir gall dysgwyr ymestyn ac ehangu ar eu dealltwriaeth o agweddau ar yr hanes a astudiwyd yn rhannau ehangach y fanyleb neu gall ddod o faes o hanes na chafodd ei astudio'n unman arall yn y fanyleb. **Fodd bynnag, ni ddylai'r mater a ddewisir ddyblygu cynnwys yr astudiaethau manwl a ddewiswyd yn Unedau 2 a 4.**

UNED 1 (UG)

ASTUDIAETHAU O GYFNOD

Dylai dysgwyr astudio **un** o'r astudiaethau o gyfnod canlynol:

- 1. LLYWODRAETH, GWRTHRYFEL A CHYMDEITHAS YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1485-1603**
- 2. LLYWODRAETH, CHWYLDRO A CHYMDEITHAS YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1603-1715**
- 3. GWLEIDYDDIAETH, PROTEST A DIWYGIO YNG NGHYMRU A LLOEGR, TUA 1780-1880**
- 4. GWLEIDYDDIAETH, POBL A CHYNNYDD YNG NGHYMRU A LLOEGR, TUA 1880-1980**
- 5. NEWID GWLEIDYDDOL A CHREFYDDOL YN EWROP, TUA 1500-1598**
- 6. EWROP MEWN OES O ABSOLIWTIAETH A CHWYLDRO tua 1682-1815**
- 7. CHWYLDRO A SYNIADAU NEWYDD YN EWROP tua 1780-1881**
- 8. EWROP MEWN OES O WRTHDARO A CHYDWEITHREDU tua 1890-1991**

UNED 2 (UG) AC UNED 4 (U2)

HANES YN FANWL

Dylai dysgwyr astudio **un** o'r astudiaethau manwl canlynol. Bydd yr astudiaeth hon yn parhau ar gyfer yr UG a'r U2, gan sicrhau bod dilyniant i'r astudiaeth fanwl.

Yn yr astudiaeth fanwl a ddewisir, bydd dysgwyr yn adeiladu ar y wybodaeth a'r sgiliau a gaffaelwyd yn yr UG yn ystod ail flwyddyn y cwrs (U2).

1. ARGYFWNG CANOL OES Y TUDURIAID YNG NGHYMURU A LLOEGR, tua 1529-1570

Uned 2 (UG): Rhan 1: PROBLEMAU, BYGYTHIADAU A SIALENSIAU tua 1529-1553

Uned 4 (U2): Rhan 2: SIALENSIAU YN WYNEBU MARI AC ELISABETH tua 1553-1570

2. BRENHINIAETH, GWRTHRYFEL A GWERINIAETH, tua 1625-1660

Uned 2 (UG): Rhan 1: Y PWYSAU AR Y FRENHINIAETH A'R SYMUDIAD I GYFEIRIAD RHYFEL CARTREF, tua 1625-1642

Uned 4 (U2): Rhan 2: RHYFEL CARTREF, GWERINLYWODRAETH A PHROTECTORIAETH, tua 1642-1660

3. DIWYGIO A PHROTEST YNG NGHYMURU A LLOEGR tua 1783 - 1848

Uned 2 (UG): Rhan 1: RADICALIAETH A'R YMGYRCH O BLAID DIWYGIO'R SENEDD, tua 1783-1832

Uned 4 (U2): Rhan 2: PROTESTIADAU AC YMGYRCHU O BLAID DIWYGIO CYMDEITHASOL tua 1832-1848

4. GWLEIDYDDIAETH A CHYMDEITHAS YNG NGHYMURU A LLOEGR, tua 1900-1939

Uned 2 (UG): Rhan 1: GWLEIDYDDIAETH, CYMDEITHAS A'R RHYFEL: CYMRU A LLOEGR tua 1900-1918

Uned 4 (U2): Rhan 2: SIALENSIAU ECONOMAIDD A CHYMDEITHASOL YNG NGHYMURU A LLOEGR tua 1918-1939

5. DIWYGIAD CREFYDDOL YN EWROP, tua 1500-1564

**Uned 2 (UG): Rhan 1: DECHREUAD A LLEDAENIAD Y DIWYGIAD
PROTESTANNAIDD YN YR ALMAEN tua 1500- 1531**

**Uned 4 (U2): Rhan 2: LLEDAENIAD PROTESTANIAETH A'R GWRTHDDIWYGIAD
tua 1531-1564**

6. FFRAINIC YNG NGHYFNOD Y CHWYLDRO, tua 1774-1815

**Uned 2 (UG): Rhan 1: FFRAINIC: ACHOSION A HYNT Y CHWYLDRO
tua 1774-1792**

Uned 4 (U2): Rhan 2: FFRAINIC: GWERINIAETH A NAPOLEON tua 1792-1815

7. ARGYFWNG Y WERINIAETH AMERICANAIDD, tua 1840-1877

**Uned 2 (UG): Rhan 1: GWAHANIAETHAU ADRANNOL A'R LLWYBR I RYFEL
CARTREF tua 1840-1861**

Uned 4 (U2): Rhan 2: RHYFEL CARTREF AC AILYMGORFFORI tua 1861-1877

8. YR ALMAEN: DEMOCRATIAETH AC UNBENNAETH tua 1918-1945

Uned 2 (UG): Rhan 1: WEIMAR A'I SIALENSIAU tua 1918-1933

Uned 4 (U2): Rhan 2: YR ALMAEN NATSÏAIDD, tua 1933-1945

Dylai canolfannau dalu sylw i'r cyfyngiadau canlynol sy'n cyfeirio at gyfuniadau o opsiynau yn Unedau 1, 2 a 4:

Rhaid i ddysgwyr sy'n dewis cyflawni Astudiaeth o Gyfnod o opsiynau 1-4 (Hanes Cymru a Lloegr) ddewis Astudiaeth Fanwl o opsiynau 5-8 (Hanes nad yw'n Hanes Prydain).

Rhaid i ddysgwyr sy'n dewis cyflawni Astudiaeth o Gyfnod o opsiynau 5-8 (Hanes nad yw'n Hanes Prydain) ddewis Astudiaeth Fanwl o opsiynau 1-4 (Hanes Cymru a Lloegr)

UNED 3 (U2)

ASTUDIAETHAU EANG

Dylai dysgwyr astudio **un** o'r astudiaethau eang canlynol.

- 1. CYMRU: GWRTHWYNEBIAD, GORESGYN A GWRTHRYFEL, tua 1240-1415**
- 2. TLODI, PROTEST A GWRTHRYFEL YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1485-1603**
- 3. DIWYGIO A DARGANFOD: Ewrop, tua 1492-1610**
- 4. BRENHINIAETH, CHWYLDRO AC ADFER YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1603-1715**
- 5. FFRAINIC: YR ANCIEN RÉGIME HYD NAPOLEON, tua 1715-1815**
- 6. DIWYGIO'R SENEDD A PHROTEST YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1780-1885**
- 7. NEWID A DIWYGIO CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1890-1990**
- 8. CANRIF YR AMERICANWYR, tua 1890-1990**
- 9. Y NEWID YN ARWEINYDDIAETH A CHYMDEITHAS YR ALMAEN, tua 1871-1989**
- 10. Y NEWID YN ARWEINYDDIAETH A CHYMDEITHAS RWSIA, tua 1881-1989**

Rhaid i ganolfannau dalu sylw i'r rheolau cyfuniad sy'n bodoli ynglŷn â dethol astudiaeth eang briodol. Gweler tudalennau 16-17 am gyngor pellach.

UNED 5 (U2)

DEHONGLIADAU HANESYDDOL

Asesiad di-arholiad yw Uned 5. Mae dysgwyr yn ymchwilio i fater o ddadl hanesyddol drwy astudio dehongliadau hanesyddol gwahanol. Yn yr uned hon anogir dysgwyr i ddefnyddio amrediad o ffynonellau, cyfoes a diweddarach i egluro sut a pham mae dehongliadau hanesyddol gwahanol yn cael eu llunio. Drwy'r mater a ddewisir caniateir i ddysgwyr estyn ac ehangu ar eu dealltwriaeth ar agweddau ar yr hanes a astudir yn rhannau ehangach y fanyleb neu gall ddod o faes na chafodd ei astudio yn unman arall yn y fanyleb. **Fodd bynnag, ni ddylai'r mater a ddewisir ddyblygu cynnwys yr astudiaethau manwl a ddewiswyd yn Unedau 2 a 4.**

Mae manylion pellach ynghylch Uned 5 i'w cael yn Adran 3.2.

RHESYMEG DROS YR YMDRINIAETH O HANES CYMRU

Dylid cynnig cyfleoedd i ddysgwyr, wrth iddyn nhw ddilyn y fanyleb hon, ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n codi'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai gwneud hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd.

Mae pob un o'r opsiynau yn Unedau 1-4 sy'n rhoi sylw i hanes Cymru a Lloegr yn cynnwys ffocws nodedig ar faterion allweddol a chynnwys hanes Cymru. Dylai athrawon fod yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfuno materion allweddol a chynnwys hanes Cymru yn rhan o'r rhaglen ddysgu gyffredinol, lle bo'n briodol.

Hefyd, dylai ffynonellau cynradd a dehongliadau hanesyddol sy'n adlewyrchu persbectif Cymreig fod ar gael i'r dysgwyr lle bo'n briodol.

RHESYMEG DROS FANYLEB Y TESTUNAU

Mae manyleb Safon Uwch Hanes CBAC yn cynnig cwrs astudio eang a chydlynol. Fe'i lluniwyd er mwyn rhoi cyfle i'r dysgwyr adeiladu ar y wybodaeth a'r sgiliau a enillwyd ganddynt ym mlwyddyn gyntaf eu hastudiaeth (UG) wrth fynd ymlaen i ail flwyddyn y cwrs (U2).

Mae'r fanyleb yn sicrhau bod y canlynol yn cael eu hastudio:

- hanes mwy nag un wlad neu wladwriaeth
- agweddau ar y gorffennol yn eang ac yn fanwl
- unigolion, cymdeithasau, digwyddiadau a datblygiadau o bwys
- amrywiaeth o bersbectifau hanesyddol addas.

Y ffactorau uchod sy'n sicrhau ehangder y fanyleb ynghyd â'r gofynion canlynol bod dysgwyr yn astudio:

- testunau dros gyfnod cronolegol o o leiaf 200 mlynedd
- elfen sylweddol a chydlynol o hanes Cymru / Lloegr
- newid a datblygiad yn y tymor hir a'r tymor byr.

O ddilyn y fanyleb yn ei chyfanrwydd sicrheir astudiaeth gydlynol. Nid oes cynnwys craidd penodol ar gyfer yr UG na'r Safon Uwch Hanes, ac oherwydd hynny mae'r cwrs hwn yn gyfle i athrawon hanes ddefnyddio amrywiaeth o opsiynau wrth fynd ati i addysgu'r pwnc gan arwain yn y pendraw at gwrs fydd yn eang, yn gytbwys ac yn gydlynol. Mae pob cyfuniad o opsiynau a ganiateir yn golygu bod modd i'r canolfannau lunio manyleb sy'n eang a chydlynol i'r dysgwyr. At hynny, mae strwythur y fanyleb yn galluogi i'r canolfannau ddatblygu cwrs unigol sy'n defnyddi'r arbenigedd sydd ganddynt ar gyfer eu hanghenion â mesur amlwg o gysondeb a hynny heb fod yn rhy ragnodol.

Yn Uned 1, cynigir cyfle i'r dysgwyr astudio cyfnod sylweddol a chydlynol o hanes Prydain neu Ewrop gyda phwyslais ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth a llunio barn gadarnhaol am agweddau ar yr hanes a astudiwyd.

Yn Unedau 2 a 4, cynigir cyfle i'r dysgwyr astudio'n fanylach elfen hanesyddol sy'n fyrrach ac yn gydlynol. Yma, mae'r pwyslais ar ddadansoddi a gwerthuso ffynonellau cyfoes ynghyd â deall sut a pham mae dehongliadau gwahanol ar hanes yn cael eu ffurfio. Er mwyn sicrhau cysondeb pellach, mae'r dysgwyr yn parhau i astudio'r agwedd hon o'r UG i'r U2.

Yn Uned 3, cynigir cyfle i'r dysgwyr brofi hanes yn eang wrth iddyn nhw ganolbwyntio ar newid a datblygiad dros gyfnod sylweddol o amser (100 mlynedd o leiaf) drwy astudio dwy thema wahanol a chysylltiedig. Mae natur thematig y cynnwys yn yr uned hon yn golygu y bydd dysgwyr yn astudio materion mwy cymhleth a heriol dros gyfnod hir o amser.

Yn Uned 5, cynigir cyfle i'r dysgwyr gwblhau darn o ysgrifennu estynedig a ymchwiliwyd yn annibynnol sy'n dwyn ynghyd llawer o'r sgiliau a ddatblygwyd yn unedau eraill y fanyleb.

Fel yr amlinellwyd uchod mae gan y fanyleb gyffredinol natur eang a chydlynol, ond ychwanegir ymhellach at gysondeb y cwrs gan sawl thema a mater canolog sy'n greiddiol i bob opsiwn. Yn eu plith mae materion fel newid rheolaeth wleidyddol, dylanwad ffactorau economaidd ac effaith newidiadau cymdeithasol a diwylliannol. Bydd y sylw a'r drafodaeth sy'n cael eu rhoi i'r ffactorau hyn yn sylfaenol i'r dull o ddelio â phob opsiwn yn y fanyleb hon. Y themâu canolog hyn sy'n pwysleisio ymhellach gysondeb y cwrs waeth pa lwybr sy'n cael ei ddilyn o ran yr opsiynau. Felly mae pob cyfuniad o opsiynau a ganiateir yn sicrhau cwrs astudio sy'n gydlynol a rhyngberthynol gan alluogi'r dysgwyr i ddeall persbectifau hanesyddol mewn cyd-destun sy'n eang ac yn fanwl.

Yn ogystal, gyda'r dewis o opsiynau yn yr unedau gall dysgwyr ddod i gasgliadau am amrywiol brosesau newid a pharhad hanesyddol ac i lunio cysylltiadau mewn perthynas â'r rhain. Mae'r opsiynau a ddewisir yn rhoi dealltwriaeth gydlynol o sut mae newid yn digwydd, sut mae achosion o newid yn rhyng-gysylltu, o raddfeydd newid a pharhad ac o debygrwydd, gwahaniaeth ac arwyddocâd. Mae'r opsiynau a ddewisir hefyd yn sicrhau dealltwriaeth o sut mae unigolion a grwpiau'n achosi ac yn ymateb i newidiadau cymdeithasol, economaidd, crefyddol a diwylliannol ehangach.

Yr un gofynion sydd i bob cyfuniad o opsiynau a ganiateir yn y fanyleb hon. Mae'r fanyleb hefyd yn sicrhau bod ymdriniaeth o gyfnod cronolegol o 200 mlynedd o leiaf yn y testunau a astudir. **Mae hyn yn golygu bod rhaid cael cyfnod o o leiaf 200 mlynedd rhwng y dyddiad cynharaf a astudir mewn unrhyw uned arholiad a'r dyddiad diweddaraf a astudir mewn unrhyw uned arholiad.** Nid yw'r meysydd testun a ddewisir ar gyfer Uned 5 (asesiad di-arholiad) yn cyfrif o ran sicrhau'r cyfnod cronolegol hwn o destunau hanesyddol.

Strwythur y fanyleb a natur ei hunedau sy'n sicrhau bod ehangder a chysondeb ynddi. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau'r ehangder hwn, mae angen egluro rhai cyfyngiadau ar y dewis o opsiynau.

CYFUNIADAU A GANIATEIR

Mae natur eang Uned 3 yn golygu bod cyfuniadau penodol o opsiynau gydag Unedau 1,2 a 4 sy'n cael eu gwahardd oherwydd bod cynnwys yn gorgyffwrdd a'r anallu i roi sylw i destunau o gyfnod cronolegol o 200 mlynedd. **Er mwyn egluro'r sefyllfa i ganolfannau, mae'r tabl isod yn dangos pa gyfuniadau o opsiynau y gellir eu dilyn.** Drwy ddilyn y cyfuniadau hyn o opsiynau bydd canolfannau'n gwneud y canlynol:

- sicrhau'r ganran benodol o hanes Prydain
- sicrhau rhoi sylw i destunau o gyfnod cronolegol o o leiaf 200 mlynedd.
- osgoi sylw'n gorgyffwrdd
- astudio newid a datblygiad dros gyfnod parhaus o o leiaf 100 mlynedd o amser
- sicrhau cydbwysedd priodol o sylw hanesyddol o wledydd penodol.

Mae rhifau pob opsiwn a nodir isod yn cyfeirio at y teitlau a restrir ar dudalennau 10-13 o'r fanyleb.

ASTUDIAETH O GYFNOD UNED 1	ASTUDIAETHAU MANWL – UNEDAU 2 A 4	ASTUDIAETHAU EANG UNED 3
1	5	1, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10
	6	1, 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10
	7	1, 3, 4, 5, 6, 7, 9, 10
	8	1, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 10
2	5	1, 5, 6, 7, 8, 9, 10
	6	1, 2, 3, 6, 7, 8, 9, 10
	7	1, 2, 3, 6, 7, 9, 10
	8	1, 2, 3, 6, 7, 8, 10
3	5	1, 4, 5, 7, 8, 9, 10
	6	1, 2, 3, 4, 7, 8, 9, 10
	7	1, 2, 3, 4, 7, 9, 10
	8	1, 2, 3, 4, 5, 7, 8, 10
4	5	1, 4, 5, 6, 8, 9, 10
	6	1, 2, 3, 4, 6, 8, 9, 10
	7	1, 2, 3, 4, 5, 6
	8	1, 2, 3, 4, 5, 6
5	1	1, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10
	2	1, 5, 6, 7, 8, 9, 10
	3	1, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10
	4	1, 4, 5, 6, 8, 9, 10
6	1	1, 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10
	2	1, 2, 3, 6, 7, 8, 9, 10
	3	1, 2, 3, 4, 7, 8, 9, 10
	4	1, 2, 3, 4, 6, 8, 9, 10
7	1	1, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10
	2	1, 2, 3, 4, 7, 8, 9, 10
	3	1, 2, 3, 4, 7, 8, 9, 10
	4	1, 2, 3, 4, 6, 8, 9, 10
8	1	1, 3, 4, 5, 6, 7, 8
	2	1, 2, 3, 5, 6, 7, 8
	3	1, 2, 3, 4, 5, 7, 8
	4	1, 2, 3, 4, 5, 6

2.1 UNEDAU UG**UNED 1 - ASTUDIAETHAU O GYFNOD****UNED 1 - OPSIWN 1****LLYWODRAETH, GWRTHRYFEL A CHYMDEITHAS YNG NGHYMURU A LLOEGR, tua 1485-1603**

Mae'r opsiwn hwn yn cynnig cyfle i astudio llywodraeth, gwrthryfel a chymdeithas yng Nghymru a Lloegr tua 1485-1603.

Yn yr opsiwn hwn gall dysgwyr ystyried sut effeithiodd datblygiadau amrywiol ar lywodraeth, cymdeithas a chrefydd ar yr adeg hon. Bydd yr astudiaeth yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddatblygiadau a newidiadau dros gyfnod ehangach o amser a bydd dysgwyr yn astudio amrywiaeth o destunau arwyddocaol dros gyfnod sylweddol o amser. Byddant yn dangos eu dealltwriaeth drwy wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng agweddau gwahanol ar y cyfnod a astudiwyd. Byddant yn dadansoddi ac yn egluro achosion a chanlyniadau digwyddiadau a sefyllfaoedd hanesyddol ac yna'n dod i gasgliadau cadarnhaol ynglŷn ag arwyddocâd unigolion, grwpiau, digwyddiadau, datblygiadau a syniadau ar draws y cyfnod hwn.

Drwy'r opsiwn hwn gall dysgwyr astudio cysyniadau hanesyddol perthnasol drwy ymchwilio a gwerthuso amrediad o faterion allweddol a chynnwys. Byddant yn cyfeirio at amrediad o safbwyntiau hanesyddol priodol ac yn cyfleu'r hyn maen nhw'n ei ddeall drwy wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng gwahanol agweddau ar y cyfnod a astudiwyd. Dangosir isod y cysyniadau a'r safbwyntiau sy'n gysylltiedig â'r cynnwys a materion allweddol:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys
Arwyddocâd y prif newidiadau mewn gwleidyddiaeth a llywodraeth 1485-1603	<i>y dulliau a ddefnyddiwyd gan Harri VII i sefydlu llinach y Tuduriaid maint y chwyldro yn y llywodraeth dan Harri VIII rôl ac effeithiolrwydd prif weinidogion y Tuduriaid yn eu plith Wolsey, Cromwell a Cecil y newid ym mherthynas Elisabeth â'i chyfrin gyngor a'r Senedd</i>
Arwyddocâd y prif ddatblygiadau mewn crefydd 1529-1588	<i>prif nodweddion ac effeithiau'r Diwygiad dan Harri effaith polisiâu crefyddol Edward VI effaith y gwrthddiwygiad Catholig yn ystod teyrnasiad Mari ardrefniant Eglwysig Elisabeth a'i effeithiau</i>
Arwyddocâd y prif brotestiadau a gwrthryfeloedd yn erbyn y brenhinoedd Tuduraidd 1509-1569	<i>y Bererindod Gras, Gwrthryfel y Gorllewin, gwrthryfeloedd Kett, Wyatt ac Ieirll y Gogledd: achosion a nodweddion y gwrthryfeloedd a'r protestiadau hyn maint bygythiad y gwrthryfeloedd a'r protestiadau hyn y rhesymau dros fethiant y gwrthryfeloedd a'r protestiadau hyn</i>
Maint y newid economaidd yn yr unfed ganrif ar bymtheg	<i>twf masnach a diwydiant twf y bonedd datblygiad trefi a'r dosbarthiadau masnachol agwedd tuag at y tlawd a chrwydriaid, a'r driniaeth a gawsant</i>
Y newid yn y berthynas rhwng Cymru a Lloegr ar ôl 1530	<i>y rhesymau dros Ddeddfau Uno 1536 a 1543, ac effaith y rhain ar Gymru a Lloegr gwaith ac effaith Cyngor Cymru a'r Gororau effaith newid cymdeithasol yng Nghymru ar ei pherthynas â Lloegr effaith polisi crefyddol ar Gymru gan gynnwys cyfieithu'r Ysgrythurau i Gymraeg</i>

UNED 1 - OPSIWN 2

**LLYWODRAETH, CHWYLDRO A CHYMDEITHAS YNG NGHYMRU A LLOEGR,
tua 1603-1715**

Mae'r opsiwn hwn yn cynnig cyfle i astudio llywodraeth, chwyldro a chymdeithas yng Nghymru a Lloegr tua 1603-1715.

Yn yr opsiwn hwn gall dysgwyr i ystyried sut effeithiodd datblygiadau amrywiol ar y llywodraeth a'r gymdeithas yn ystod y cyfnod hwn. Bydd yr astudiaeth yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddatblygiadau a newidiadau dros gyfnod ehangach o amser a bydd dysgwyr yn astudio amrywiaeth o destunau arwyddocaol dros gyfnod sylweddol o amser. Byddant yn dangos eu dealltwriaeth drwy wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng agweddau gwahanol ar y cyfnod a astudiwyd. Byddant yn dadansoddi ac yn egluro achosion a chanlyniadau digwyddiadau a sefyllfaoedd hanesyddol ac yna'n dod i gasgliadau cadarnhaol ynglŷn ag arwyddocâd unigolion, grwpiau, digwyddiadau, datblygiadau a syniadau ar draws y cyfnod hwn.

Drwy'r opsiwn hwn gall dysgwyr astudio cysyniadau hanesyddol perthnasol drwy ymchwilio a gwerthuso amrediad o faterion allweddol a chynnwys. Byddant yn cyfeirio at amrediad o safbwyntiau hanesyddol priodol ac yn cyfleu'r hyn maen nhw'n ei ddeall drwy wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng gwahanol agweddau ar y cyfnod a astudiwyd. Dangosir isod y cysyniadau a'r safbwyntiau sy'n gysylltiedig â'r materion allweddol a'r cynnwys:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys
Arwyddocâd y prif sialensiau oedd yn wynebu brehinoedd y Stiwartiaid 1603-1642	<i>y dulliau a ddefnyddiwyd gan Iago I i sefydlu a chynnal llinach y Stiwartiaid yng Nghymru a Lloegr 1603-1625 effeithiolrwydd Siarl I wrth ddelio â'r sialensiau a wynebodd hyd 1642 problemau ac anghydfodau rhwng y Goron a'r Senedd hyd 1642</i>
Effaith y Rhyfel Cartref ar y genedl 1640-1649	<i>y rhesymau dros ddechrau'r rhyfel cartref erbyn 1642 effaith y Rhyfel Cartref ar fywydau pobl yng Nghymru a Lloegr y rhesymau dros fuddugoliaeth y Senedd yn y Rhyfel Cartref y rhesymau dros y Teyrnlladdiad, a'i bwysigrwydd</i>
Effaith arbrofion llywodraethu seneddol 1649-1660	<i>ymateb Cromwell i'r sialensiau a wynebwyd gan y Llywodraeth Seneddol yng Nghymru a Lloegr yr Uwch-Frigadwyr, yr Offeryn Llywodraeth a Cromwell fel Arglwydd Amddiffynnydd effaith y Werinlywodraeth ar fywydau pobl yng Nghymru a Lloegr methiant eithaf gweriniaetholdeb a'i wrthod yng Nghymru</i>
Y pwysau'n newid ar ôl yr Adferiad 1660-1685	<i>y rhesymau dros adferiad y frenhiniaeth a'i boblogrwydd yng Nghymru polisiau gwleidyddol a chrefyddol Siarl II yng Nghymru a Lloegr cydberthynas y Brenin a'r Senedd materion yr olyniaeth</i>
Arwyddocâd y Chwyldro Gogoneddus a'r Ardrefniant Chwyldroadol	<i>y rhesymau dros y gwrthdaro rhwng Iago II a'r Senedd esgyniad William a Mari a'r Chwyldro Gogoneddus yng Nghymru a Lloegr effaith y Mesur lawnderau a'r Ardrefniant Chwyldroadol ar Gymru a Lloegr datblygu gwleidyddiaeth bleidiol yng Nghymru a Lloegr ar ôl 1689</i>

UNED 1 - OPSIWN 3

GWLEIDYDDIAETH, PROTEST A DIWYGIO YNG NGHYMRU A LLOEGR tua 1780-1880

Mae'r opsiwn hwn yn cynnig cyfle i astudio agweddau ar wleidyddiaeth, protest a diwygio yng Nghymru a Lloegr tua 1780-1880.

Yn yr opsiwn hwn gall dysgwyr ystyried sut effeithiodd datblygiadau amrywiol ar lywodraeth a chymdeithas yn ystod y cyfnod hwn. Bydd yr astudiaeth yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddatblygiadau a newidiadau dros gyfnod ehangach o amser a bydd dysgwyr yn astudio amrywiaeth o destunau arwyddocaol dros gyfnod sylweddol o amser. Byddant yn dangos eu dealltwriaeth drwy wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng agweddau gwahanol ar y cyfnod a astudiwyd. Byddant yn dadansoddi ac yn egluro achosion a chanlyniadau digwyddiadau a sefyllfaoedd hanesyddol ac yna'n dod i gasgliadau cadarnhaol ynglŷn ag arwyddocâd unigolion, grwpiau, digwyddiadau, datblygiadau a syniadau ar draws y cyfnod hwn.

Drwy'r opsiwn hwn gall dysgwyr astudio cysyniadau hanesyddol perthnasol drwy ymchwilio a gwerthuso amrediad o faterion allweddol a chynnwys. Byddant yn cyfeirio at amrediad o safbwyntiau hanesyddol priodol ac yn cyfleu'r hyn maen nhw'n ei ddeall drwy wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng gwahanol agweddau ar y cyfnod a astudiwyd. Dangosir isod y cysyniadau a'r safbwyntiau sy'n gysylltiedig â'r materion allweddol a'r cynnwys:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys
Y pwysau cynyddol am ddiwygio seneddol 1780-1832	<i>ymdrechion cynnar i ddiwygio'r Senedd yn y 1780au sialens y Chwyldro Ffrengig ar ôl 1789 y prif resymau dros alw am ddiwygio'r Senedd arwyddocâd argyfwng y Ddeddf Ddiwygio 1830-1832</i>
Y newid yn ymateb y llywodraeth i'r pwysau gwleidyddol a chymdeithasol 1812-1830	<i>datblygiad anniddigrwydd a phrotest radicalaidd yng Nghymru a Lloegr ar ôl 1812 ymateb llywodraethau'r Arglwydd Liverpool 1812-1822 y rhesymau dros ddiwygiadau'r Torïaid Rhyddfrydol a'u pwysigrwydd 1822-1830</i>
Arwyddocâd bygythiad protestiadau gwledig a threfol 1830-1848	<i>achosion ac effaith Gwrthryfel Merthyr achosion ac effaith protestiadau gwledig yng Nghymru a Lloegr yn y 1830au a'r 1840au achosion ac effaith mudiad y Siartwyr yng Nghymru a Lloegr ymatebion y Llywodraeth i'r protestiadau hyn</i>
Maint ac effaith diwygiadau cymdeithasol ac economaidd 1833-1848	<i>y cymhellion a'r pwysau am ddiwygio cymdeithasol pwysigrwydd diwygiadau'r Chwigiaid 1833-1841 y Cynghrair er Diddymu'r Deddfau Yd a diddymu'r Deddfau Yd diwygio ffatrioedd a mwyngloddiau, iechyd cyhoeddus, addysg a chyfraith y tlodion</i>
Y newidiadau yn hynt arweinwyr a phleidiau gwleidyddol yng Nghymru a Lloegr 1830-1880	<i>Syr Robert Peel, y blaid Geidwadol ac effeithiolrwydd ei ddiwygiadau 1834-1846 y rhesymau dros ffurfio'r blaid Ryddfrydol prif nodweddion gweinyddiaeth gyntaf Gladstone, 1868-1874 Disraeli, Ail Ddeddf Ddiwygio 1867 a Cheidwadaeth ar waith, 1874-1880</i>

UNED 1 - OPSIWN 4

GWLEIDYDDIAETH, POBL A CHYNNYDD: YNG NGHYMRU A LLOEGR tua 1880-1980

Mae'r opsiwn hwn yn cynnig cyfle i astudio agweddau ar wleidyddiaeth a chymdeithas yng Nghymru a Lloegr tua 1880-1980.

Yn yr opsiwn hwn gall dysgwyr ystyried sut effeithiodd datblygiadau amrywiol ar y llywodraeth a'r gymdeithas yn ystod y cyfnod hwn. Bydd yr astudiaeth yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddatblygiadau a newidiadau dros gyfnod ehangach o amser a bydd dysgwyr yn astudio amrywiaeth o destunau arwyddocaol dros gyfnod sylweddol o amser. Byddant yn dangos eu dealltwriaeth drwy wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng agweddau gwahanol ar y cyfnod a astudiwyd. Byddant yn dadansoddi ac yn egluro achosion a chanlyniadau digwyddiadau a sefyllfaoedd hanesyddol ac yna'n dod i gasgliadau cadarnhaol ynglŷn ag arwyddocâd unigolion, grwpiau, digwyddiadau, datblygiadau a syniadau ar draws y cyfnod hwn.

Drwy'r opsiwn hwn gall dysgwyr astudio cysyniadau hanesyddol perthnasol drwy ymchwilio a gwerthuso amrediad o faterion allweddol a chynnwys. Byddant yn cyfeirio at amrediad o safbwyntiau hanesyddol priodol ac yn cyfleu'r hyn maen nhw'n ei ddeall drwy wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng gwahanol agweddau ar y cyfnod a astudiwyd. Dangosir isod y cysyniadau a'r safbwyntiau sy'n gysylltiedig â'r materion allweddol a'r cynnwys:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys
Maint y newid mewn cymdeithas 1880-1951	<i>ymateb y Llywodraethau Rhyddfrydol i'r sialensiau oedd yn wynebu Cymru a Lloegr 1906-1914 achosion a maint y problemau economaidd yng Nghymru a Lloegr yn y 1920au a'r 1930au, a'r ymatebion iddynt effeithiolrwydd diwygiadau'r llywodraethau Llafur, 1945-1951</i>
Y newid yn safle'r pleidiau gwleidyddol 1880-1951	<i>y newidiadau yn hynt y Blaid Ryddfrydol yng Nghymru a Lloegr yn y cyfnod hwn y newid yn safle'r Blaid Geidwadol yng Nghymru a Lloegr yn ystod y cyfnod hwn twf y Blaid Lafur yng Nghymru a Lloegr yn ystod y cyfnod hwn llwyddiant llywodraethau clymblaid: yn ystod y rhyfel ac yn y 1930au</i>
Effaith y rhyfel ar gymdeithas yng Nghymru a Lloegr 1902-1951	<i>effaith cymdeithasol ac economaidd Rhyfel y Boer effaith cymdeithasol ac economaidd y Rhyfel Byd Cyntaf effaith cymdeithasol ac economaidd yr Ail Ryfel Byd</i>
Arwyddocâd y prif ddatblygiadau yng Nghymru a Lloegr 1918-1980	<i>y newid yn natur yr economi, gwaith a chyflogaeth yng Nghymru a Lloegr newid agweddau tuag at iaith a diwylliant Cymru galw am newid gwleidyddol yng Nghymru a Lloegr maint y newid cymdeithasol, crefyddol a diwylliannol yng Nghymru a Lloegr</i>
Y newid yn rôl a statws menywod 1880-1980	<i>yr ymgyrch dros bleidlais i fenywod yng Nghymru a Lloegr cyn 1918 y rhesymau dros estyn yr etholfraint yn 1918 a 1929 effaith rhyfel ar y newid yn rôl a statws menywod 1914 - 1951 cyfleoedd cymdeithasol a chyflogaeth a newid deddfwriaethol ar ôl 1945</i>

UNED 1 - OPSIWN 5

NEWID GWLEIDYDDOL A CHREFYDDOL YN EWROP, tua 1500-1598

Mae'r opsiwn hwn yn cynnig cyfle i astudio newid gwleidyddol a chrefyddol yn Ewrop tua 1500-1598.

Yn yr opsiwn hwn gall dysgwyr ystyried sut effeithiodd datblygiadau amrywiol ar y llywodraeth a'r gymdeithas yn Ewrop. Bydd yr astudiaeth yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddatblygiadau a newidiadau dros gyfnod ehangach o amser a bydd dysgwyr yn astudio amrywiaeth o destunau arwyddocaol dros gyfnod sylweddol o amser. Byddant yn dangos eu dealltwriaeth drwy wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng agweddau gwahanol ar y cyfnod a astudiwyd. Byddant yn dadansoddi ac yn egluro achosion a chanlyniadau digwyddiadau a sefyllfaoedd hanesyddol ac yna'n dod i gasgliadau cadarnhaol ynglŷn ag arwyddocâd unigolion, grwpiau, digwyddiadau, datblygiadau a syniadau ar draws y cyfnod hwn.

Drwy'r opsiwn hwn gall dysgwyr astudio cysyniadau hanesyddol perthnasol drwy ymchwilio a gwerthuso amrediad o faterion allweddol a chynnwys. Byddant yn cyfeirio at amrediad o safbwyntiau hanesyddol priodol ac yn cyfleu'r hyn maen nhw'n ei ddeall drwy wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng gwahanol agweddau ar y cyfnod a astudiwyd. Dangosir isod y cysyniadau a'r safbwyntiau sy'n gysylltiedig â'r materion allweddol a'r cynnwys:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys
Arwyddocâd y prif ddylanwadau ar Ewrop yn ar ddechrau'r uned ganrif ar bymtheg	<i>safle'r Eglwys Gatholig ar ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg twf fforio a darganfod pŵer cynyddol y gwladwriaethau cenedlaethol dylanwad diwylliant y Dadeni</i>
Effaith y newid crefyddol 1517-1564	<i>effaith Martin Luther ar ddatblygiad y Diwygiad Protestannaidd yn yr Almaen y rhesymau dros ledaeniad Lutheriaeth: traethodynnau beirniadol, defnyddio'r wasg argraffu, dylanwad y trefi a'r dinasoedd, pwysau cymdeithasol pwysigrwydd Heddwch Augsburg, 1555 dechrau'r Gwrthddiwygiad</i>
Arwyddocâd y prif sialensiau oedd yn wynebu Ffrainc ar ganol yr unfed ganrif ar bymtheg	<i>datblygu brenhiniaeth absoliwt yn Ffrainc dan Ffransis I; effeithiolrwydd polisiâu crefyddol, diwylliannol, ariannol ac economaidd Ffransis I prif nodweddion y gystadleuaeth rhwng yr Hapsbwrgiaid a'r Valois</i>
Effaith y prif sialensiau oedd yn wynebu Sbaen hyd 1598	<i>Siarl V a sialensiau rheoli'r Ymerodraeth Rufeinig Sanctaidd effaith gymdeithasol ac economaidd fforio i'r Byd Newydd llwyddiant polisiâu economaidd ac ariannol Philip II polisi tramor Phillip II gan gynnwys yr Iseldiroedd</i>
Maint bygythiad yr Ymerodraeth Otomanaidd yn yr unfed ganrif ar bymtheg	<i>teyrnasiad Swleiman Ysblennydd a'r Otomanaid yn ymledu i ddwyrain Ewrop natur Ymateb yr Hapsbwrgiaid i'r bygythiad Otomanaidd effeithiolrwydd Ymateb Ffrainc i'r bygythiad Otomanaidd pwysigrwydd brwydr Lepanto</i>

UNED 1 - OPSIWN 6

EWROP MEWN OES O ABSOLIWTIAETH A CHWYLDRO tua 1682-1815

Mae'r opsiwn hwn yn cynnig cyfle i astudio Ewrop mewn oes o absoliwtiaeth a chwyldro tua 1682-1815.

Yn yr opsiwn hwn gall dysgwyr ystyried sut effeithiodd datblygiadau amrywiol ar y llywodraeth a'r gymdeithas yn Ewrop. Bydd yr astudiaeth yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddatblygiadau a newidiadau dros gyfnod ehangach o amser a bydd dysgwyr yn astudio amrywiaeth o destunau arwyddocaol dros gyfnod sylweddol o amser. Byddant yn dangos eu dealltwriaeth drwy wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng agweddau gwahanol ar y cyfnod a astudiwyd. Byddant yn dadansoddi ac egluro achosion a chanlyniadau digwyddiadau a sefyllfaoedd hanesyddol ac yna'n dod i gasgliadau cadarnhaol ynglŷn ag arwyddocâd unigolion, grwpiau, digwyddiadau, datblygiadau a syniadau ar draws y cyfnod hwn.

Drwy'r opsiwn hwn gall dysgwyr astudio cysyniadau hanesyddol perthnasol drwy ymchwilio a gwerthuso amrediad o faterion allweddol a chynnwys. Byddant yn cyfeirio at amrediad o safbwyntiau hanesyddol priodol ac yn cyfleu'r hyn maen nhw'n ei ddeall drwy wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng gwahanol agweddau ar y cyfnod a astudiwyd. Dangosir isod y cysyniadau a'r safbwyntiau sy'n gysylltiedig â'r materion allweddol a'r cynnwys:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys
Arwyddocâd y prif ddatblygiadau yn Rwsia dan Pedr Fawr	<i>effaith polisiâu cartref Pedr ar gymdeithas, economi a chrefydd diwygio ac ehangu'r lluoedd arfog dylanwad gorllewineiddio ar Rwsia maint y llwyddiant yn y polisi tramor a rhyfel</i>
Arwyddocâd y prif newidiadau ym Mhrwsia dan Ffredrig Fawr	<i>y prif sialensiau a oedd yn wynebu Ffredrig Fawr ar ei esgyniad effeithiolrwydd diwygiadau Ffredrig Fawr ar strwythur cartref gwladwriaeth Prwsia maint llwyddiant polisi tramor Ffredrig Fawr i ba raddau y gellir ystyried Ffredrig Fawr yn 'Unben Goleuedig'</i>
Maint y newid yn Ffrainc hyd 1789	<i>yr ancien régime yn ystod teyrnasiad Louis XV, 1715-1774 strwythur y wladwriaeth - gwleidyddol, ariannol a chrefyddol Louis XVI ac achosion y Chwyldro Ffrengig, 1774-1789</i>
Maint y newid yng Nghyberthynas y Pwerau Mawr hyd 1756	<i>pŵer yn newid yng ngwledydd y Môr Baltig ar ôl Rhyfel Mawr y Gogledd effaith Rhyfel Olyniaeth Awstria ar gydberthynas y Pwerau Mawr effeithiau'r Chwyldro Diplomyddol</i>
Arwyddocâd diplomyddiaeth a gwrthdaro yn Ewrop 1756-1815	<i>dechreuadau, datblygiad ac effaith y Rhyfel Saith Mlynedd effaith Rhyfeloedd y Chwyldro yn Ffrainc a Rhyfeloedd Napoleon ar gydberthynas y Pwerau Mawr</i>

UNED 1 - OPSIWN 7

CHWYLDRO A SYNIADAU NEWYDD YN EWROP tua 1780-1881

Mae'r opsiwn hwn yn cynnig cyfle i astudio Ewrop mewn oes o chwyldro a syniadau newydd tua 1780-1881.

Yn yr opsiwn hwn gall myfyrwyr ystyried sut roedd datblygiadau amrywiol yn gosod sialensiau i lywodraethau a'r gymdeithas ar yr adeg hon a sut ymatebwyd i hynny. Bydd dysgwyr yn dangos eu dealltwriaeth drwy wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng agweddau gwahanol ar y cyfnod a astudiwyd. Byddant yn dadansoddi ac yn egluro achosion a chanlyniadau digwyddiadau a sefyllfaoedd hanesyddol ac yna'n dod i gasgliadau cadarnhaol ynglŷn ag arwyddocâd unigolion, grwpiau, digwyddiadau, datblygiadau a syniadau ar draws y cyfnod hwn.

Drwy'r opsiwn hwn gall dysgwyr astudio cysyniadau hanesyddol perthnasol drwy ymchwilio a gwerthuso amrediad o faterion allweddol a chynnwys. Byddant yn cyfeirio at amrediad o safbwyntiau hanesyddol priodol ac yn cyfleu'r hyn maen nhw'n ei ddeall drwy wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng gwahanol agweddau ar y cyfnod a astudiwyd. Dangosir isod y cysyniadau a'r safbwyntiau sy'n gysylltiedig â'r materion allweddol a'r cynnwys:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys
Effaith rhyfel a chwyldro 1780-1856	<i>effaith Rhyfeloedd y Chwyldro yn Ffrainc a Rhyfeloedd Napoleon ar gydberthynas y Pwerau Mawr y rhesymau dros ymdrechion i gyd-weithio'n rhyngwladol, ac effeithiolrwydd hynny 1815-1822 achosion chwyldro yn Ewrop yn 1830-1848 effaith Cwestiwn y Dwyrain ar gydberthynas y Pwerau Mawr rhwng 1780-1856</i>
Twf cenedlaetholdeb yn yr Eidal 1815-1871	<i>y prif ffactorau wnaeth ysgogi a llesteirio cenedlaetholdeb yn yr Eidal ar ôl 1815 effaith chwyldroadau 1848 ar y broses o uno'r Eidal cyfraniad unigolion o bwys at uno'r Eidal rôl y Pwerau Mawr yn uno'r Eidal</i>
Twf cenedlaetholdeb yn yr Almaen 1815-1871	<i>y prif ffactorau wnaeth ysgogi a / neu lesteirio cenedlaetholdeb yn yr Almaen ar ôl 1815 effaith chwyldroadau 1848 ar y broses o uno'r Almaen cyfraniad unigolion o bwys at uno'r Almaen symud tuag at uno yn y 1860au: rolau rhyfel a diplomyddiaeth</i>
Arwyddocâd y prif sialensiau oedd yn wynebu Ffrainc 1848-1871	<i>chwyldro yn 1848, y coup d'etat a sefydlu'r Ail Ymerodraeth cymeriad ac amcanion Napoleon III effaith polisiau cartref a thramor Napoleon III y rhesymau dros gwmp yr Ail Ymerodraeth</i>
Maint y newid gwleidyddol a chymdeithasol yn Rwsia 1825-1881	<i>effeithiolrwydd rheolaeth Nicholas I Alexander II a rhyddfrenio'r taeogion maint llwyddiant diwygiadau eraill dan Alexander II twf gwrthwynebiad erbyn 1881</i>

UNED 1 - OPSIWN 8

EWROP MEWN OES O WRTHDARO A CHYDWEITHREDU tua 1890-1991

Mae'r opsiwn hwn yn cynnig cyfle i astudio agweddau ar hanes Ewrop mewn oes o wrthdaro a chydweithredu tua 1890-1991.

Yn yr opsiwn hwn gall dysgwyr ystyried sut effeithiodd canrif o wrthdaro a chydweithredu ar Ewrop. Bydd yr astudiaeth yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddatblygiadau a newidiadau dros gyfnod ehangach o amser a bydd dysgwyr yn astudio amrywiaeth o destunau arwyddocaol dros gyfnod sylweddol o amser. Byddant yn dangos eu dealltwriaeth drwy wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng agweddau gwahanol ar y cyfnod a astudiwyd. Byddant yn dadansoddi ac egluro achosion a chanlyniadau digwyddiadau a sefyllfaoedd hanesyddol ac yna'n dod i gasgliadau cadarnhaol ynglŷn ag arwyddocâd unigolion, grwpiau, digwyddiadau, datblygiadau a syniadau ar draws y cyfnod hwn.

Drwy'r opsiwn hwn gall dysgwyr astudio cysyniadau hanesyddol perthnasol drwy ymchwilio a gwerthuso amrediad o faterion allweddol a chynnwys. Byddant yn cyfeirio at amrediad o safbwyntiau hanesyddol priodol ac yn cyfleu'r hyn maen nhw'n ei ddeall drwy wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng gwahanol agweddau ar y cyfnod a astudiwyd. Dangosir isod y cysyniadau a'r safbwyntiau sy'n gysylltiedig â'r materion allweddol a'r cynnwys:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys
Arwyddocâd y prif newidiadau i'r gydberthynas ryngwladol 1890-1939	<i>sefydlu Cynghreiriau ac Ententes cyn 1914 ac achosion y Rhyfel Byd Cyntaf cymod a chystadleuaeth y Pwerau Mawr ar ôl 1918 gan gynnwys effeithiolrwydd y cytundebau rhyngwladol a Chynghrair y Cenhedloedd cefnidir ac achosion yr Ail Ryfel Byd</i>
Maint y newid gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd yn yr Eidal 1918-1945	<i>y prif fygythiadau i sefydlogrwydd y llywodraethau Rhyddfrydol yn yr Eidal ar ôl 1918 y rhesymau dros sefydlu unbennaeth yn yr Eidal yn y 1920au effaith polisiâu cartref Ffasgaidd ar yr Eidal hyd 1945 effeithiolrwydd y gwrthsefyll a'r gwrthwynebu i'r gyfundrefn Ffasgaidd yn yr Eidal</i>
Maint y newid gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd yn yr Almaen 1918-1945	<i>y prif fygythiadau i sefydlogrwydd Gweriniaeth Weimar yn yr Almaen sefydlu unbennaeth yn yr Almaen yn y 1930au effaith polisiâu cartref Natsiaidd ar yr Almaen hyd 1945 effeithiolrwydd y gwrthsefyll a'r gwrthwynebu yn yr Almaen Natsiaidd</i>
Effaith y chwyldro yn Rwsia 1905-1945	<i>prif achosion ac effeithiau chwyldro 1905 y rhesymau dros chwyldro yn 1917 Rhyfel Cartref a'r Bolsiefigiaid yn atgyfnerthu grym 1917-1924 Effaith newidiadau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd Stalin hyd 1945</i>
Arwyddocâd y newid yn y gydberthynas yn Ewrop 1945-1991	<i>rhannu Ewrop ar ôl y rhyfel dechreuadau ac effeithiau'r Rhyfel Oer yn Ewrop ar ôl 1945 yr ysfa am gydweithrediad economaidd a symudiadau i gyfeiriad integreiddio yn Ewrop yn y 1960au symudiadau tuag at gydfodolaeth a détente o'r 1970au</i>

UNED 2 - ASTUDIAETHAU MANWL: Rhan 1

UNED 2 - OPSIWN 1

ARGYFWNG CANOL OES Y TUDURIAID YNG NGHYMURU A LLOEGR TUA
1529-1570

RHAN 1: PROBLEMAU, BYGYTHIADAU A SIALENSIAU tua 1529-1553

Dylai dysgwyr astudio'n fanwl amrediad o destunau hanesyddol sy'n ymwneud â'r prif broblemau, bygythiadau a sialensiau oedd yn wynebu Cymru a Lloegr yn ystod Oes y Tuduriaid tua 1529-1553. **Rhan gynharach yr astudiaeth fanwl gyfan sy'n parhau yn Uned 4 yw hon.**

Dylai dysgwyr ddeall y cysylltiadau a'r cymhlethdodau wnaeth ddylanwadu ar fywyd yn y cyfnod hwn. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf drwy ddadansoddi a gwerthuso amrediad o wahanol fathau o ffynonellau cynradd a/neu gyfoes a detholiadau gan haneswyr. Lle bo'n briodol, byddant yn cynnwys deunydd o ffynonellau o Gymru. Yn ogystal, disgwylir i ddysgwyr drafod dadleuon hanesyddol a sut a pham y ffurfiwyd dehongliadau hanesyddol gwahanol mewn perthynas â'r cynnwys a nodir isod.

Wrth astudio'r opsiwn hwn, dylai dysgwyr ddadlau a rhoi sylw i'r canlynol:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys
Maint y newid yn rheolaeth Cymru	<i>cyflwr gwleidyddol a chymdeithasol Cymru, gan gynnwys maint yr anghyfraith; Englefield a Lee; rôl Cyngor Cymru a'r Gororau; protest Rhys ap Gruffudd; y rhesymau dros yr uno rhwng Cymru a Lloegr; y Deddfau Uno, 1536-1543</i>
Y rhesymau dros newid crefyddol, ac effaith hynny	<i>'Mater Mawr' y Brenin; deddfwriaeth grefyddol yn y 1530au a'r 1540au; diddymu'r mynachlogydd; polisiau crefyddol ac eglwysig 1547-1553, gan gynnwys y Llyfrau Gweddi a'r Deddfau Unffurfiaeth; gwrthwynebiad i newid crefyddol;</i>
Effaith newidiadau gwleidyddol	<i>esgyniad a chwymp Thomas Cromwell; newid gwleidyddol a deddfwriaeth o dan Harri VIII; materion yn ymwneud ag esgyniad a llywodraeth leiafrifol Edward VI; carfanau ('faction' yn Saesneg) ac effaith hynny yn ystod rheolaeth Somerset a Northumberland</i>
Arwyddocâd bygythiad protest ac anrhefn	<i>achosion gwrthryfel ac anghydfod; y Bererindod Gras; gwrthryfeloedd 1549 (Western a Kett); ymateb yr awdurdodau</i>
Dehongliadau hanesyddol o faterion allweddol o'r cyfnod hwn	<i>dehongliadau hanesyddol gwahanol o faterion allweddol yn y cyfnod hwn yn ymdrin â nifer o ddatblygiadau yn eu plith: maint y newid yng Nghymru yn y 1530au a'r 1540au achosion ac effaith newidiadau crefyddol ar Gymru a Lloegr effeithiau'r Diwygiad dan Harri achosion y prif wrthryfeloedd yn y cyfnod hwn, a'u bygythiadau</i>

UNED 2 - OPSIWN 2

BRENHINIAETH, GWRTHRYFEL A GWERINIAETH, tua 1625-1660**RHAN 1: Y PWYSAU AR Y FRENHINIAETH A'R SYMUD I GYFEIRIAD RHYFEL CARTREF tua 1625-1642**

Dylai dysgwyr astudio'n fanwl amrediad o destunau hanesyddol yn ymwneud â chyfnod y llywodraeth Frenhinol a dechreuad y Rhyfel Cartref tua 1625-1642. **Rhan gynharach yr astudiaeth fanwl gyfan sy'n parhau yn Uned 4 yw hon.**

Dylai dysgwyr ddeall y cysylltiadau a'r cymhlethdodau wnaeth ddylanwadu ar wleidyddiaeth a chymdeithas yn y cyfnod hwn. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf drwy ddadansoddi a gwerthuso amrediad o wahanol fathau o ffynonellau cynradd a/neu cyfoes a detholiadau gan haneswyr. Lle bo'n briodol, byddant yn cynnwys deunydd o ffynonellau o Gymru. Yn ogystal, disgwylir i ddysgwyr drafod dadleuon hanesyddol a sut a pham y ffurfiwyd dehongliadau hanesyddol gwahanol mewn perthynas â'r cynnwys a nodir isod.

Wrth astudio'r opsiwn hwn, dylai dysgwyr ddadlau a rhoi sylw i'r canlynol:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys
Arwyddocâd anghydfodau cynnar rhwng y Brenin a'r Senedd hyd 1629	<i>etifeddiaeth Iago I; y frenhiniaeth a'r Hawl Ddwylol: cymeriad ac amcanion Siarl I; y sialensiau i lywodraeth Siarl I: twf y gwrthwynebiad seneddol i'r Brenin; y Ddeiseb lawnderau; diddymu'r Senedd ac ymrwymiad y Brenin i Reolaeth Bersonol</i>
Effaith Rheolaeth Bersonol ar ôl 1629	<i>Rheolaeth Bersonol Siarl I: ei brif weinidogion; dulliau llywodraethu; polisiau ariannol a'r adwaith yn eu herbyn; materion crefyddol: Laud ac Arminiaeth; twf gwrthwynebiad y Piwritaniaid</i>
Twf tensiwn a phwysau ar ddechrau'r 1640au	<i>adalw'r senedd; cryfderau a rhaniadau'r gwrthwynebwyr seneddol; Pym a datblygiad radicaliaeth Seneddol; y Gwrthdystiad Mawr; ymdrechion i orfodi awdurdod brenhinol; dienyddiad Strafford; effaith digwyddiadau yn Iwerddon; methu ag arestio'r Pum Aelod; paratodau milwrol at ryfel; dechrau'r Rhyfel Cartref yn 1642</i>
Effaith y pwysau cynyddol ar Gymru, yr Alban ac Iwerddon	<i>Rhyfel yr Esgobion a'i effaith; ymateb gwleidyddol yng Nghymru a rôl Aelodau Seneddol Cymru; effaith digwyddiadau yn Iwerddon ar y tensiwn oedd yn cynyddu</i>
Dehongliadau hanesyddol o faterion allweddol o'r cyfnod hwn	<i>dehongliadau hanesyddol gwahanol o faterion allweddol yn y cyfnod hwn yn trafod nifer o ddatblygiadau yn eu plith: agwedd a pholisiau Siarl I Rheolaeth Bersonol ac adalw'r Senedd y rhesymau a'r cyfrifoldeb dros ddechrau'r rhyfel effaith datblygiadau yng Nghymru, yr Alban ac Iwerddon</i>

UNED 2 - OPSIWN 3

DIWYGIO A PHROTEST YNG NGHYMURU A LLOEGR tua 1783-1848

RHAN 1: RADICALIAETH A'R YMGYRCH O BLAID DIWYGIO'R SENEDD, tua 1783-1832

Dylai dysgwyr astudio'n fanwl amrediad o destunau a phroblemau hanesyddol yn ymwneud â'r cyfnod o ddiwygio a phrotest yng Nghymru a Lloegr tua 1783-1832. **Rhan gynharach yr astudiaeth fanwl gyfan sy'n parhau yn Uned 4 yw hon.**

Dylai dysgwyr ddeall y cysylltiadau a'r cymhlethdodau wnaeth ddylanwadu ar fywyd yn y cyfnod hwn. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf drwy ddadansoddi a gwerthuso amrediad o wahanol fathau o ffynonellau cynradd a/neu gyfoes a detholiadau gan haneswyr. Lle bo'n briodol, byddant yn cynnwys deunydd o ffynonellau o Gymru. Yn ogystal, disgwylir ddysgwyr drafod dadleuon hanesyddol a sut a pham y ffurfiwyd dehongliadau hanesyddol gwahanol mewn perthynas â'r cynnwys a nodir isod.

Wrth astudio'r opsiwn hwn, dylai dysgwyr ddadlau a rhoi sylw i'r canlynol:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys
Effaith y sialens gan fudiadau protestio a diwygio 1783-1822	<i>ymdrechion cynnar i ddiwygio'r Senedd dan Pitt yr Ieuaf; yr ymateb i ddechrau'r chwyldro yn Ffrainc; cymdeithasau cyfatebol; protestiadau'r bobl 1812-1831: Luddiaeth; protest radicalaidd ac yn cynnwys Spa Fields, Gorymdaith y Blancedwyr, Peterloo a Chynllwyn Cato St.</i>
Ymateb y llywodraeth i sialens protestiadau 1812-1822	<i>llywodraethau'r Arglwydd Liverpool 1812-1822: y Deddfau Ŷd; deddfwriaeth ormesol gan gynnwys atal Habeas Corpus a'r Chwe Deddf 1819; Sidmouth a pholisïau'r Swyddfa Gartref</i>
Arwyddocâd diwygiadau'r Torïaid Rhyddfrydol 1822-1829	<i>agweddau tuag at ddiwygio; polisi ariannol ac economaidd; diwygiadau'r Torïaid Rhyddfrydol 1822-1890 yn eu plith polisi ariannol ac economaidd, cyfraith a threfn, diddymu'r Deddfau Cyfuno, diddymu'r Deddfau Prawf a Chorfforaeth; Deddf Rhyddfrenio'r Pabyddion 1829</i>
Yr argyfyngau cynyddol mewn protestio a diwygio 1828-1832	<i>y system etholiadol heb ei diwygio; effaith Rhyddfrenio'r Pabyddion a chwymp y llywodraeth Dorïaidd yn 1830; y rhesymau dros a'r pwysau o blaid diwygio'r Senedd a phrotest radicalaidd; ethol y Chwigiaid yn 1830; Gwrthryfel Merthyr 1831; protest wledig a Captain Swing 1830-1831; argyfwng y Mesur Diwygio 1830-1832; nodau a thelerau Deddf Ddiwygio Fawr 1832</i>
Dehongliadau hanesyddol o faterion allweddol o'r cyfnod hwn	<i>dehongliadau hanesyddol gwahanol o faterion allweddol yn y cyfnod hwn yn trafod nifer o ddatblygiadau yn eu plith: effeithiolrwydd polisiau Pitt a'r Arglwydd Liverpool maint diwygiadau'r Torïaid Rhyddfrydol twf mudiadau ac ymwybyddiaeth dosbarth gweithiol argyfwng y Mesur Diwygio 1828-1832</i>

UNED 2 - OPSIWN 4

**GWLEIDYDDIAETH A CHYMDEITHAS YNG NGHYMRU A LLOEGR,
tua 1900-1939**

**RHAN 1: GWLEIDYDDIAETH, CYMDEITHAS A'R RHYFEL: CYMRU A LLOEGR
tua 1900-1918**

Dylai dysgwyr astudio'n fanwl amrediad o destunau hanesyddol a phroblemau'n ymwneud â Chymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif tua 1900-1918. **Rhan gynharach yr astudiaeth fanwl gyfan sy'n parhau yn Uned 4 yw hon.**

Dylai dysgwyr ddeall y cysylltiadau a'r cymhlethdodau wnaeth ddylanwadu ar fywyd yn y cyfnod hwn. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf drwy ddadansoddi a gwerthuso amrediad o wahanol fathau o ffynonellau cynradd a/neu gyfoes a detholiadau gan haneswyr. Lle bo'n briodol, byddant yn cynnwys deunydd o ffynonellau o Gymru. Yn ogystal, disgwylir i ddysgwyr drafod dadleuon hanesyddol a sut a pham y ffurfiwyd dehongliadau hanesyddol gwahanol mewn perthynas â'r cynnwys a nodir isod.

Wrth astudio'r opsiwn hwn, dylai dysgwyr ddadlau a rhoi sylw i'r canlynol:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys
Maint newid cymdeithasol	<i>newid demograffig a'i effeithiau; dylanwad Booth a Rowntree; diwygiadau cymdeithasol a lles y Rhyddfrydwyr 1906-1914; newid o ran addysg, crefydd a diwylliant Cymru 1900-1918</i>
Arwyddocâd newid economaidd a gwrthdaro	<i>Gweithdy'r Byd: diwydiant trwm yng Nghymru; amaethyddiaeth a'r economi gwledig; twf ac effaith undebau llafur; achosion anghydfod diwydiannol a gwrthdaro yng Nghymru; cychwyn anghydfod diwydiannol yng Nghymru: Llanell, Tonypany a chau allan y Penrhyn</i>
Arwyddocâd newid gwleidyddol	<i>diwygiadau'r Llywodraeth Geidwadol hyd 1905; etholiad 1906; goruchafiaeth y Rhyddfrydwyr; dylanwad cynyddol y Blaid Lafur; menywod a'r ymgyrch o blaid rhyddfrenio gwleidyddol; 'Cyllideb y Bobl'; yr Argyfwng Cyfansoddiadol a Deddf Seneddol 1911</i>
Effaith y rhyfel	<i>canlyniadau Rhyfel y Boer; Cymru a'i rôl yn y Rhyfel Mawr; gwirfoddoliaeth, consgripsiwn a gwrthwynebiad cydwybodol; effaith rhyfel diarbed; clymblaid Lloyd George 1916-1918; effaith cymdeithasol ac economaidd rhyfel; menywod a gwaith rhyfel; Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1918</i>
Dehongliadau hanesyddol o faterion allweddol o'r cyfnod hwn	<i>dehongliadau hanesyddol gwahanol o faterion allweddol yn y cyfnod hwn yn trafod nifer o ddatblygiadau yn eu plith: maint y newid cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr achosion a maint y gwrthdaro diwydiannol y newid yn hynt wleidyddol y prif bleidiau effaith rhyfel ar gymdeithas</i>

UNED 2 - OPSIWN 5

DIWYGIAD CREFYDDOL YN EWROP tua 1500-1564

RHAN 1:

DECHREUAD A LLEDAENIAD Y DIWYGIAD PROTESTANNAIDD YN YR ALMAEN tua 1500- 1531

Dylai dysgwyr astudio'n fanwl amrediad o destunau hanesyddol sy'n ymwneud â dechreuad a lleadaeniad y terfysgoedd yn yr Almaen tua 1500-1531. **Rhan gynharach yr astudiaeth fanwl gyfan sy'n parhau yn Uned 4 yw hon.**

Dylai dysgwyr ddeall y cysylltiadau a'r cymhlethdodau wnaeth arwain at ddechreuad a lleadaeniad y terfysgoedd yn yr Almaen erbyn 1531. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf drwy ddadansoddi a gwerthuso amrediad o wahanol fathau o ffynonellau cynradd a/neu cyfoes a detholiadau gan haneswyr. Yn ogystal, disgwylir i ddysgwyr drafod dadleuon hanesyddol a sut a pham y ffurfiwyd dehongliadau hanesyddol gwahanol mewn perthynas â'r cynnwys a nodir isod.

Wrth astudio'r opsiwn hwn, dylai dysgwyr ddadlau a rhoi sylw i'r canlynol:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys
Dylanwad yr Eglwys ar ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg	<i>yr Eglwys: pwêr seciwlar a dylanwad ar fywyd bob dydd; pwêr a dylanwad crefyddol; llygredd y Pab a chlerigwyr; beirniadaeth am yr Eglwys; rôl dyneiddwyr fel Erasmus; heresiau a gwrthglerigaeth</i>
Rhesymau dros ddechrau'r Diwygiad	<i>maddeuebau a Chenhadaeth Tetzel; rôl gynnar Martin Luther; effaith y 95 Thesis a'i draethodynnau beirniadol; pwysigrwydd y Diet of Worms ac ysgymuno Luther; datblygiad syniadaeth Luther; cyhoeddiadau a dylanwad argraffu</i>
Arwyddocâd dechrau'r Diwygiad	<i>agwedd hierarchaeth yr Eglwys Gatholig; Ymerawdwr a Thywysogion; y gyhoeddeb ymerodrol a'i amddiffyn gan Ffredrig Ddoeth; cydberthynas Luther â radicaliaid a dyneiddwyr; datblygu athrawiaeth Brotestannaidd: Luther, Melancthon a Zwingli; gwrthryfel y Marchogion Ymerodrol; Rhyfel y Werin: achosion a chanlyniadau</i>
Yr Ymateb i ledaeniad y Diwygiad	<i>rhesymau dros ledaeniad Lutheriaeth; defnyddio'r wasg argraffu a phamffledi Luther; deietau ymerodrol, tywysogion a dinasoedd; trafodaethau Lutheraidd-Catholig yn eu plith Cyffes Augsburg 1530; cyflwr yr Eglwys erbyn 1531</i>
Dehongliadau hanesyddol o faterion allweddol o'r cyfnod hwn	<i>dehongliadau hanesyddol gwahanol o faterion allweddol yn y cyfnod hwn yn trafod nifer o ddatblygiadau yn eu plith: y rhesymau dros ddechrau'r Diwygiad y rôl a chwaraewyd gan Luther y rhesymau dros ledaeniad y Diwygiad achosion ac effeithiau Rhyfel y Werin</i>

UNED 2 - OPSIWN 6

YN FFRAINIC YNG NGHYFNOD Y CHWYLDRO tua 1774-1815

RHAN 1: FFRAINIC: ACHOSION A HYNT Y CHWYLDRO tua 1774-1792

Dylai dysgwyr astudio'n fanwl amrediad o destunau hanesyddol sy'n ymwneud â Ffrainc. **Rhan gynharach yr astudiaeth fanwl gyfan sy'n parhau yn Uned 4 yw hon.**

Dylai dysgwyr ddeall y cysylltiadau a'r cymhlethdodau wnaeth ddylanwadu ar Ffrainc yn y cyfnod hwn. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf drwy ddadansoddi a gwerthuso amrediad o wahanol fathau o ffynonellau cynradd a/neu gyfoes a detholiadau gan haneswyr. Yn ogystal, disgwylir i ddysgwyr drafod dadleuon hanesyddol a sut a pham y ffurfiwyd dehongliadau hanesyddol gwahanol mewn perthynas â'r cynnwys a nodir isod.

Wrth astudio'r opsiwn hwn, dylai dysgwyr ddadlau a rhoi sylw i'r canlynol:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys
Cryfderau a gwendidau'r Ancien Régime yn Ffrainc	<i>yr Ancien Régime yn Ffrainc: y Tair Stad - breintiau a beichiau; cryfderau a gwendidau o ran llywodraeth, cymdeithas a chyllid; syniadau'r philosophes; effaith gwleidyddol ac ariannol Rhyfel Annibyniaeth America</i>
Arwyddocâd rhaglen ddiwygio'r Brenin yn y 1770au a'r 1780au	<i>polisiâu cartref ac ariannol Turgot a Necker; Calonne a'r ymdrech i ddiwygio Ffrainc, 1783-1788: Cymanfa'r Hynodion, 1787; cynigion ariannol a gwleidyddol Necker; galw'r Stadau Cyffredinol; cahiers; ethol a chyfarfod y Stadau Cyffredinol</i>
Maint ac effaith newidiadau Chwyldroadol	<i>sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol; ymosod ar y Bastille; y Braw Mawr; sefydlu'r Gwarchodlu Cenedlaethol; Gorymdaith Hydref; prif ddigwyddiadau a diwygiadau hyd Cyfansoddiad 1791; offeiriad gwrthnysig; dinasyddion gweithredol a goddefol; Louis XVI a'r Ffoi i Varennes</i>
Effaith y rhyfel a gwrthdaro mewnol	<i>y Cynulliad Deddfu; émigrés; sans-culottes; clybiau a charfanau gwleidyddol; cyflafan Champ de Mars; twf gweriniaetholdeb; achosion Rhyfel 1792; argyfwng milwrol a gwleidyddol haf 1792; ymosod ar Balas y Tuileries; dymchwel y Frenhiniaeth; Cyflafan Medj; fédérés; Valmy</i>
Dehongliadau hanesyddol o faterion allweddol o'r cyfnod hwn	<i>dehongliadau hanesyddol gwahanol o faterion allweddol yn y cyfnod hwn yn trafod nifer o ddatblygiadau yn eu plith: effeithiolrwydd yr Ancien Régime a'r ymdrechion i ddiwygio achosion y Chwyldro yn Ffrainc maint a llwyddiant y newidiadau a wnaed gan y Cynulliad Cenedlaethol achosion a chanlyniadau gwrthdaro mewnol ac allanol</i>

UNED 2 - OPSIWN 7

ARGYFWNG Y WERINIAETH AMERICANAIDD, tua 1840-1877

RHAN 1: GWAHANIAETHAU ADRANNOL A'R LLWYBR I RYFEL CARTREF
tua 1840-1861

Dylai dysgwyr astudio'n fanwl amrediad o destunau hanesyddol sy'n ymwneud dechreuadau a chefnidir Rhyfel Cartref America tua 1840-1861. **Rhan gynharach yr astudiaeth fanwl gyfan sy'n parhau yn Uned 4 yw hon.**

Dylai dysgwyr ddeall y cysylltiadau a'r cymhlethdodau wnaeth ddylanwadu ar fywyd yn y cyfnod hwn. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf drwy ddadansoddi a gwerthuso amrediad o wahanol fathau o ffynonellau cynradd a/neu gyfoes a detholiadau gan haneswyr. Yn ogystal, disgwylir i ddysgwyr drafod dadleuon hanesyddol a sut a pham y ffurfiwyd dehongliadau hanesyddol gwahanol mewn perthynas â'r cynnwys a nodir isod.

Wrth astudio'r opsiwn hwn, dylai dysgwyr ddadlau a rhoi sylw i'r canlynol:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys
Arwyddocâd caethwasiaeth ac ehangiad y Gorllewin	<i>nodweddion cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd taleithiau'r gogledd a'r de; caethwasiaeth fel sefydliad; problem ehangu tua'r Gorllewin a'r syniad o Arfaeth Amlwg; Rhyfel México 1846-1848; caffael tiriogaethau newydd; amod Wilmot;</i>
Arwyddocâd yr ymdrechion i gyfaddawdu 1850-1854	<i>rolau Henry Clay, John Calhoun a Stephen Douglas; Cyfaddawd 1850 a'i effeithiau; Deddf Caethweision ar Ffo; y mudiad diddymu a'i effaith; rolau Harriet Beecher Stowe, William Garrison a John Brown</i>
Effaith methiant gwleidyddol 1854-1859	<i>"Bleeding Kansas" a'r Mesur Kansas-Nebraska; rhesymau dros dwf y blaid Weriniaethol; pwysigrwydd digwyddiad Sumner; achos Dred Scott 1857; rôl Abraham Lincoln a datblygu ei syniadau; y dadleuon rhwng Lincoln a Douglas a'u heffaith</i>
Y rhesymau dros ddechrau'r rhyfel cartref 1859-1861	<i>cyrch John Brown ar Harper's Ferry ac effaith hynny; etholiad Arlywyddol 1860; y symud tuag at ymwahanu yn nhaleithiau'r de; ymwahanu De Carolina; creu taleithiau Cyffederal a'r rhesymau dros ddechrau'r rhyfel cartref</i>
Dehongliadau hanesyddol o faterion allweddol o'r cyfnod hwn	<i>dehongliadau hanesyddol gwahanol o faterion allweddol yn y cyfnod hwn yn trafod nifer o ddatblygiadau yn eu plith: caethwasiaeth fel sefydliad ac effaith y mudiad diddymu y rhesymau dros fethu â dod i gyfaddawd rôl unigolion o bwys fel Calhoun, Clay, Douglas a Lincoln achosion y Rhyfel Cartref</i>

UNED 2 - OPSIWN 8

YR ALMAEN: DEMOCRATIAETH AC UNBENNAETH tua 1918-1945

RHAN 1: WEIMAR A'I SIALENSIAU tua 1918-1933

Dylai dysgwyr astudio'n fanwl amrediad o destunau hanesyddol yn ymwneud â chyfnod llywodraeth Weimar yn yr Almaen tua 1918-1933. **Rhan gynharach yr astudiaeth fanwl gyfan sy'n parhau yn Uned 4 yw hon.**

Dylai dysgwyr ddeall y cysylltiadau a'r cymhlethdodau wnaeth arwain at drawsffurfio'r Almaen erbyn 1933. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf drwy ddadansoddi a gwerthuso amrediad o wahanol fathau o ffynonellau cynradd a/neu gyfoes a detholiadau gan haneswyr. Yn ogystal, disgwylir i ddysgwyr drafod dadleuon hanesyddol a sut a pham y ffurfiwyd dehongliadau hanesyddol gwahanol mewn perthynas â'r cynnwys a nodir isod.

Wrth astudio'r opsiwn hwn, dylai dysgwyr ddadlau a rhoi sylw i'r canlynol:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys
Y sialensiau oedd yn wynebu Gweriniaeth Weimar 1918-1923	<i>Cytundeb Versailles a'r effaith a gafodd ar Yr Almaen; Cyfansoddiad Weimar; gwrthryfeloedd ar y chwith a'r dde, yn eu plith y Spartacyddion; Putsch Kapp; ffurfio'r NSDAP; credoau a thactegau'r Natsïaid yn y cyfnod 1920-1923; Putsch München; ansefydlogrwydd economaidd, iawndal a goresgyn y Ruhr; gorchwyddiant</i>
Maint y newid mewn polisi tramor ac economaidd 1924-1929	<i>rôl Gustav Stresemann yn y cyfnod 1924-1929 mewn polisi economaidd; Cynllun Dawes a Chynllun Young; nodau a chyflawniadau polisi tramor Stresemann yn eu plith Locarno</i>
Y newid yn hynt y Blaid Natsïaidd 1924-1933	<i>nodau a thactegau'r Natsïaid yn y cyfnod 1924-1929; y newid yn hynt y Blaid Natsïaidd erbyn Tachwedd 1932; y rhesymau dros dwf y gefnogaeth i Sosïalaeth Genedlaethol</i>
Argyfwng Gweriniaeth Weimar 1929-1933	<i>effaith economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol y Dirwasgiad; llywodraeth glymblaid ac etholiadau 1932; rolau ac agwedd Hindenburg, Papen, Strasser a Schleicher; perthynas Hindenburg â'r Natsïaid; cynllwynio gwleidyddol yn arwain at benodi Hitler yn Ganghellor yn Ionawr 1933</i>
Dehongliadau hanesyddol o faterion allweddol o'r cyfnod hwn	<i>dehongliadau hanesyddol gwahanol o faterion allweddol yn y cyfnod hwn yn trafod nifer o ddatblygiadau yn eu plith: ansefydlogrwydd gwleidyddol ac economaidd y cyfnod Weimar cynnar 1918-1923 datblygiadau polisi cartref a thramor 1924-1929 effaith y Dirwasgiad ar yr Almaen y Natsïaidd yn dod i rym 1923-1933</i>

2.2 UNEDAU U2

UNED 3 - ASTUDIAETHAU EANG

UNED 3 - OPSIWN 1

CYMRU: GWRTHWYNEBIAD, GORESGYN A GWRTHRYFEL tua 1240-1415

Dylai dysgwyr astudio materion yn ymwneud â gwrthwynebiad, goresgyn a gwrthryfel yng Nghymru tua 1240-1415.

Mae'r testunau hanesyddol yn yr uned eang hon yn seiliedig ar themâu sy'n trafod cyfnod estynedig o 100 mlynedd o leiaf sy'n canolbwyntio ar newid, parhad, tebygrwydd a gwahaniaeth. Disgwylir i ddysgwyr ddangos dealltwriaeth o'r prif ddatblygiadau a'r trobwyntiau sy'n berthnasol i'r themâu eang a astudiwyd. Mae'r pwyslais ar ddatblygu a dehongli trosolwg eang o'r cyfnod a astudiwyd.

Yn eu hastudiaeth, dylai dysgwyr ystyried y broses o newid hanesyddol ynghyd ag achosion, canlyniadau ac arwyddocâd hynny yn y tymor hir a'r tymor byr. Dylai dysgwyr ystyried yn ogystal natur gyfnewidiol cymdeithas, ynghyd â tharddiad, natur ac effaith newidiadau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a chrefyddol, lle bo'n addas. Dylent ganolbwyntio ar wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng agweddau gwahanol ar y testunau a astudiwyd ac ar brofi rhagdybiaeth cyn llunio barn gadarnhaol ar faterion penodol yn ymwneud â hanes Cymru dros y cyfnod eang hwn.

Wrth astudio gwrthwynebiad, goresgyn a gwrthryfel yng Nghymru, dylai dysgwyr ystyried y themâu canlynol ar draws yr holl gyfnod:

Thema 1 Cymdeithas, diwylliant a'r economi tua 1240-1415	
Newid a pharhad yng Nghymru Oes y Tywysogion 1240-1282	<i>Deddfau Cymru a'r system gyfreithiol dan dywysogion Cymru; cyfraith y Mers; yr economi gwledig; yr Eglwys yng Nghymru; trefi yng Nghymru cyn 1282; beirdd tywysogion Cymru, cerddorion a llenyddiaeth cyn 1282; beirdd, adrodd straeon a barddoniaeth yng Nghymru</i>
Effaith Goresgyniad Edward	<i>cestyll a threfi Edwardaidd a'u rolau yng Nghymru; Statud Rhuddlan 1284 a rhannu Cymru; newidiadau i gyfraith Cymru ac i gyfraith y Mers; triniaeth y Cymry ar ôl eu goresgyn; masnachu a masnach yng Nghymru; Deddfau Cosb 1402; Arglwyddi'r Mers</i>
Arwyddocâd newid cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.	<i>y Pla Du a'i effeithiau yng Nghymru; esgyniad y bonedd; twf a rheolaeth stadau yng Nghymru maint y newid mewn cymdeithas, diwylliant ac economi ar draws y cyfnod</i>
Tebygrwydd a gwahaniaeth tua 1240-1415	<i>maint a chyflymder y newid yng nghymdeithas, diwylliant ac economi Cymru ar draws y cyfnod cyfan</i>

Thema 2 Llywodraethiant a gwrthryfel tua 1240 - 1415	
Newid a pharhad yn llywodraethiant Cymru 1240-1282	<i>marwolaeth Llywelyn Fawr; Tywysogion Cymru a Chymru 1240-1282; Gwynedd, Powys a Deheubarth; Arglwyddi a thir y Mers; Dafydd a Harri III; Heddwch Woodstock 1247; Llywelyn ap Gruffudd a sefydlu tywysogaeth frodorol Cymru 1255-1258; y gydberthynas rhwng Llywelyn a Harri III; Cytundeb Trefaldwyn 1267 a Chytundeb Aberconwy 1277; gwrthryfel Dafydd 1282</i>
Effaith Goresgyniad Edward	<i>Llywelyn a Goresgyniad Edward 1282-1283: Statud Rhuddlan 1284; ardrefniant trefedigaethol Cymru: adeiladu cestyll a threfi trefedigaethol; Y Gororau;</i>
Maint y gwrthwynebiad a'r gwrthryfel 1294-1415	<i>gwrthwynebiad Madog ap Llywelyn, Llywelyn Bren, Owain Lawgoch ac Owain Glyndwr</i>
Tebygwydd a gwahaniaeth tua 1240-1415	<i>maint a chyflymder y newid yn llywodraethiant Cymru ar draws y cyfnod cyfan</i>

UNED 3 - OPSIWN 2

TLODI, PROTEST A GWRTHRYFEL YNG NGHYMRU A LLOEGR, TUA 1485-1603

Dylai dysgwyr astudio materion yn ymwneud â thlodi, protest a gwrthryfel yng Nghymru a Lloegr tua 1485-1603.

Mae'r testunau hanesyddol yn yr uned eang hon yn seiliedig ar themâu sy'n trafod cyfnod estynedig o 100 mlynedd o leiaf sy'n canolbwyntio ar newid, parhad, tebygrwydd a gwahaniaeth. Disgwylir i ddysgwyr ddangos dealltwriaeth o'r prif ddatblygiadau a'r trobwyntiau sy'n berthnasol i'r themâu eang a astudiwyd. Mae'r pwyslais ar ddatblygu a dehongli trosolwg eang o'r cyfnod a astudiwyd.

Yn eu hastudiaeth, dylai dysgwyr ystyried y broses o newid hanesyddol ynghyd ag achosion, canlyniadau ac arwyddocâd hynny yn y tymor hir a'r tymor byr. Dylai dysgwyr ystyried yn ogystal natur gyfnewidiol cymdeithas, ynghyd â tharddiad, natur ac effaith newidiadau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a chrefyddol, lle bo'n addas. Dylent ganolbwyntio ar wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng agweddau gwahanol ar y testunau a astudiwyd ac ar brofi rhagdybiaethau cyn llunio barn gadarnhaol ar faterion penodol yn ymwneud â hanes Cymru dros y cyfnod eang hwn.

Wrth astudio tlodi, protest a gwrthryfel yng Nghymru a Lloegr, dylai dysgwyr ystyried y themâu canlynol ar draws y cyfnod cyfan:

Thema 1 Tlodi, crwydraeth a'r tlodion yng Nghymru a Lloegr, tua 1485-1603	
Y rhesymau cyffredinol dros y twf mewn tlodi a chrwydraeth	<i>problemau economaidd yn arwain at drallod cymdeithasol; effeithiau cau tiroedd a chyfuno stadau; effaith newyn a chynaeafau gwael</i>
Effeithiolrwydd trin a rhoi cymorth i'r tlodion	<i>darpariaeth drefol ac elusennol a mentrau lleol i roi cymorth i'r tlodion; rôl yr Eglwys a'r dosbarthiadau masnachol yn darparu cymorth</i>
Newid mewn agweddau swyddogol tuag at dlodi a chrwydraeth	<i>tlodi a chrwydraeth fel trosedd a'r gosb am hynny; effaith amrywiol deddfwriaeth y llywodraeth o 1495 i Ddeddf y Tlodion 1601</i>
Tebygrwydd a gwahaniaeth tua 1485-1603	<i>maint a chyflymder y newid yn nhriniaeth tlodi a chrwydraeth ar draws y cyfnod cyfan</i>

Thema 2 Bygythiadau, protest a gwrthryfel, c.1485-1603	
Effeithiolrwydd atgyfnerthu grym gan y Tuduriaid	<i>Harri Tudur a mesurau i ddiogelu ei orsedd; natur a maint sialensiau Lambert Simnel a Perkin Warbeck; Rhys ap Gruffydd ac Arglwyddiaethau'r Gororau; effaith newidiadau crefyddol Harri, 1529-1540; achosion ac effaith y Pererindod Gras;</i>
Effaith y bygythiadau yn y 1540au a'r 1550au	<i>y sialensiau i Edward VI gan Wrthryfel y Gorllewin a gwrthryfel Kett; sialensiau i Mari Tudur: y frenhines naw diwrnod a gwrthryfel Wyatt 1554</i>
Pwysau cynyddol yn ddiweddarach yn y ganrif	<i>y problemau a achoswyd gan Mari, Brenhines y Sgotiaid; y gydberthynas economaidd a chrefyddol â'r pwerau Catholig ac ansicrwydd pendefigaeth y gogledd a'u gwrthryfel yn 1569; cynllwynion a bygythiadau i Elisabeth; gwrthryfel Essex, 1601</i>
Tebygrwydd a gwahaniaeth tua 1485-1603	<i>y newid yn ffocws a maint y bygythiad a achoswyd gan brotest a gwrthryfel ar draws y cyfnod cyfan</i>

UNED 3 - OPSIWN 3

DIWYGIO A DARGANFOD: Ewrop, tua 1492-1610

Dylai dysgwyr astudio materion yn ymwneud â Diwygio a darganfod yn Ewrop tua 1492-1610.

Mae'r testunau hanesyddol yn yr uned eang hon yn seiliedig ar themâu sy'n trafod cyfnod estynedig o 100 mlynedd o leiaf sy'n canolbwyntio ar newid, parhâd, tebygrwydd a gwahaniaeth. Disgwylir i ddysgwyr ddangos dealltwriaeth o'r prif ddatblygiadau a'r trobwyntiau sy'n berthnasol i'r themâu eang a astudiwyd. Mae'r pwyslais ar ddatblygu a dehongli trosolwg eang o'r cyfnod a astudiwyd.

Yn eu hastudiaeth, dylai dysgwyr ystyried y broses o newid hanesyddol ynghyd ag achosion, canlyniadau ac arwyddocâd hynny yn y tymor hir a'r tymor byr. Dylai dysgwyr ystyried yn ogystal natur gyfnewidiol cymdeithas, ynghyd â tharddiad, natur ac effaith newidiadau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a chrefyddol, lle bo'n addas. Dylent ganolbwyntio ar wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng agweddau gwahanol ar y testunau a astudiwyd ac ar brofi'r rhagdybiaethau cyn llunio barn gadarnhaol ar faterion penodol yn ymwneud â newid crefyddol, gwleidyddol ac economaidd yn Ewrop dros y cyfnod eang hwn.

Wrth astudio Diwygio a darganfod yn Ewrop, dylai dysgwyr ystyried y themâu canlynol ar draws y cyfnod cyfan:

Thema 1 Newid crefyddol a'i effaith c.1500-1600	
Arwyddocâd sialensiau cynnar i'r Eglwys Gatholig	<i>cyflwr yr Eglwys Gatholig ar ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg; sialensiau Luther a'r diwygwyr cynnar; ymateb cynnar yr Eglwys Gatholig</i>
Maint lledaeniad y Diwygiad	<i>lledaeniad y Diwygiad yn y 1520au a'r 1530au; dylanwad Zwingli a Calvin</i>
Twf gwrthddiwygiad a gwrthdaro	<i>Cyngor Trent a'r Gwrthddiwygiad: urddau newydd a'r chwyllys; rhyfel grefyddol a sgism: Ffrainc, taleithiau'r Iseldiroedd a chanol Ewrop</i>
Tebygrwydd a gwahaniaeth tua 1500-1600	<i>maint a chyflymder y newid crefyddol ar wleidyddiaeth ac ar y gymdeithas yn Ewrop ar draws y cyfnod cyfan</i>

Thema 2 Fforio a darganfod, tua 1492-1610	
Cymhellion o blaid fforio a darganfod	<i>cymhellion dros fforio a darganfod yn eu plith ysgogiadau economaidd, gwleidyddol a chrefyddol; rôl brenhinoedd pwerus</i>
Natur a maint yr ymdrechion i fforio a darganfod	<i>y fforwyr cynnar, yn eu plith Columbus, da Gama, Cabot a Magellan; rolau penodol a buddiannau Sbaen, Portiwgal, Lloegr a'r Iseldiroedd mewn archwilio; archwilio diweddarach ac ardaloedd o wrthdaro yn eu plith y Môr Sbaenaidd a De America</i>
Effaith darganfyddiadau a fforio cynyddol	<i>twf a dylanwad y dosbarthiadau masnachol yng Ngorllewin Ewrop; ysgogiadau ar gyfer dyfeisiau gwyddonol a thechnolegol; enghreifftiau cynnar o drefedigaethu yn yr Americas; yr effaith ar bobloedd brodorol</i>
Tebygrwydd a gwahaniaeth tua 1492-1610	<i>cyflymder ac effaith fforio a darganfod ar draws y cyfnod cyfan</i>

UNED 3 - OPSIWN 4

BREHINIAETH, CHWYLDRO AC ADFER YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1603-1715

Dylai dysgwyr astudio materion yn ymwneud â brenhiniaeth, chwyldro ac adfer yng Nghymru a Lloegr tua 1603-1715.

Mae'r testunau hanesyddol yn yr uned eang hon yn seiliedig ar themâu sy'n trafod cyfnod estynedig o 100 mlynedd o leiaf sy'n canolbwyntio ar newid, parhad, tebygrwydd a gwahaniaeth. Disgwylir i ddysgwyr ddangos dealltwriaeth o'r prif ddatblygiadau a'r trobwyntiau sy'n berthnasol i'r themâu eang a astudiwyd. Mae'r pwyslais ar ddatblygu a dehongli trosolwg eang o'r cyfnod a astudiwyd.

Yn eu hastudiaeth, dylai dysgwyr ystyried y broses o newid hanesyddol ynghyd ag achosion, canlyniadau ac arwyddocâd hynny yn y tymor hir a'r tymor byr. Dylai dysgwyr ystyried yn ogystal natur gyfnewidiol cymdeithas, ynghyd â tharddiad, natur ac effaith newidiadau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a chrefyddol, lle bo'n addas. Dylent ganolbwyntio ar wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng agweddau gwahanol ar y testunau a astudiwyd ac ar brofi'r rhagdybiaethau cyn llunio barn gadarnhaol ar faterion penodol yn ymwneud â newid gwleidyddol a datblygiad syniadau newydd yng Nghymru a Lloegr dros y cyfnod eang hwn.

Wrth astudio brenhiniaeth, chwyldro ac adfer yng Nghymru a Lloegr, dylai dysgwyr ystyried y themâu canlynol ar draws y cyfnod cyfan:

Thema 1 Chwilio am sefydlogrwydd gwleidyddol c.1603-1715	
Tensiwn cynyddol ar y brenhinoedd Stiwartiaid	<i>statws a phŵer y frenhiniaeth; yr hawl ddwyfol; natur llywodraeth frenhiniaethol ar ddechrau'r ganrif; Iago I a'i agwedd tuag at y frenhiniaeth a rheolaeth; y Ddeiseb lawnderau a'r Rheolaeth Bersonol; Siarl I a dirywiad y gydberthynas â'r Llywodraeth, hyd 1642</i>
Effaith y Rhyfel Cartref ar y lywodraethiant y wlad	<i>Y Rhyfel Cartref a'i effaith, 1640-1649; Rheolaeth Weriniaethol a'i fethiant i ddarparu sefydlogrwydd 1649-1660: o Adferiad i Chwyldro, 1660-1688</i>
Effaith datblygiadau pellach wrth lywodraethu ar ôl 1688	<i>y Chwyldro Gogoneddus, y Mesur lawnderau ac effaith yr Ardrefniant Chwyldroadol; twf gwleidyddiaeth plaid ar ôl 1689</i>
Tebygrwydd a gwahaniaeth tua 1603-1715	<i>maint a chyflymder y newid mewn gwleidyddiaeth a llywodraethiant ar draws y cyfnod cyfan</i>

Thema 2 Newid mewn agweddau a syniadau: radicaliaeth, Anghydfurfiaeth a materion deallusol tua 1603-1715	
Pwysau cynyddol ar grefydd sefydledig	<i>sialensiau i awdurdod a dylanwad yr Eglwys; Anglicaniaeth a chwymp Laud a Laudiaeth; yr Adferiad a'r eglwys adferedig</i>
Twf ac effaith radicaliaeth	<i>datblygiad syniadau gwleidyddol radicalaidd, Piwritaniaeth a radicaliaeth yn ystod y Rhyfel Cartref a'r Werinlywodraeth; twf y sectau anghydfurfiol a'u pwysigrwydd; Anghydfurfiaeth yng Nghymru; grwpiau radicalaidd yn eu plith y Lefelwyr a'r Cloddwyr</i>
Effaith datblygiadau mewn gwyddoniaeth a goleuedigaeth	<i>arwyddocâd syniadau Hobbes a Locke; y chwyldro gwyddonol ac arwyddocâd y Gymdeithas Frenhinol</i>
Tebygrwydd a gwahaniaeth tua 1603-1715	<i>effaith a chyflymder y newid mewn agweddau a syniadau ar draws y cyfnod</i>

UNED 3 - OPSIWN 5

FFFRAINC: YR ANCIEN RÉGIME HYD NAPOLEON tua 1715-1815

Dylai dysgwyr astudio materion yn ymwneud â'r newid gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd yn Ffrainc tua 1715-1815.

Mae'r testunau hanesyddol yn yr uned eang hon yn seiliedig ar themâu sy'n trafod cyfnod estynedig o 100 mlynedd o leiaf sy'n canolbwyntio ar newid, parhad, tebygrwydd a gwahaniaeth. Disgwylir i ddysgwyr ddangos dealltwriaeth o'r prif ddatblygiadau a'r trobwyntiau sy'n berthnasol i'r themâu eang a astudiwyd. Mae'r pwyslais ar ddatblygu a dehongli trosolwg eang o'r cyfnod a astudiwyd.

Yn eu hastudiaeth, dylai dysgwyr ystyried y broses o newid hanesyddol ynghyd ag achosion, canlyniadau ac arwyddocâd hynny yn y tymor hir a'r tymor byr. Dylai dysgwyr ystyried yn ogystal natur gyfnewidiol cymdeithas, ynghyd â tharddiad, natur ac effaith newidiadau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a chrefyddol, lle bo'n addas. Dylent ganolbwyntio ar wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng agweddau gwahanol ar y testunau a astudiwyd ac ar brofi'r rhagdybiaethau cyn llunio barn gadarnhaol ar faterion penodol yn ymwneud â newid gwleidyddol a datblygiad syniadau newydd yn Ffrainc dros y cyfnod eang hwn.

Wrth astudio newid gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd yn Ffrainc, dylai dysgwyr ystyried y themâu canlynol ar draws y cyfnod cyfan:

Thema 1 Economi a Chymdeithas Ffrainc mewn cyfnod o newid, tua 1715-1815	
Newid a pharhâd yn yr Ancien Régime yn Ffrainc 1715-1789	<i>natur cymdeithas; y Tair Stad; cyllid a threthiant; braint bendefigaidd; rhwymedigaethau'r werin wledig; effaith y Goleuo ar gymdeithas yn Ffrainc; newid yn yr economi o fercantiliaeth i gyfalafiaeth; twf y bourgeoisie; pŵer yr Eglwys a'r clerigwyr cyn 1789</i>
Effaith y Chwyldro 1789-1799	<i>y bobl fel dinasyddion; émigrés; dylanwad a phŵer y sans-culottes; y newidiadau yn y berthynas rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth 1789 a 1801; effaith economaidd y Chwyldro ar Ffrainc erbyn 1815</i>
Arwyddocâd Napoleon 1799-1815	<i>y newidiadau cymdeithasol ac economaidd o dan Napoleon, 1799-1815</i>
Tebygrwydd a gwahaniaeth tua 1715-1815	<i>maint a chyflymder y newid yng nghymdeithas ac economi Ffrainc ar draws y cyfnod cyfan</i>

Thema 2 Gwleidyddiaeth a llywodraeth yn Ffrainc tua 1715-1815	
Natur llywodraeth absoliwt yn Ffrainc	<i>Louis XV a damcaniaeth absoliwtiaeth; strwythur y wladwriaeth; rôl y llys yn Versailles; diwygiadau Fleury; cysylltiadau â'r Eglwys; Rhyfel Olyniaeth Awstria a'r Rhyfel Saith Mlynedd a'r effaith a gawsant ar Ffrainc; cystadleuaeth drefedigaethol</i>
Arwyddocâd chwyldro yn Ffrainc	<i>Louis XVI ac achosion y Chwyldro Ffrengig, 1774-1789; effaith gwleidyddol ac economaidd y Chwyldro ar Ffrainc - o frenhiniaeth i weriniaeth, a'r Braw 1792-1795</i>
Effaith rheolaeth ymerodrol ar Ffrainc	<i>Napoleon a sefydlu'r Ymerodraeth yn Ffrainc; Napoleon a'i brif ddiwygiadau i drefn weinyddol a llywodraethol Ffrainc; codau Napoleon; Concordat; diwygiadau ariannol ac economaidd; effaith rhyfel a'r System Gyfandirol ar Ffrainc dan Napoleon;</i>
Tebygrwydd a gwahaniaeth tua 1715-1815	<i>maint a chyflymder y newid yng ngwleidyddiaeth a llywodraeth Ffrainc ar draws y cyfnod cyfan</i>

UNED 3 - OPSIWN 6

**DIWYGIO'R SENEDD A PHROTEST YNG NGHYMRU A
LLOEGR tua 1780-1885**

Dylai dysgwyr astudio materion yn ymwneud â diwygio'r Senedd a phrotest yng Nghymru a Lloegr tua 1780-1885.

Mae'r testunau hanesyddol yn yr uned eang hon yn seiliedig ar themâu sy'n trafod cyfnod estynedig o 100 mlynedd o leiaf sy'n canolbwyntio ar newid, parhad, tebygrwydd a gwahaniaeth. Disgwylir i ddysgwyr ddangos dealltwriaeth o'r prif ddatblygiadau a'r trobwyntiau sy'n berthnasol i'r themâu eang a astudiwyd. Mae'r pwyslais ar ddatblygu a dehongli trosolwg eang o'r cyfnod a astudiwyd.

Yn eu hastudiaeth, dylai dysgwyr ystyried y broses o newid hanesyddol ynghyd ag achosion, canlyniadau ac arwyddocâd hynny yn y tymor hir a'r tymor byr. Dylai dysgwyr ystyried yn ogystal natur gyfnewidiol cymdeithas, ynghyd â tharddiad, natur ac effaith newidiadau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a chrefyddol, lle bo'n addas. Dylent ganolbwyntio ar wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng agweddau gwahanol ar y testunau a astudiwyd ac ar brofi'r rhagdybiaethau cyn llunio barn gadarnhaol ar faterion penodol yn ymwneud â diwygio'r Senedd a phrotest yng Nghymru a Lloegr dros y cyfnod eang hwn.

Wrth astudio diwygio'r senedd a phrotest yng Nghymru a Lloegr, dylai dysgwyr ystyried y themâu canlynol ar draws y cyfnod cyfan:

Thema 1 Diwygio'r Senedd 1780-1885	
Newidiadau yn y drefn o ddiwygio'r Senedd 1780-1830	<i>Y mudiad cynnar o blaid diwygio'r Senedd yn y 1780au; rôl Pitt yr Ieuaf; effaith y Chwyldro yn Ffrainc a'r rhesymau dros wrthwynebu diwygio; y system seneddol heb ei diwygio</i>
Achosion a chanlyniadau diwygio'r Senedd 1830-1867	<i>yr ymgyrch o blaid diwygio'r Senedd; rhesymau dros argyfwng y Mesur Diwygio 1830-1832; nodau a thelerau Deddf Ddiwygio 1832; effaith Deddf Ddiwygio 1832</i>
Arwyddocâd diwygio'r Senedd 1867-1885	<i>adfywiad y mudiad er diwygio yn y 1860au; y frwydr am yr Ail Ddeddf Ddiwygio a'i nodau, telerau ac effaith; diwygio'r Senedd 1872-1885</i>
Nodweddion sy'n debyg a gwahanol tua 1780-1885	<i>maint a chyflymder y newid a gyflawnwyd wrth ddiwygio'r Senedd ar draws y cyfnod cyfan</i>

Thema 2 Protestiadau'r bobl, 1780-1885	
Twf protestiadau'r bobl 1780-1822	<i>nodau ac effaith Cymdeithas Ohebu Llundain 1792-1793; deddfwriaeth a pholisïau gormesol Pitt; effeithiau cymdeithasol diwydiannaeth a newid mewn amaethyddiaeth; mudiad y Luddiaid; protestiadau'r bobl rhwng 1815 a 1822 a'i ormesu</i>
Achosion a chanlyniadau protestiadau'r bobl 1822-1848	<i>y mudiad undebau llafur cynnar; Robert Owen a Tolpuddle; protestiadau trefol: Gwrthryfel Merthyr 1831; nodau mudiad y Siartwyr; gweithgareddau a gweithrediadau'r Siartwyr; rolau Lovett ac O'Connor; y rhesymau dros fethiant mudiad y Siartwyr; protestiadau gwledig 1830-1831; Terfysgoedd Rebeca 1839-1843 a'u heffaith</i>
Arwyddocâd protestiadau'r bobl ar ganol oes Fictoria 1848-1885	<i>y drefn gyhoeddus yn y 1850au a'r 1860au; adfywio'r cynnwrf radicalaidd yn y 1860au; twf undebaeth y model newydd erbyn 1885</i>
Tebygrwydd a gwahaniaeth tua 1780-1885	<i>maint y bygythiad a faint gyflawnodd protestiadau'r bobl ar draws y cyfnod cyfan</i>

UNED 3 - OPSIWN 7

NEWID A DIWYGIO CYMDEITHASOL YNG NGHYMURU A LLOEGR tua 1890-1990

Dylai dysgwyr astudio materion yn ymwneud â newid a diwygio yng Nghymru a Lloegr tua 1890-1990.

Mae'r testunau hanesyddol yn yr uned eang hon yn seiliedig ar themâu sy'n trafod cyfnod estynedig o 100 mlynedd o leiaf sy'n canolbwyntio ar newid, parhad, tebygrwydd a gwahaniaeth. Disgwylir i ddysgwyr ddangos dealltwriaeth o'r prif ddatblygiadau a'r trobwyntiau sy'n berthnasol i'r themâu eang a astudiwyd. Mae'r pwyslais ar ddatblygu a dehongli trosolwg eang o'r cyfnod a astudiwyd.

Yn eu hastudiaeth, dylai dysgwyr ystyried y broses o newid hanesyddol ynghyd ag achosion, canlyniadau ac arwyddocâd hynny yn y tymor hir a'r tymor byr. Dylai dysgwyr ystyried yn ogystal natur gyfnewidiol cymdeithas, ynghyd â tharddiad, natur ac effaith newidiadau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a chrefyddol, lle bo'n addas. Dylent ganolbwyntio ar wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng agweddau gwahanol ar y testunau a astudiwyd ac ar brofi'r rhagdybiaethau cyn llunio barn gadarnhaol ar faterion penodol yn ymwneud â newid a diwygio cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr dros y cyfnod eang hwn.

Wrth astudio newid a diwygio cymdeithaso yng Nghymru a Lloegr, dylai dysgwyr ystyried y themâu canlynol ar draws y cyfnod cyfan:

Thema 1	
Mynd i'r afael â tlodi a diweithdra, tua 1890-1990	
Newid a pharhad cyn y Rhyfel Byd Cyntaf	<i>cyflwr y dosbarthiadau gweithiol tua 1890; amrywiad rhanbarthol; achosion diweithdra cyn 1914; hunangymorth a'r ddadl dros dlodi (Booth a Rowntree); diwygiadau'r Rhyddfrydwyr, 1906-1914</i>
Effaith yr argyfyngau economaidd 1918-1939	<i>y cwmp wedi'r rhyfel a chyflwyno dogni; diweithdra yng Nghymru yn ystod y Dirwasgiad - achosion, maint ac amrywiadau rhanbarthol; effaith y Dirwasgiad ar deuluoedd a chymunedau; polisïau'r Llywodraeth Genedlaethol: llwyddiant a chyfyngiadau</i>
Consensws a sialens 1945-1990	<i>diwygiadau'r llywodraeth Lafur, 1945-1951; tlodi a diweithdra 1951-1979; effaith llywodraethau Thatcher 1979-1990 ar dlodi a diweithdra</i>
Tebygrwydd a gwahaniaeth tua 1890-1990	<i>maint a chyflymder y newid yn y ffordd yr oedd y di-waith yn cael eu trin a lliniaru tlodi ar draws y cyfnod cyfan</i>

Thema 2	
Cymdeithas mewn cyfnod o newid, tua 1890-1990	
Newid a pharhad mewn addysg, iechyd a lles hyd 1945	<i>effaith Deddf Addysg Ganolradd Cymru 1889; datblygu addysg yn Neddfau 1902, 1906, 1918 a 1944; deddfwriaeth a diwygiadau mewn tai; iechyd a lles 1918-1939</i>
Effaith yr Ail Ryfel Byd ar gymdeithas Prydain	<i>dylanwad Adroddiad Beveridge; twf ac effaith y Wladwriaeth Les 1945-1990; y newid yn rôl a statws menywod ar ôl yr Ail Ryfel Byd; twf cymdeithas defnyddwyr ar ôl 1951</i>
Arwyddocâd newid cymdeithasol a diwyllianol	<i>diwylliant poblogaidd, hamdden ac adloniant 1920-1990; newidiadau mewn patrymau gwyliau ac adloniant 1945-1990; effaith polisïau'r llywodraeth ar gysylltiadau hiliol a mewnfudo, 1958-1990</i>
Tebygrwydd a gwahaniaeth tua 1890-1990	<i>maint a chyflymder y newid mewn cymdeithas ar draws y cyfnod cyfan.</i>

UNED 3 - OPSIWN 8

CANRIF YR AMERICANWYR tua 1890-1990

Dylai dysgwyr astudio materion yn ymwneud â newid cartref a materion tramor yn UDA tua 1890-1990.

Mae'r testunau hanesyddol yn yr uned eang hon yn seiliedig ar themâu sy'n trafod cyfnod estynedig o 100 mlynedd o leiaf sy'n canolbwyntio ar newid, parhad, tebygrwydd a gwahaniaeth. Disgwylir i ddysgwyr ddangos dealltwriaeth o'r prif ddatblygiadau a'r trobwyntiau sy'n berthnasol i'r themâu eang a astudiwyd. Mae'r pwyslais ar ddatblygu a dehongli trosolwg eang o'r cyfnod a astudiwyd.

Yn eu hastudiaeth, dylai dysgwyr ystyried y broses o newid hanesyddol ynghyd ag achosion, canlyniadau ac arwyddocâd hynny yn y tymor hir a'r tymor byr. Dylai dysgwyr ystyried yn ogystal natur gyfnewidiol cymdeithas, ynghyd â tharddiad, natur ac effaith newidiadau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a chrefyddol, lle bo'n addas. Dylent ganolbwyntio ar wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng agweddau gwahanol ar y testunau a astudiwyd ac ar brofi'r rhagdybiaethau cyn llunio barn gadarnhaol ar faterion penodol yn newid cartref a materion tramor yn UDA dros y cyfnod eang hwn.

Wrth astudio newid cartref a materion tramor yn UDA, dylai dysgwyr ystyried y themâu canlynol ar draws y cyfnod cyfan:

Thema 1 Brwydro dros Hawliau Sifil .1890-1990	
Datblygiad y newid mewn agweddau tuag at hawliau sifil 1890-1945	<i>effaith deddfau Jim Crow ac erydu rhyddid y Duon; yr NAACP a rolau Booker T Washington a W E B Dubois; mudo o'r De i'r Gogledd; effaith y Fargen Newydd a'r Ail Ryfel Byd ar hawliau sifil</i>
Y newid mewn datblygiadau yn y galw am hawliau sifil 1945-1968	<i>gweithredaeth y Llys Goruchaf Lys yn y 1950au: Brown yn erbyn Bwrdd Addysg Topeka 1954; protestiadau heddychlun: boicotio'r bysus yn Montgomery a'r teithwyr Rhyddid; Rôl Martin Luther King; polisiau gweinyddiaethau Eisenhower, Kennedy a Johnson; ymddangosiad mudiadau pŵer y Duon yn y Gogledd; terfysgoedd trefol a llofruddiaeth Martin Luther King 1968</i>
Canlyniadau'r mudiad hawliau sifil 1968-1990	<i>y De newydd a dadwahanu hyd 1990; y profiad Affrican Americanaidd yn yr UDA modern; cydberthnasoedd rhwng cymunedau ethnig</i>
Tebygrwydd a gwahaniaeth tua 1890-1990	<i>effaith a chyflymder yr ymdrech o blaid Hawliau Sifil ar draws y cyfnod cyfan</i>

Thema 2 Ffurio Pŵer Mawr, tua 1890-1990	
Newid a pharhad ym mholisi tramor yr Unol Daleithiau 1890-1941	<i>Imperialaeth Americanaidd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg; y rhyfel rhwng Sbaen ac America a chamlas Panama; problem niwtraliaeth ac ymuno â'r Rhyfel Byd Cyntaf; cyfraniad America at fuddugoliaeth 1917-1918; UDA a'r cytundebau heddwch; ymynysedd yn y 1920au a'r 1930au</i>
Effaith ymwneud y Unol Daleithiau â'r Ail Ryfel Byd a'r Rhyfel Oer 1941-75	<i>F D Roosevelt ac ymuno â'r Ail Ryfel Byd; UDA a'r Ail Ryfel Byd; y Rhyfel Oer a'r gydberthynas â'r Undeb Sofietaidd a China 1945-1972; rhyfel Fietnam a'i effaith</i>
Arwyddocâd détente a diwedd y Rhyfel Oer 1975-1990	<i>détente a diwedd y Rhyfel Oer 1975-1990; trafod diarfogi ac arwyddocâd polisi tramor Reagan; effaith cwmp comiwnyddiaeth ar bolisi tramor yr Unol Daleithiau</i>
Tebygrwydd a gwahaniaeth tua 1890-1990	<i>maint a chyflymder y newid ym mholisi tramor yr Unol Daleithiau ar draws y cyfnod cyfan</i>

UNED 3 - OPSIWN 9

Y NEWID YN ARWEINYDDIAETH A CHYMDEITHAS YR ALMAEN, tua 1871-1989

Dylai dysgwyr astudio materion yn ymwneud â newid yn arweinyddiaeth a chymdeithas yr Almaen tua 1871-1989.

Mae'r testunau hanesyddol yn yr uned eang hon yn seiliedig ar themâu sy'n trafod cyfnod estynedig o 100 mlynedd o leiaf sy'n canolbwyntio ar newid, parhad, tebygrwydd a gwahaniaeth. Disgwylir i ddysgwyr ddangos dealltwriaeth o'r prif ddatblygiadau a'r trobwyntiau sy'n berthnasol i'r themâu eang a astudiwyd. Mae'r pwyslais ar ddatblygu a dehongli trosolwg eang o'r cyfnod a astudiwyd.

Yn eu hastudiaeth, dylai dysgwyr ystyried y broses o newid hanesyddol ynghyd ag achosion, canlyniadau ac arwyddocâd hynny yn y tymor hir a'r tymor byr. Dylai dysgwyr ystyried yn ogystal natur gyfnewidiol cymdeithas, ynghyd â tharddiad, natur ac effaith newidiadau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a chrefyddol, lle bo'n addas. Dylent ganolbwyntio ar wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng agweddau gwahanol ar y testunau a astudiwyd ac ar brofi'r rhagdybiaethau cyn llunio barn gadarnhaol ar faterion penodol yn ymwneud â'r newid yn arweinyddiaeth a chymdeithas yr Almaen dros y cyfnod eang hwn.

Wrth astudio'r newid yn arweinyddiaeth a chymdeithas yr Almaen, dylai dysgwyr ystyried y themâu canlynol ar draws y cyfnod cyfan:

Thema 1 Newid arweinyddiaeth a chyfundrefnau yn yr Almaen, tua 1871-1989	
Newid a pharhad yn arweinyddiaeth yr Almaen Ymerodrol 1871-1918	<i>natur y Gyfundrefn Fismarcaidd; y cyfansoddiad a'r Reichstag; y Bundesrat a'r Ymerawdwr; perthynas Bismarck â'r pleidiau gwleidyddol; y Kaiserreich 1890-1914; apêl democratiaeth gymdeithasol</i>
Effaith y newid gwleidyddol yn yr Almaen 1918-1945	<i>effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar wleidyddiaeth yr Almaen; ansefydlogrwydd gwleidyddol Gweriniaeth Weimar; trefniant a system wleidyddol y Natsïaid</i>
Arwyddocâd newid gwleidyddol ac arweinyddiaeth yn yr Almaen 1945-1989	<i>y cyferbyniad yn natblygiad gwleidyddol Dwyrain a Gorllewin yr Almaen hyd 1989; symudiadau tuag at ailuno yn 1989</i>
Tebygrwydd a gwahaniaeth tua 1871-1989	<i>maint a chyflymder y newid mewn arweinyddiaeth ac mewn cyfundrefnau ar draws y cyfnod cyfan</i>

Thema 2 Effaith cymdeithasol ac economaidd ar fywydau pobl yr Almaen, tua 1871-1989	
Newid a pharhad yng nghymdeithas ac economi'r Almaen 1871-1918	<i>datblygiad economaidd yn yr Almaen yn y 1870au a'r 1880au; y dirwasgiad economaidd a chyflwyno diffynnaeth; y Kulturkampf; twf economaidd yr Almaen erbyn y Rhyfel Byd Cyntaf; effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar gymdeithas yn yr Almaen</i>
Effaith y newid gwleidyddol ac economaidd yr Almaen 1918 - 1945	<i>cymdeithas Weimar; argyfyngau economaidd Gweriniaeth Weimar; newidiadau cymdeithasol ac economaidd y Gyfundrefn Natsïaidd ac effaith hynny ar grwpiau yn y gymdeithas;</i>
Arwyddocâd y newid gwleidyddol ac economaidd yr Almaen 1945-1989	<i>y cyferbyniad yn natblygiad cymdeithasol a gwleidyddol Dwyrain a Gorllewin yr Almaen hyd 1989; effaith symudiadau tuag at ailuno</i>
Tebygrwydd a gwahaniaeth tua 1871-1989	<i>maint a chyflymder y newid ym mywydau pobl yr Almaen ar draws y cyfnod cyfan</i>

UNED 3 - OPSIWN 10

Y NEWID YN ARWEINYDDIAETH A CHYMDEITHAS RWSIA, tua 1881-1989

Dylai dysgwyr astudio materion yn ymwneud â newid yn arweinyddiaeth a chymdeithas Rwsia tua 1881-1989.

Mae'r testunau hanesyddol yn yr uned eang hon yn seiliedig ar themâu sy'n trafod cyfnod estynedig o 100 mlynedd o leiaf sy'n canolbwyntio ar newid, parhad, tebygrwydd a gwahaniaeth. Disgwylir i ddysgwyr ddangos dealltwriaeth o'r prif ddatblygiadau a'r trobwyntiau sy'n berthnasol i'r themâu eang a astudiwyd. Mae'r pwyslais ar ddatblygu a dehongli trosolwg eang o'r cyfnod a astudiwyd.

Yn eu hastudiaeth, dylai dysgwyr ystyried y broses o newid hanesyddol ynghyd ag achosion, canlyniadau ac arwyddocâd hynny yn y tymor hir a'r tymor byr. Dylai dysgwyr ystyried yn ogystal natur gyfnewidiol cymdeithas, ynghyd â tharddiad, natur ac effaith newidiadau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a chrefyddol, lle bo'n addas. Dylent ganolbwyntio ar wneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng agweddau gwahanol ar y testunau a astudiwyd ac ar brofi'r rhagdybiaethau cyn llunio barn gadarnhaol ar faterion penodol yn ymwneud â newidiadau yn arweinyddiaeth a'r gymdeithas yn Rwsia dros y cyfnod eang hwn.

Wrth astudio newid yn arweinyddiaeth a chymdeithas Rwsia, dylai dysgwyr ystyried y themâu canlynol ar draws y cyfnod cyfan:

Thema 1 Y newid yn arweinyddiaeth a chyfundrefnau Rwsia, tua 1881-1989	
Newid a pharhad yn Rwsia 1881-1917	<i>Alexander III a dychwelyd i ymateb gwleidyddol 1882-1892; y twf mewn gwrthwynebiad gwleidyddol i Gyfundrefn y Tsar cyn 1914; Chwyldro 1905; llywodraeth dros dro a Chwyldro Bolshevik 1917</i>
Canlyniadau Chwyldro 1917-1953	<i>atgyfnerthu Chwyldro'r Bolsiefigiaid erbyn 1924; ymddangosiad Stalin fel unig arweinydd Rwsia; natur a maint y newidiadau yn llywodraeth Rwsia dan Lenin a Stalin</i>
Y newid mewn cyfundrefnau o Stalin i Gorbachev	<i>Khrushchev: democrateiddio a datganoli; cwlt personoliaeth dan Brezhnev; Andropov a'r ymosodiad ar lygredd gwleidyddol a biwrocratiaeth; diwygio gwleidyddol o dan Gorbachev</i>
Tebygrwydd a gwahaniaeth tua 1881-1989	<i>maint a chyflymder y newid mewn arweinyddiaeth ac mewn cyfundrefnau ar draws y cyfnod cyfan</i>

Thema 2 Effaith cymdeithasol ac economaidd ar fywydau pobl Rwsia, tua 1881-1989	
Newid a pharhad yn Rwsia 1881-1924	<i>maint twf economaidd a newid cymdeithasol yn Rwsia cyn 1914; Lenin, Comiwnyddiaeth Rhyfel a'r Polisi Economaidd Newydd</i>
Effaith polisiâu cymdeithasol ac economaidd Stalin	<i>Stalin a chefnu ar y Polisi Economaidd Newydd; yr economi cynlluniedig; cyfunoliad a'r Cynlluniau Pum Mlynedd; natur a maint newidiadau cymdeithasol ac economaidd y Gyfundrefn Gomiwnyddol a'u heffaith ar wahanol grwpiau mewn cymdeithas</i>
Arwyddocâd polisiâu o ddat-Stalineiddio i Gorbachev	<i>diwygio amaethyddol o dan Khrushchev; marweidd-dra'r economi o dan Brezhnev; Andropov a'r pwyslais ar hyblygrwydd a menter; Glasnost a Perestroika o dan Gorbachev a diwygio economaidd graddol</i>
Tebygrwydd a gwahaniaeth tua 1881-1989	<i>maint a chyflymder y newid ym mywydau pobl Rwsia ar draws y cyfnod cyfan</i>

UNED 4 (U2)

ASTUDIAETHAU MANWL (PARHAD I'R RHAI HYNNY A ASTUDIWYD AR GYFER UNED 2)

UNED 4 - OPSIWN 1

ARGYFWNG CANOL OES Y TUDURIAID YNG NGHYMRU A LLOEGR
TUA 1529-1570

Rhan 2: SIALENSIAU YN WYNEBU MARI AC ELISABETH tua 1553-1570

Dylai dysgwyr astudio'n fanwl amrediad o destunau hanesyddol yn ymwneud â'r prif sialensiau oedd yn wynebu Mari ac Elisabeth tua 1553-1570. **Mae'r Uned hon yn parhau â rhan gynharach yr astudiaeth fanwl a astudiwyd ar gyfer Uned 2.** Dylid defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth a ddysgwyd eisoes yn Uned 2 wrth gyfeirio at gynnwys Uned 4. **Mae Uned 4 hefyd yn cynnig cyfle i asesu'r sgiliau a'r wybodaeth a ddatblygwyd yn Uned 2, lle bo'n briodol.** Mae hyn yn sicrhau cynnydd o UG ac yn dangos elfen gref o ddysgu synoptig yn yr astudiaeth fanwl yn gyffredinol.

Dylai dysgwyr ddeall y cysylltiadau a'r cymhlethdodau wnaeth ddylanwadu ar fywyd yn y cyfnod hwn. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf drwy ddadansoddi a gwerthuso amrediad o wahanol fathau o ffynonellau cynradd a/neu cyfoes. Lle bo'n briodol, byddant yn cynnwys deunydd o ffynonellau o Gymru. Yn ogystal â hynny, disgwylir i ddysgwyr drafod amrywiaeth o faterion allweddol a chysyniadau perthnasol sy'n codi o ran olaf yr astudiaeth fanwl.

I gefnogi ystyriaeth y materion allweddol hyn, dylai dysgwyr gael eu haddysgu am y canlynol:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys <i>Dylai hyn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth o Uned 2</i>
Datblygiadau pellach yng nghymdeithas ac economi Cymru a Lloegr 1554-1570	<i>datblygiadau cymdeithasol ac economaidd, yn eu plith chwyddiant, tlodi, codi prisiau ac chau tiroedd a'u cysylltiad ag aflonyddwch; cysyniadau newydd yn ymwneud â boneddigeiddrwydd a chyfleoedd i ddod ymlaen yn gymdeithasol; y newid yn rôl y bonedd yng Nghymru ar ôl y Deddfau Uno; twf trefi, masnach a diwydiant; datblygiadau mewn daliadaeth tir a sefydlu'r ystadau tiriog</i>
Arwyddocâd y pwysau ar Mari Tudur	<i>materion yn ymwneud â rhyw Mari Tudur; priodas Mari Tudur a Philip; gwrthdaro carfanau rhwng Paget a Gardiner o dan Mari; maint a chanlyniadau newid crefyddol o dan Mari; cefnogaeth o blaid y newidiadau crefyddol a'r gwrthwynebiad iddyn nhw ar lefel leol; adfer ac erlid y Catholigion; achosion a natur gwrthryfel ac aflonyddwch; 1553 (Arglwyddes Jane Grey) a 1554 (Wyatt)</i>
Effaith yr Ardrefniant Eglwysig a thwf Piwritaniaeth	<i>y sefyllfa wleidyddol yn 1558; Ardrefniant Eglwysig Elisabeth; y camau tuag at gyfieithu'r Ysgrhythurau i'r Gymraeg; sialens a nodau'r Piwritaniaid, cefnogaeth i Biwritaniaeth, dylanwad arweinwyr Piwritanaidd, agwedd archesgobion Elizabeth</i>
Maint y bygythiad Catholig hyd 1570	<i>y bygythiad Catholig a'i natur, y bygythiad cynyddol ar ôl 1568, ymateb y llywodraeth i Wrthryfel leirll y Gogledd (1569), esgymuniad y Pab (1570)</i>

UNED 4 - OPSIWN 2

BRENHINIAETH, GWRTHRYFEL A GWERINIAETH, tua 1625-1660**RHAN 2: RHYFEL CARTREF, GWERINLYWODRAETH A PHROTECTORIAETH, tua 1642-1660**

Dylai dysgwyr astudio'n fanwl amrediad o destunau hanesyddol yn ymwneud â chyfnod y Rhyfel Cartref a'r Weriniaeth, tua 1642-1660. **Mae'r Uned hon yn parhau â rhan gynharach yr astudiaeth fanwl a astudiwyd ar gyfer Uned 2.** Dylid defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth a ddysgwyd eisoes yn Uned 2 wrth gyfeirio at gynnwys Uned 4. **Mae Uned 4 hefyd yn cynnig cyfle i asesu'r sgiliau a'r wybodaeth a ddatblygwyd yn Uned 2, lle bo'n briodol.** Mae hyn yn sicrhau cynnydd o UG ac yn dangos elfen gref o ddysgu synoptig yn yr astudiaeth fanwl yn gyffredinol.

Dylai dysgwyr ddeall y cysylltiadau a'r cymhlethdodau wnaeth ddylanwadu ar fywyd yn y cyfnod hwn. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf drwy ddadansoddi a gwerthuso amrediad o wahanol fathau o ffynonellau cynradd a/neu gyfoes. Lle bo'n briodol, byddant yn cynnwys deunydd o ffynonellau o Gymru. Yn ogystal â hynny, disgwylir i ddysgwyr drafod amrywiaeth o faterion allweddol a chysyniadau perthnasol sy'n codi o gynnwys rhan olaf yr astudiaeth fanwl.

I gefnogi ystyriaeth y materion allweddol hyn, dylai dysgwyr gael eu haddysgu am y canlynol:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys <i>Dylai hyn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth o Uned 2</i>
Datblygiad pellach y Rhyfel Cartref	<i>cryfderau a gwendidau arweinyddiaeth achos y Brenhinwyr; cryfderau a gwendidau arweinyddiaeth lluoedd y Brenhinwyr; ymddangosiad y Fyddin Model Newydd; agwedd a gweithredoedd Siarl I; methiant ymdrechion i ddod i gytundeb gwleidyddol; yr Ail Rhyfel Cartref a'r rhesymau dros fuddugoliaeth y Senedd</i>
Effaith twf syniadau ac anghydfurfiaeth yn ystod y Rhyfel Cartref	<i>ymddangosiad radicaliaeth wleidyddol a chrefyddol; Lilburne a'r Lefelwyr; Pumed Frenhinwyr; Rantars a grwpiau radicalaidd eraill; rhaniadau gwleidyddol a chrefyddol; yr ymateb yng Nghymru i newid crefyddol</i>
Arwyddocâd diwedd y frenhiniaeth ac arbrogion newydd mewn llywodraethu	<i>y rhesymau o blaid rhoi'r Brenin ar brawf a'i ddienyddio ac effaith hynny; Senedd y Gweddill fel arbrawf mewn gweriniaetholdeb radicalaidd; Oliver Cromwell a'r Broectoriaeth; personoliaeth Cromwell a'i ymagwedd tuag at lywodraethu a'i ddewis i wrthod y Goron; terfynau goddefgarwch crefyddol; rôl ac effaith yr Uwch-Frigadwyr; problem yr olyniaeth i Cromwell; gwactod gwleidyddol ar ôl marwolaeth Cromwell</i>
Y rhesymau dros adferiad y frenhiniaeth	<i>trafodaethau i ddychwelyd y frenhiniaeth dan Siarl II; y rhesymau o blaid adfer y frenhiniaeth; etifeddiaeth Chwyldro Lloegr erbyn 1660</i>

UNED 4 - OPSIWN 3

DIWYGIO A PHROTEST YNG NGHYMRU A LLOEGR tua 1783-1848

RHAN 2: PROTESTIADAU AC YMGYRCHU O BLAID DIWYGIO CYMDEITHASOL tua 1832-1848

Dylai dysgwyr astudio'n fanwl amrediad o destunau hanesyddol yn ymwneud â Diwygio a Phrotest, tua 1832-1848. **Mae'r Uned hon yn parhau â rhan gynharach yr astudiaeth fanwl a astudiwyd ar gyfer Uned 2.** Dylid defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth a ddysgwyd eisoes yn Uned 2 wrth gyfeirio at gynnwys Uned 4. **Mae Uned 4 hefyd yn cynnig cyfle i asesu'r sgiliau a'r wybodaeth a ddatblygwyd yn Uned 2, lle bo'n briodol.** Mae hyn yn sicrhau cynnydd o UG ac yn dangos elfen gref o ddysgu synoptig yn yr astudiaeth fanwl yn gyffredinol.

Dylai dysgwyr ddeall y cysylltiadau a'r cymhlethdodau wnaeth ddylanwadu ar fywyd yn y cyfnod hwn. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf drwy ddadansoddi a gwerthuso amrediad o wahanol fathau o ffynonellau cynradd a/neu cyfoes. Lle bo'n briodol, byddant yn cynnwys deunydd o ffynonellau o Gymru. Yn ogystal â hynny, disgwylir i ddysgwyr drafod amrywiaeth o faterion allweddol a chysyniadau perthnasol sy'n codi o ran olaf yr astudiaeth fanwl.

I gefnogi ystyriaeth y materion allweddol hyn, dylai dysgwyr gael eu haddysgu am y canlynol:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys <i>Dylai hyn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth o Uned 2</i>
Datblygiadau pellach mewn protestiadau trefol a gwledig 1832-1848	<i>gwrthwynebiad i Ddeddf Newydd y Tlodion; mudiad y Siartwyr yng Nghymru a Lloegr 1836-1848; rolau Lovett ac O'Connor, y deisebau, aflonyddwch yn Llanidloes a Chasnewydd yn 1839, y Cynllwyn Plug 1842, gwrthdystiad 1848 a'r rhesymau dros fethiant y mudiad; Terfysgoedd Rebeca 1839-1843 a'u heffaith ar Gymru wledig; y Gynghrair er Diddymu'r Deddfau Ŷd a'r rhesymau dros ei llwyddiant</i>
Trawsnewid a hynt y blaid Geidwadol 1834-1846	<i>trawsnewid y blaid Geidwadol erbyn 1834; Sir Robert Peel fel arweinydd plaid, 1834-1841; ymateb gweinyddiaethau 1841-1846 i gyllid, gweinyddiaeth a'r economi; Deddf Siarter y Banc a diwygio busnes; diddymu'r Deddfau Ŷd</i>
Arwyddocâd llywodraethau'r Chwigiaid a'u diwygiadau 1833-1841	<i>y grant i addysg 1833; y Ddeddf Ffatri 1833; Deddf Newydd y Tlodion 1834; Deddf Corfforaethau Trefol 1835; Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau 1836; lluoedd yr heddlu gwledig</i>
Achosion ac effaith diwygio cymdeithasol 1833-1848	<i>pwyllgorau Seneddol a chomisiynau brenhinol; rôl Shaftesbury; diwygio ffatrioedd a mwyngloddiau gan gynnwys Deddf 1833, Deddf Mwyngloddiau 1842 a Deddf 1844; grantiau addysg ar ôl 1833; diwygio cyfraith y tlodion gan gynnwys ei gweithrediad hyd 1847; amodau mewn trefi diwydiannol; Edwin Chadwick a diwygio iechyd y cyhoedd; Deddf Iechyd y Cyhoedd 1848</i>

UNED 4 - OPSIWN 4

**GWLEIDYDDIAETH A CHYMDEITHAS YNG NGHYMRU A LLOEGR,
tua 1900-1939**

**RHAN 2: SIALENSIAU ECONOMAIDD A CHYMDEITHASOL YNG NGHYMRU A LLOEGR,
tua 1918-1939**

Dylai dysgwyr astudio'n fanwl amrediad o destunau hanesyddol yn ymwneud â'r cyfnod o ddirywiad economaidd a chaledi cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr tua 1918-1939.

Mae'r Uned hon yn parhau â rhan gynharach yr astudiaeth fanwl a astudiwyd ar gyfer Uned 2. Dylid defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth a ddysgwyd eisoes yn Uned 2 wrth gyfeirio at gynnwys Uned 4. **Mae Uned 4 hefyd yn cynnig cyfle i asesu'r sgiliau a'r wybodaeth a ddatblygwyd yn Uned 2, lle bo'n briodol.** Mae hyn yn sicrhau cynnydd o UG ac yn dangos elfen gref o ddysgu synoptig yn yr astudiaeth fanwl yn gyffredinol.

Dylai dysgwyr ddeall y cysylltiadau a'r cymhlethdodau wnaeth ddylanwadu ar fywyd yn y cyfnod hwn. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf drwy ddadansoddi a gwerthuso amrediad o wahanol fathau o ffynonellau cynradd a/neu gyfoes. Lle bo'n briodol, byddant yn cynnwys deunydd o ffynonellau o Gymru. Yn ogystal â hynny, disgwylir i ddysgwyr drafod amrywiaeth o faterion allweddol a chysyniadau perthnasol sy'n codi o ran olaf yr astudiaeth fanwl.

I gefnogi ystyriaeth y materion allweddol hyn, dylai dysgwyr gael eu haddysgu am y canlynol:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys <i>Dylai hyn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth o Uned 2</i>
Newidiadau cymdeithasol ac economaidd pellach yng Nghymru a Lloegr ar ôl 1918	<i>y rhesymau dros newid diwydiannol, a'i ganlyniadau a'r newid yn y gydberthynas ddiwydiannol ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf; dirywiad y diwydiannau trwm; anghydfodau diwydiannol yn y diwydiant glo a'r Streic Gyffredinol, 1926; sut gweithredodd y llywodraeth er mwyn delio â'r dirywiad yn y sefyllfa economaidd 1918-1929</i>
Achosion a chanlyniadau'r Dirwasgiad	<i>rhesymau dros ddechrau'r Dirwasgiad; diweithdra yng Nghymru yn ystod y Dirwasgiad; achosion, maint ac amrywiadau rhanbarthol; effaith y Dirwasgiad ar deuluoedd a chymunedau; mudo o Gymru; polisiau'r llywodraeth i ddelio â'r dirwasgiad: llwyddiant a chyfyngiadau</i>
Newid gwleidyddol a'i sialensiau	<i>yr etholiad, polisiau a rhesymau dros gwmp clymblaid Lloyd George 1918-1922; y llywodraeth Lafur 1924; ffurfio Plaid Cymru; Baldwin a'r atgyfodiad Ceidwadol; newidiadau i'r etholwyr 1918-1928; y llywodraeth Lafur 1929-1932; y rhesymau o blaid ffurfio'r Llywodraeth Genedlaethol; Argyfwng yr Ymddiorseddiad; yr ymateb i ddyhuddiad a pharatoi at ryfel</i>
Datblygiadau cymdeithasol, diwylliannol a hamdden	<i>maint a natur y ddarpariaeth lles cymdeithasol mewn addysg, tai ac iechyd; cynnydd mewn amser hamdden: twristiaeth, effaith y car a thwf chwaraeon i'w gwyllo; cyflwyno cyflog gwyliau; diwylliant poblogaidd; effaith y sinema, radio a cherddoriaeth; dirywiad yr iaith Gymraeg; y newid yn rôl a statws menywod</i>

UNED 4 - OPSIWN 5

DIWYGIAD CREFYDDOL YN EWROP tua 1500-1564

RHAN 2: LLEDAENIAD PROTESTANIAETH A'R GWRTHDDIWYGIAD
tua 1531-1564

Dylai dysgwyr astudio'n fanwl amrediad o destunau hanesyddol yn ymwneud â lledaeniad Protestaniaeth a'r gwrthddiwygiad tua 1531-1564. **Mae'r Uned hon yn parhau â rhan gynharach yr astudiaeth fanwl a astudiwyd ar gyfer Uned 2.** Dylid defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth a ddysgwyd eisoes yn Uned 2 wrth gyfeirio at gynnwys Uned 4. **Mae Uned 4 hefyd yn cynnig cyfle i asesu'r sgiliau a'r wybodaeth a ddatblygwyd yn Uned 2, lle bo'n briodol.** Mae hyn yn sicrhau cynnydd o UG ac yn dangos elfen gref o ddysgu synoptig yn yr astudiaeth fanwl yn gyffredinol.

Dylai dysgwyr ddeall y cysylltiadau a'r cymhlethdodau wnaeth ddylanwadu ar fywyd yn y cyfnod hwn. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf drwy ddadansoddi a gwerthuso amrediad o wahanol fathau o ffynonellau cynradd a/neu gyfoes. Yn ogystal â hynny, disgwylir i ddysgwyr drafod amrywiaeth o faterion allweddol a chysyniadau perthnasol sy'n codi o ran olaf yr astudiaeth fanwl.

I gefnogi ystyriaeth y materion allweddol hyn, dylai dysgwyr gael eu haddysgu am y canlynol:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys <i>Dylai hyn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth o Uned 2</i>
Ehangiad Lutheriaeth ymhellach yn ddaearyddol a chymdeithasol ar ôl 1531	<i>safle a phroblemau Siarl V; datblygiad y diwygiad radicalaidd; Ailfeddyddiaeth a gwrthryfel Münster; rhaniad crefyddol yn yr Almaen a ffurfio'r gynghrair Schmalkaden; Diet Regensburg a chyflwr yr Eglwys erbyn 1541; marwolaeth Luther; Heddwch Augsburg ac ymddiorseddiad Siarl V</i>
Syniadau a dylanwad Calvin	<i>John Calvin: dylanwadau ar fywyd cynnar ac esblygiad athrawiaeth; cyhoeddiadau; gwaith diwygio cynnar a'r weinidogaeth yn Strasbourg; arfer Calfiniaeth yn Genefa; cefnogaeth a gwrthwynebiad; Calvin a Luther: agweddau, tebygrwyddau a gwahaniaethau; awdurdod Calvin a concordat gydag eglwysi Zurich a Geneva; lledaeniad Calfiniaeth i Ffrainc, yr Iseldiroedd, yr Almaen, Gwlad Pwyl a Dwyrain Ewrop</i>
Twf y gwrthddiwygiad	<i>egwyddorion a phroblemau Heddwch Augsburg; adfywiad y Babaeth: Paul III; adroddiad ar gyflwr yr Eglwys; Chwilyys Rhufain; Paul IV a Pius IV; adfywio ysbrydol; Cyngor Trent; amrywiadau daearyddol; rôl ysbrydol a gwleidyddol yr Eglwys</i>
Arwyddocâd diwygio'r urddau crefyddol	<i>ymateb brenhiniaeth, clerigwyr a lleygwyr; urddau crefyddol newydd; Loyola a'r Jesiwtiaid; credoau, disgyblaethau a dylanwadau; effaith y diwygio erbyn 1564</i>

UNED 4 - OPSIWN 6

FFRAINIC YNG NGHYFNOD Y CHWYLDRO, tua 1774-1815

RHAN 2: FFRAINIC: GWERINIAETH A NAPOLEON tua 1792-1815

Dylai dysgwyr astudio'n fanwl amrediad o destunau hanesyddol yn ymwneud â'r cyfnod o chwyldro yn Ffrainc tua 1792-1815. **Mae'r Uned hon yn parhau â rhan gynharach yr astudiaeth fanwl a astudiwyd ar gyfer Uned 2.** Dylid defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth a ddysgwyd eisoes yn Uned 2 wrth gyfeirio at gynnwys Uned 4. **Mae Uned 4 hefyd yn cynnig cyfle i asesu'r sgiliau a'r wybodaeth a ddatblygwyd yn Uned 2, lle bo'n briodol.** Mae hyn yn sicrhau cynnydd o UG ac yn dangos elfen gref o ddysgu synoptig yn yr astudiaeth fanwl yn gyffredinol.

Dylai dysgwyr ddeall y cysylltiadau a'r cymhlethdodau wnaeth ddylanwadu ar fywyd yn y cyfnod hwn. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf drwy ddadansoddi a gwerthuso amrediad o wahanol fathau o ffynonellau cynradd a/neu gyfoes. Yn ogystal â hynny, disgwylir i ddysgwyr drafod amrywiaeth o faterion allweddol a chysyniadau perthnasol sy'n codi o ran olaf yr astudiaeth fanwl.

I gefnogi ystyriaeth y materion allweddol hyn, dylai dysgwyr gael eu haddysgu am y canlynol:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys <i>Dylai hyn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth o Uned 2</i>
Datblygiadau pellach yn dilyn dymchweliad y Frenhiniaeth	<i>y Confensiwn Cenedlaethol; Sefydlu'r Weriniaeth; dienyddiad Louis; effaith rhyfel a goresgyniad; gwrthryfeloedd mewnol - y Vendée; levée en masse</i>
Y rhesymau dros y Braw, a'i effaith 1793-1794	<i>trefniadaeth ac arfau'r Braw; Deddfau Drwgdybedigion a Frimaire; rôl Robespierre; cwmp y Girondins a gwrthryfel y Ffederalwyr; pŵer y sans-culottes; carthu'r Hébertiaid a'r Goddefgarwyr; y Braw Mawr 1794, cwmp Robespierre a chwmp y Braw</i>
Arwyddocâd newid gwleidyddol o'r Braw i'r Gonswliaeth	<i>yr adwaith Thermidoraidd a'r Braw Gwyn; sefydlu'r Directoire: problemau ariannol a gwleidyddol a pholisïau'r Directoire; arweinyddiaeth filwrol Napoleon yn yr ymgyrch yn yr Eidal ac yn yr Aifft; coup Brumaire a'r Gonswliaeth; diwygiadau Napoleon fel Conswl, yn eu plith y newidiadau cyfansoddiadol, cyfreithiol, ariannol ac addysgol</i>
Effaith Napoleon fel Ymerawdwr	<i>Napoleon a sefydlu'r Ymerodraeth yn Ffrainc; gwahaniaethau dosbarth a theitlau; safle'r Eglwys; y Concordat; Codau Napoleon; trethiad a'r economi ganolog; effaith y rhyfel a'r System Gyfandirol; y rhesymau dros lwyddiannau milwrol Napoleon ar ôl 1799; y rhyfel yn Sbaen a Rhyfel Iberia; yr Ymgyrch yn Rwsia; ymgyrchoedd 1813-1815 ac ymddiorseddiad</i>

UNED 4 - OPSIWN 7

ARGYFWNG Y WERINIAETH AMERICANAIDD, tua 1840-1877

RHAN 2: RHYFEL CARTREF AC AILYMGORFFORI tua 1861-1877

Dylai dysgwyr astudio'n fanwl amrediad o destunau hanesyddol yn ymwneud â chyfnod y Rhyfel Cartref yn America a'r cyfnod o ailymgorffori, tua 1861-1877. **Mae'r Uned hon yn parhau â rhan gynharach yr astudiaeth fanwl a astudiwyd ar gyfer Uned 2.** Dylid defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth a ddysgwyd eisoes yn Uned 2 wrth gyfeirio at gynnwys Uned 4. **Mae Uned 4 hefyd yn cynnig cyfle i asesu'r sgiliau a'r wybodaeth a ddatblygwyd yn Uned 2, lle bo'n briodol.** Mae hyn yn sicrhau cynnydd o UG ac yn dangos elfen gref o ddysgu synoptig yn yr astudiaeth fanwl yn gyffredinol.

Dylai dysgwyr ddeall y cysylltiadau a'r cymhlethdodau wnaeth ddylanwadu ar fywyd yn y cyfnod hwn. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf drwy ddadansoddi a gwerthuso amrediad o wahanol fathau o ffynonellau cynradd a/neu cyfoes. Yn ogystal â hynny, disgwylir i ddysgwyr drafod amrywiaeth o faterion allweddol a chysyniadau perthnasol sy'n codi o ran olaf yr astudiaeth fanwl.

I gefnogi ystyriaeth y materion allweddol hyn, dylai dysgwyr gael eu haddysgu am y canlynol:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys <i>Dylai hyn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth o Uned 2</i>
Datblygiad pellach y Rhyfel Cartref yn America 1861-1865	<i>cryfderau a gwendidau perthynol y gogledd a'r de; effeithiolrwydd y prif gadlywyddion fel McClellan, Grant, Sherman, Lee a Jackson; dulliau rhyfela a strategaethau; prif ymgyrchoedd a brwydrau fel Antietam, Vicksburg, Gettysburg, gwarchae o'r môr; morâl a'r Ffryntiau Cartref; ffactorau economaidd ac ariannol yng nghanlyniad y Rhyfel Cartref; y rhesymau dros fuddugoliaeth y gogledd</i>
Arwyddocâd Arlywyddiaeth Abraham Lincoln 1861-1865	<i>newid nodau rhyfel Abraham Lincoln; ei afael ar strategaeth; sgiliau gwleidyddol wrth reoli ei gabinet a'r Gyngres; cydberthynas â phwerau tramor; penderfynu rhyddfrenio; polisi tuag at y Taleithiau Cydffederal wedi'u trechu; effaith llofruddiaeth Lincoln;</i>
Y newid mewn agweddau at ryddfrenio ac ailymgorffori 1863-1867	<i>effaith cyhoeddi'r rhyddfrenio; y 13eg Gwelliant a'i effeithiau; y 14eg Gwelliant a rôl Thaddeus Stevens; gweriniaethwyr radicalaidd a'r Deddfau Ailymgorffori; Andrew Johnson a'i wrthdaro â'r Gyngres</i>
Effaith yr Ail-luniad 1868-1877	<i>etholiad 1868; polisiâu Ulysses Grant; ailymgorffori radicalaidd yn y de; effaith y Deddfau Ailymgorffori; gwrthwynebiad i ailymgorffori radicalaidd; y Ku Klux Klan; safle cymdeithasol ac economaidd Americanwyr-Affricanaidd erbyn 1877; diwedd ailymgorffori radicalaidd</i>

UNED 4 - OPSIWN 8

YR ALMAEN: DEMOCRATIAETH AC UNBENNAETH tua 1918-1945

RHAN 2: YR ALMAEN NATSIAIDD, tua 1933-1945

Dylai dysgwyr astudio'n fanwl amrediad o destunau hanesyddol yn ymwneud â pholisïau ac effaith yr Almaen Natsïaidd tua 1933-1945. **Mae'r Uned hon yn parhau â rhan gynharach yr astudiaeth fanwl a astudiwyd ar gyfer Uned 2.** Dylid defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth a ddysgwyd eisoes yn Uned 2 wrth gyfeirio at gynnwys Uned 4. **Mae Uned 4 hefyd yn cynnig cyfle i asesu'r sgiliau a'r wybodaeth a ddatblygwyd yn Uned 2, lle bo'n briodol.** Mae hyn yn sicrhau cynnydd o UG ac yn dangos elfen gref o ddysgu synoptig yn yr astudiaeth fanwl yn gyffredinol.

Dylai dysgwyr ddeall y cysylltiadau a'r cymhlethdodau wnaeth ddylanwadu ar fywyd yn y cyfnod hwn. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf drwy ddadansoddi a gwerthuso amrediad o wahanol fathau o ffynonellau cynradd a/neu gyfoes. Yn ogystal â hynny, disgwylir i ddysgwyr drafod amrywiaeth o faterion allweddol a chysyniadau perthnasol sy'n codi o ran olaf yr astudiaeth fanwl.

I gefnogi ystyriaeth y materion allweddol hyn, dylai dysgwyr gael eu haddysgu am y canlynol:

Cysyniadau a safbwyntiau	Materion allweddol a chynnwys <i>Dylai hyn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth o Uned 2</i>
Datblygiadau pellach yn rheolaeth y Natsïaid ar yr Almaen ar ôl 1933	<i>Atgyfnerthu pŵer Hitler, 1933-1934; Tân y Reichstag; Deddf Alluogi; Noson y Cylyll Hirion ac effaith marwolaeth Arlywydd Hindenburg; propaganda, cyflyru a braw; system wleidyddol y Natsïaid a maint rheolaeth dotalitaraidd; maint y gefnogaeth, gwrthwynebiad a'r gwrthsefyll i reolaeth y Natsïaid</i>
Effaith polisïau hiliol, cymdeithasol a chrefyddol y Natsïaid 1933-1945	<i>ideoleg hiliol y Natsïaid; gwrth-Semitiaeth; polisïau a gweithredoedd tuag at yr Iddewon, Deddfau Nuremberg; Kristallnacht; ymfudiad; polisïau tuag at bobl anghymdeithasol; polisïau cymdeithasol; pobl ifanc; menywod; gweithwyr; yr eglwysi; graddau Volksgemeinschaft</i>
Effeithiolrwydd polisi economaidd y Natsïaid 1933-1945	<i>perfformiad yr economi o dan y Natsïaid: adfer, ailarfogi ac economi cyfnod y rhyfel; rôlau Schacht, Goering a Speer; gwahardd Undebau Llafur a chyflwyno'r Deutsche Arbeitsfron (Undeb Llafur yr Almaen); Nerth Drwy Lawenydd (KdF); Y Cynllun Newydd a mynd i'r afael â diweithdra; y Cynlluniau Pedair Blynedd</i>
Y newid ym mholisi tramor y Natsïaid a'r Ail Ryfel Byd 1933-1945	<i>nodau ac amcanion polisi tramor y Natsïaid hyd 1939; dechreuad y rhyfel; aildrefnu'r economi i fodloni anghenion rhyfel diarbed; llwyddiannau'r Almaen yng Ngorllewin Ewrop; yr ymosodiad ar yr Undeb Sofietaidd; Cynhadledd Wannsee a'r Ateb Terfynol; y ffactorau'n arwain at drechu'r Almaen erbyn 1945; effaith y rhyfel ar rannau gwahanol o gymdeithas</i>

UNED 5

Asesiad di-arholiad yw Uned 5.

Mae dysgwyr yn ymchwilio i fater o ddadl hanesyddol drwy astudio gwahanol ddehongliadau hanesyddol. Mae'r gydran hon yn annog dysgwyr i egluro sut a pham y ffurfiwyd dehongliadau hanesyddol gwahanol. Bydd y mater maen nhw'n ei ddewis yn caniatáu i ddysgwyr estyn ac ehangu ar eu dealltwriaeth o agweddau ar yr hanes a astudiwyd yn rhannau ehangach y fanyleb neu gall ddod o faes hanes nad yw'n cael ei astudio'n unman arall yn y fanyleb. **Fodd bynnag, ni ddylai'r mater sy'n cael ei ddewis ddyblygu cynnwys yr astudiaethau manwl a ddewiswyd yn Unedau 2 a 4.**

Gall y dewis o destunau priodol ychwanegu cydlynid a gwybodaeth ehangach at y cwrs cyffredinol drwy ganiatáu i'r dysgwyr wneud y canlynol:

- ehangu a gwella ar eu gwybodaeth o agweddau ar hanes a astudiwyd yn unedau ehangach y cwrs;
- astudio testun sy'n ymestyn neu'n newid amrediad neu raddfa eu gwybodaeth hanesyddol;
- astudio math gwahanol o hanes;
- ategu'r hyn maen nhw'n ei ddysgu mewn meysydd eraill

Mae manylion pellach ynghylch Uned 5 i'w cael yn Adran 3.2.

3

ASESU**3.1 Amcanion asesu a phwysoli**

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u rhoi isod. Rhaid i ddysgwyr:

- AA1:** Dangos, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn dadansoddi a gwerthuso'r nodweddion allweddol sy'n perthyn i'r cyfnodau a astudiwyd, gan wneud safbwyntiau cadarnhaol ac archwilio cysyniadau, fel y bo'n briodol, o achos, canlyniad, newid, parhad, tebygrwydd, gwahaniaeth ac arwyddocâd
- AA2:** Dadansoddi a gwerthuso deunydd ffynhonnell priodol, sy'n gynradd a / neu'n gyfoes i'r cyfnod, o fewn ei gyd-destun hanesyddol
- AA3:** Dadansoddi a gwerthuso, mewn perthynas â'r cyd-destun hanesyddol, ffyrdd gwahanol y cafodd agweddau ar y gorfennol eu dehongli.

Dangosir pwysoli'r amcanion asesu isod fel canran o'r Safon Uwch lawn, mae pwysoli'r UG mewn cromfachau.

Uned	Uned Pwysoli	AA1	AA2	AA3
UG Uned 1	20% (50%)	20% (50%)		
UG Uned 2	20% (50%)		10% (25%)	10% (25%)
U2 Uned 3	20%	20%		
U2 Uned 4	20%	10%	10%	
U2 Uned 5	20%	5%	5%	10%
Cyfanswm	100%	55%	25%	20%

3.2 Trefniadau asesu di-arholiad

Mae'n rhaid i fanylebau Safon Uwch mewn hanes gael asesiad mewnol sy'n cynnwys 20% o gyfanswm y marciau. Yn Safon Uwch Hanes CBAC, rhoddir sylw i'r asesiad mewnol yn Uned 5.

Bydd dysgwyr yn ymchwilio i fater drwy astudio dehongliadau hanesyddol gwahanol. Mae'r uned hon yn annog dysgwyr i ymchwilio, dadansoddi, gwerthuso a defnyddio amrediad o ffynonellau, rhai cyfoes a rhai diweddarach, i egluro sut a pham mae dehongliadau hanesyddol gwahanol yn cael eu ffurfio. Bydd yn caniatáu i ddysgwyr arddangos y sgiliau a'r ddealltwriaeth a ddatblygwyd yn y cwrs er mwyn dangos dealltwriaeth o ddull a gwaith haneswyr a'u dadleuon. Mae'n ofynnol i ddysgwyr arddangos sut y gellir defnyddio ffynonellau i ategu ffurfio dehongliadau gwahanol neu gyferbyniol.

Bydd y mater a ddewisir yn caniatáu i **ddysgwyr estyn ac ehangu ar eu dealltwriaeth o agweddau ar yr hanes a** astudiwyd yn rhannau ehangach y fanyleb neu gall ddod o faes hanes nad yw'n cael ei astudio'n unman arall yn y fanyleb. **Fodd bynnag, ni ddylai'r mater sy'n cael ei ddewis ddyblygu cynnwys yr astudiaethau manwl a ddewiswyd yn Unedau 2 a 4.**

Gall y dysgwyr ddewis eu teitlau traethawd eu hunain, neu mae'n bosibl i'r ganolfan roi un neu ddau o deitlau wedi'u cymeradwyo i'r dysgwyr. Gall y dewis o destunau priodol ychwanegu cydlynid a gwybodaeth ehangach i'r cwrs cyffredinol drwy ganiatáu i'r dysgwyr wneud y canlynol:

- ehangu a gwella eu gwybodaeth o agweddau ar hanes a astudiwyd yn unedau ehangach y cwrs. Er enghraifft, gallai dysgwyr sy'n astudio llinach y Tuduriaid yn Uned 1 edrych ar y newid yn natur y frenhiniaeth neu gallai dysgwyr sy'n astudio datblygiadau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn Ewrop edrych ar ddehongliadau o'r berthynas rhwng Cavour a Garibaldi
- astudio testun sy'n ymestyn neu'n newid amrediad eu gwybodaeth hanesyddol. Er enghraifft, gallai dysgwyr sy'n astudio hanes y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif yn eu hunedau arholiad ymchwilio i fater o'r cyfnod canoloesol, o hanes lleol neu ranbarthol, neu o ardal ddaearyddol wahanol
- astudio math neu raddfa wahanol o hanes. Er enghraifft, gallant ymchwilio i thema benodol megis hanes rhywedd, technolegol, diwylliannol neu filwrol
- ategu eu dysgu mewn meysydd eraill. Er enghraifft gallai dysgwyr llenyddiaeth, cerddoriaeth neu ieithoedd ddewis astudio datblygiad priodol fel y newid mewn diwylliant yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn yr Almaen neu Ffrainc cyn 1815; gallai dysgwyr sy'n astudio gwyddoniaeth edrych ar effaith datblygiad gwyddonol neu ddatblygiad gwyddoniaeth feddygol dros gyfnod, er enghraifft, y Dadeni.

Cymeradwyo cynigion yr asesiad mewnol

Bydd angen i'r holl ymholiadau am asesiad nad yw'n arholiad gael eu cymeradwyo gan CBAC. Bydd angen i ganolfannau gyflwyno Ffurflen Gynnig i CBAC (ar gael ar wefan CBAC) yn cynnwys manylion pob un o'r teitlau ymholiad arfaethedig ynghyd â manylion eu cwrs. Darperir manylion gweinyddol pellach yng Nghanllawiau'r Athrawon ar wefan CBAC. Mae'n rhaid i ganolfannau gyflwyno Ffurflen Gynnig newydd ar gyfer pob cyfres os nad yw teitlau'r ymholiad wedi'u cymeradwyo eisoes; bydd angen newid teitlau ymholiad sydd wedi'u cymeradwyo ar ôl tair blynedd. Nid oes cyfyngiad ar y nifer o ymgeiswyr sy'n dewis yr un teitl ymholiad, fodd bynnag mae'n rhaid i'r ganolfan sicrhau bod gwaith pob dysgwr yn waith annibynnol.

Mae'n rhaid i ganolfannau sicrhau eu bod yn cyflwyno'r Ffurflen Gynnig a'u bod wedi derbyn cadarnhad gan CBAC bod teitl(au) dewisol yr ymholiad yn addas o leiaf ddeg wythnos cyn dechrau ar yr ymarfer.

Ni ddylai dysgwyr ddechrau ar unrhyw waith nes i'r ganolfan dderbyn **cymeradwyaeth ysgrifenedig ffurfiol gan CBAC**.

CANLLAWIAU AR GYFER CYNNAL AC ASESU UNED 5

1. Diffinio'r dasg

Mae'n rhaid i'r holl deitlau a ddewiswyd gael eu cynnig gan y ganolfan a'u cymeradwyo gan CBAC. Bydd yr holl ymholiadau hanesyddol yn cael eu marcio gan y ganolfan a'u safoni gan safonwr allanol. Dylai'r ymholiadau hanesyddol **fod ar ffurf darn ysgrifenedig estynedig sy'n cyfeirio at y mater hanesyddol a osodwyd**.

2. Hyd yr ymateb i'r ymholiad hanesyddol

Dylai'r ymateb i'r holl ymholiadau hanesyddol fod rhwng 3000 a 4000 o eiriau, heb gynnwys deholiadau o ffynonellau hanesyddol a'r rhai hynny sy'n ddehongliadau.

3. Sgiliau penodol i'w hasesu a'u pwysoli

Mae Uned 5 yn canolbwyntio ar y tri amcan asesu. Asesir y defnydd o wybodaeth a dealltwriaeth, yn ogystal â gwerthuso a dadansoddi ffynonellau er mwyn egluro sut a pham y ffurfiwyd dehongliadau gwahanol yn enwedig mewn perthynas â chyd-destun hanesyddol.

	Amcanion asesu	Pwysoli %
AA1	Dangos, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn dadansoddi a gwerthuso'r nodweddion allweddol sy'n perthyn i'r cyfnodau a astudiwyd, gan wneud safbwyntiau cadarnhaol ac archwilio cysyniadau, fel y bo'n briodol, o achos, canlyniad, newid, parhad, tebygrwydd, gwahaniaeth ac arwyddocâd.	25% o'r gydran
AA2	Dadansoddi a gwerthuso deunydd ffynhonnell priodol, sy'n gynradd a / neu'n gyfoes i'r cyfnod, o fewn ei gyd-destun hanesyddol	25% o'r gydran
AA3	Dadansoddi a gwerthuso, mewn perthynas â'r cyd-destun hanesyddol, ffyrdd gwahanol y cafodd agweddau ar y gorffennol eu dehongli.	50% o'r gydran

4. Gosod yr ymholiad hanesyddol

Mae'n rhaid i ganolfannau a dysgwyr unigol ddatblygu eu hymholiadau eu hunain. Dylid nodi'r pwyntiau canlynol wrth osod ymholiad hanesyddol priodol.

- Mae'n rhaid i'r holl ymholiadau hanesyddol gael eu gosod ar fater cynhennus y gellir gwerthuso ei ddilysrwydd.
- Gall canolfannau osod hyd at bedwar ymholiad hanesyddol gwahanol ar gyfer pob carfan o ddysgwyr.
- Gall dysgwyr osod eu hymholiadau hanesyddol eu hunain.
- Mae'n rhaid i'r holl ymholiadau hanesyddol a osodir gan ganolfan neu ddysgwr ganolbwytio ar fater o ddadl hanesyddol arwyddocaol.
- Mae'n rhaid i'r holl ymholiadau hanesyddol ganiatáu i ddysgwyr drafod y datblygiad yn nadleuon yr haneswyr yn ymwneud â'r mater hwn.
- Mae'n rhaid i'r holl ymholiadau hanesyddol ganiatáu i ddysgwyr drafod ac egluro datblygiadau o leiaf dau ddehongliad hanesyddol gwahanol neu wrthgyferbyniol.
- Dylai'r ymholiad hanesyddol fod ar ffurf mater a chwestiwn perthnasol sy'n olrhain datblygiad y mater hwnnw; gallai enghreifftiau o ymholiadau hanesyddol o'r math hynny fod yn seiliedig ar y mathau canlynol o gwestiynau:
 - Mae Chamberlain yn haeddu cael ei feirniadu fel dyn euog am ei bolisi dyhuddo tuag at yr Almaen 1937-1939. Pa mor ddilys yw'r asesiad hwn o bolisi tramor Chamberlain tan y datganiad o ryfel ym mis Medi 1939?
 - Mae haneswyr yn anghytuno am effaith y Pla Du yn y cyfnod 1348 - 1400 yng Nghymru a Lloegr. Pa mor bell ydych chi'n cytuno mai prif effaith y Pla Du oedd ar yr economi yng Nghymru a Lloegr yn y cyfnod 1348 - 1400?
 - Ydych chi'n cytuno â'r safbwynt mai'r prif reswm dros oroesiad yr iaith Gymraeg yn yr ugeinfed ganrif oedd dylanwad addysg drwy gyfrwng y Gymraeg?
 - Ydych chi'n cytuno bod Mao Zedong wedi gwella bywyd i bobl China yn y cyfnod rhwng 1949 a 1976?

Mae'n rhaid i ddysgwyr ymchwilio a darparu eu hamrediad eu hunain o ffynonellau cyfoes a detholiadau o ddehongliadau hanesyddol. Cyfanswm o 8 i 10 dehongliad fyddai'n cael ei ystyried yn 'amrediad'.

Gellir defnyddio'r holl ymholiadau hanesyddol a osodwyd gan ganolfan ac a gymeradwywyd gan CBAC am uchafswm o dair blynedd.

Rhoddir canllawiau pellach ar osod ymholiadau hanesyddol yn y Canllawiau Athrawon sydd ar gael ar wefan CBAC.

5. Rôl yr athro wrth gyflwyno'r asesiad di-arholiad

Dylai athrawon ddilyn y gweithdrefnau a nodir isod.

Dylai'r holl ymholiadau hanesyddol ganolbwyntio ar gwestiwn neu fater hanesyddol sydd wedi'i ddehongli'n wahanol gan haneswyr.

Caniateir i athrawon ddarparu cwrs astudio byr yn seiliedig ar sgiliau sy'n rhoi sylw i waith haneswyr wrth greu dehongliadau ac ymagweddau i ddadansoddi a gwerthuso dehongliadau hanesyddol gwahanol. Hefyd, dylai'r cwrs hwn helpu ymgeiswyr i ddatblygu sgiliau ymholi, er enghraifft, cadw cofnod a chyfeirnoddi'n effeithiol, sgiliau cynllunio a gwneud defnydd effeithiol o lyfrgell a'r rhyngwyd.

Disgwylir i athrawon oruchwylio gwaith y dysgwyr er mwyn iddyn nhw allu dilysu'n hyderus mai gwaith yr unigolyn ei hun yw'r gwaith sy'n cael ei gyflwyno. Felly, mae'n rhaid i athrawon allu goruchwylio'r gwaith wrth iddo symud ymlaen o'r cynllunio cychwynnol, i'r ymchwil, gwneud drafft a'r cyflwyniad terfynol.

Rhoddir canllawiau pellach ar rôl yr athrawon wrth gyflwyno a chynnal yr ymholiad hanesyddol yn y Canllawiau Athrawon sydd ar wefan CBAC.

6. Ymchwilio i'r ymholiad hanesyddol

Mae'n rhaid i ddysgwyr symud ymlaen i ymchwilio i'r mater hanesyddol a ddewiswyd drwy ddadansoddi a gwerthuso amrediad o ffynonellau a dehongliadau a ymchwiliwyd yn unigol. Mae'n rhaid i'r dysgwyr nodi'r rhain yn annibynnol.

Gallai'r ymchwil i ddeunydd sy'n ymwneud â'r mater neu'r broblem gynnwys y canlynol:

- disgrifiadau a dadansoddiadau hanesyddol o'r mater
- disgrifiadau neu adroddiadau uniongyrchol cyfoes
- dadansoddiad neu farn gyfoes
- adroddiadau eraill, gan gynnwys mwy nag un safbwynt neu ddehongliad o'r mater hanesyddol
- y defnydd o gynrychiolaeth fideo, ffilm neu amgueddfa.

Mae'n hanfodol bod dysgwyr yn ystyried y cyd-destun hanesyddiaethol o o leiaf dau ddehongliad gwahanol neu gyferbyniol yn eu hymateb. Bydd angen i'r dysgwr wneud gwaith ymchwil annibynnol am hyn.

Mae'n rhaid i ddysgwyr ddefnyddio TGCh yn eu hymchwil ac wrth gyflwyno eu hymateb i'r dasg.

7. Ysgrifennu'r ymateb i'r ymholiad hanesyddol

7.1 Amodau ysgrifennu'r ymateb

Mae'n rhaid i'r holl ymholiadau hanesyddol gael eu hysgrifennu gan y dysgwyr dros gyfnod digonol o amser sy'n ddigonol ym marn y ganolfan. Dylai canolfannau sicrhau bod gwaith y dysgwyr yn cael ei fonitro gan athrawon a bod gan yr athrawon drosolwg o'r ymatebion sy'n datblygu.

Mae'r pwyslais ar ddysgwyr yn ymgymryd ag ymchwil annibynnol a defnyddio TGCh yn golygu y bydd rhaid i ddysgwyr ymchwilio, datblygu ac ysgrifennu eu hymateb y tu allan i sefyllfa arferol yr ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod yr athro'n parhau i fonitro a chadw golwg ar y gwaith ar gyfer yr ymarfer hwn er mwyn sicrhau dilysrwydd yr ymateb.

Mae'n rhaid i ddysgwyr gadw unrhyw nodiadau bras a deunyddiau fel tystiolaeth o wneud y gwaith yn annibynnol. Bydd disgwyl i athrawon a dysgwyr lofnodi datganiad mai eiddo'r dysgwr yw'r holl waith a gynhyrchwyd.

Rhoddir canllawiau pellach ar rôl yr athro yn y Canllawiau Athrawon sydd ar wefan CBAC.

7.2 Strwythuro'r ymateb i'r ymholiad hanesyddol

Anogir canolfannau i gynghori dysgwyr i ystyried agweddau penodol wrth greu eu hymatebion:

- mae'n rhaid i ymatebion gyfeirio at yr union ymholiad hanesyddol a osodwyd
- rhaid i'r ddadl ar y mater gael ei osod yn ei gyd-destun hanesyddol
- dylai'r dadansoddiad a'r gwerthusiad o'r deunydd fod yn rhan integredig o'r broses o egluro sut a pham mae gwahaniaethau mewn dehongliadau hanesyddol
- eglurhad o faterion hanesyddiaethol perthnasol
- mae'n rhaid i ymatebion adeiladu at farn wedi'i chyfiawnhau yn ei chyd-destun hanesyddol
- dylai ymatebion fod yn gydlynol, clir, wedi'u hintegreiddio ac yn gryno.

Dylai canolfannau hefyd sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cynghori:

- y dylid defnyddio amrywiaeth o fathau gwahanol o ddeunydd ffynhonnell yn yr ymatebion
- i rifo pob tudalen o'r ymateb
- i osod y ffynonellau a ddarparwyd gan y dysgwyr yn y safle priodol yng nghorff yr ymateb
- i gyfeirnoddi tarddiad pob ffynhonnell a detholiadau/dehongliadau a ddarparwyd yn glir
- bod angen llyfryddiaeth
- bod rhaid cofnodi nifer y geiriau.

8. Marcio'r ymateb

Bydd yr ymateb yn cael ei farcio yn y ganolfan. Bydd yr athro/athrawes sy'n marcio'r gwaith yn cymhwyso'r meini prawf a'r disgrifyddion band fel y nodir yn y cynllun marcio a ddarparwyd gan CBAC (gweler Atodiad A yn y fanyleb.) Os oes mwy nag un grŵp addysgu mewn canolfan, mae'n rhaid cynnal safoni mewnl yn unol â chanllawiau CBAC. Bydd CBAC yn rhoi cyfarwyddiadau i ganolfannau ar y broses i'w defnyddio i ddewis gwaith ymgeiswyr i'w anfon at safonwr dynodedig.

Mae'n ofynnol i athrawon ddangos sut mae marciau wedi cael eu dyfarnu yn erbyn y meini prawf yn Atodiad A yn y fanyleb gan ddefnyddio anodi clir ar y testun neu ar ymyl y dudalen ynghyd â sylwadau crynodol.

Dylai'r anodi a'r sylwadau gael eu llunio er mwyn galluogi'r Safonwr i weld yn glir pa mor bell mae'r dysgwyr wedi bodloni gofynion y meini prawf. Rhoddir canllawiau pellach ar gymhwyso'r meini prawf marcio, y marcio ei hun ac anodi'r traethodau yn y Canllawiau i Athrawon sydd ar gael ar wefan CBAC.

9. Y broses safoni

Mae'n rhaid i'r holl waith a gyflwynir ar gyfer yr uned hon gael ei asesu'n briodol gan y ganolfan a lle mae mwy nag un athro/athrawes mae'n rhaid cynnal safoni mewnol priodol. Bydd safoni allanol yn digwydd ar ffurf samplu amrywiaeth o waith dysgwyr gan safonwr CBAC. Bydd y safonwr yn pennu p'un ai a yw'r cynllun marcio cymeradwyedig wedi'i gymhwyso'n gywir ac yn gyson, ac yn gwneud argymhellion priodol i CBAC.

Rhoddir canllawiau pellach ar y broses safoni a samplu yn y Canllawiau i Athrawon sydd ar gael ar wefan CBAC.

10. Dilysu

Mae'n bwysig i'r asesu di-arholiad gael ei fonitro'n drylwyr gan y canolfannau i sicrhau mai'r ymgeiswyr eu hunain sydd wedi gwneud yr holl waith. Mae gofyn i bob ymgeisydd lofnodi dogfen ddilysu sy'n cadarnhau gwreiddioldeb ei aseiniad(au) a rhaid i'r canolfannau lofnodi i gadarnhau eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol i ddilysu hyn. Dylid cwblhau taflen glawr yr asesiad di-arholiad ar gyfer yr holl ymgeiswyr, nid yn unig ar gyfer yr ymgeiswyr sydd wedi cael eu dewis ar gyfer y sampl i'w anfon at y safonwr. Gellir llwytho i lawr y ffurflenni o'r wefan. Gellir gwella dilysrwydd gan gymryd sylw gofalus o'r manylion canlynol:

Cydnabyddiaeth

Mae'n rhaid i gyfeirnodau at ddehongliadau haneswyr nodedig gael eu cydnabod yn glir bob amser ac mae'n ofynnol cael llyfryddiaeth. Mae'n rhaid i ddysgwyr gydnabod yr holl ffynonellau a ddefnyddiwyd a nodi tarddiad y ffynhonnell mewn ffordd y gallai'r Safonwr ei ddefnyddio i wirio tarddiad y ffynhonnell e.e. *mae'r ffynhonnell yn dod gan General Heinz Guderian, arbenigwr tanciau blaenllaw, oedd yn gwneud sylwadau ar y pryd, a ddyfynnwyd yn Years of Weimar and the Third Reich, gan David Evans & Jane Jenkins, Hodder Murray, 2005, tud.318*

Drafftio

Gall athrawon roi arweiniad o ran ail-ddrafftio aseiniadau ond dylai hyn gynnwys arsylwadau cyffredinol yn unig. Unwaith mae'r aseiniad wedi'i gyflwyno a'i farcio'n derfynol, ni ellir adolygu'r gwaith ymhellach. Mae arweiniad pellach ar rôl yr athro uchod yn Adran 6, yn ogystal ag yn y Canllawiau i Athrawon sydd ar wefan CBAC. Mae hefyd ar gael yn nogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal gwaith cwrs*.

Llên-ladrad

Mae'n ofynnol i ganolfannau fod yn wylidwrs ac i wrthod dyfarnu marciau neu gyflwyno unrhyw waith i'w safoni pan fydd amheuaeth nad gwaith yr ymgeisydd ei hun ydyw. Bydd ymgeiswyr yn cael eu cosbi am unrhyw ymgais i lôn-ladrata. Mae'r wefan yn cynnig cyngor ac arweiniad cyffredinol ar beth i'w wneud os amheuir bod llên-ladrad wedi digwydd.

4

GWYBODAETH DECHNEGOL

4.1 Cofrestru

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2016 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2016.

Bydd Uned 3, Uned 4 ac Uned 5 ar gael yn 2017 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2017.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Fodd bynnag, os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru am y trydydd tro, yna bydd rhaid i'r ymgeisydd ail-gofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan gaiff cymhwyster ei ailgymryd (dechrau o'r newydd), gall ymgeisydd roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Gellir trosglwyddo marciau unedau asesu di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol am yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn cael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll.

Mae rhestr o'r codau cofrestru i'w gweld yn Atodiad B.

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gofrestru am y fanyleb hon ynghyd ag unrhyw fanyleb UG neu Safon Uwch arall CBAC.

4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG UG yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A i E. Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG Safon Uwch yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A* i E. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig). Defnyddir llythyren fach a i e i ddangos graddau unedau ar slipiau canlyniadau ond nid ar y tystysgrifau.

Defnyddir y Raddfa Marciau Unffurf (GMU) mewn manylebau unedol fel ffordd o adrodd, cofnodi a chyfansymio canlyniadau asesiadau uned ymgeiswyr. Mae'r GMU yn cael ei defnyddio fel y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon yn cael yr un marc unffurf, pryd bynnag y cymerwyd yr uned. Bydd canlyniadau unedau unigol a'r dyfarniad pwnc cyffredinol yn cael eu mynegi fel marc unffurf ar raddfa sy'n gyffredin i bob cymhwyster TAG. Mae cyfanswm o 200 marc unffurf i'r TAG UG a chyfanswm o 500 marc unffurf i'r TAG Safon Uwch. Mae cyfanswm marciau unffurf unrhyw uned yn dibynnu ar y pwysoli am yr uned honno yn y fanyleb.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau uned fel a ganlyn:

Pwysoli'r Unedau	Uchafswm marciau unffurf uned	Gradd uned				
		a	b	c	d	e
Uned 1 (20%)	100	80	70	60	50	40
Uned 2 (20%)	100	80	70	60	50	40
Uned 3 (20%)	100	80	70	60	50	40
Uned 4 (20%)	100	80	70	60	50	40
Uned 5 (20%)	100	80	70	60	50	40

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a'r radd am y pwnc yn cael ei seilio ar y cyfanswm hwn.

	Uchafswm marciau unffurf	Gradd y cymhwyster				
		A	B	C	D	E
TAG UG	200	160	140	120	100	80
TAG Safon Uwch	500	400	350	300	250	200

Ar Safon Uwch, dyfernir Gradd A* i ymgeiswyr sydd wedi ennill Gradd A (400 marc unffurf) yn y cymhwyster Safon Uwch cyffredinol ac o leiaf 90% o gyfanswm y marciau unffurf ar gyfer yr unedau U2 (270 marc unffurf).

ATODIAD A

TAG SAFON UWCH HANES CBAC

CYNLLUN MARCIO GENERIG UNED 5

AA1: Dangos, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn dadansoddi a gwerthuso'r nodweddion allweddol sy'n perthyn i'r cyfnodau a astudiwyd, gan wneud safbwyntiau cadarnhaol ac archwilio cysyniadau, fel y bo'n briodol, o achos, canlyniad, newid, parhad, tebygrwydd, gwahaniaeth ac arwyddocâd.

Band 6	13-15 marciau	Mae'r dysgwr yn gallu dadansoddi a gwerthuso'r materion allweddol yn effeithiol mewn perthynas â'r cwestiwn a osodwyd. Mae'n dod i farn â ffocws, sy'n cael ei chynnal a'i chyfiawnhau. Mae'r dysgwr yn gallu arddangos, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth fanwl gywir sy'n dangos dealltwriaeth glir o'r cyfnod a astudiwyd. Mae'r dysgwr yn gallu cyfathrebu'n glir ac yn rhugl, gan ddefnyddio iaith a strwythur gyda lefel uchel o gywirdeb mewn ymateb sy'n gydlynol, clir, cryno ac wedi'i lunio'n dda.
Band 5	10-12 marciau	Mae'r dysgwr yn gallu dadansoddi a gwerthuso'r materion allweddol yn effeithiol mewn perthynas â'r cwestiwn a osodwyd. Mae ymgais glir i lunio barn wedi'i chyfiawnhau a'i chefnogi. Mae'r dysgwr yn gallu arddangos a threfnu gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir o'r cyfnod a astudiwyd. Mae'r dysgwr yn gallu cyfathrebu'n fanwl gywir ac yn rhugl gan ddefnyddio iaith a strwythur briodol gyda lefel uchel o fanwl gywirdeb.
Band 4	7-9 marciau	Mae'r dysgwr yn gallu dangos dealltwriaeth o'r materion allweddol gan arddangos dadansoddiad a gwerthusiad cadarn. Mae barn i'w gweld ond mae diffyg cefnogaeth neu gadarnhad. Mae tystiolaeth o ddefnyddio gwybodaeth yn fanwl gywir a chyfathrebu ysgrifenedig o ansawdd dda gyda lefel weddol o fanwl gywirdeb
Band 3	5-6 marciau	Mae'r dysgwr yn gallu dangos dealltwriaeth trwy ddadansoddi a gwerthuso rhywfaint ar y materion allweddol. Mae ymgais i lunio barn ond nid yw wedi'i gefnogi'n gadarn nac yn gytbwys. Mae rhywfaint o wybodaeth berthnasol yn cael ei harddangos ac mae ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig yn rhesymol ac yn cyfleu'r ystyr yn glir er efallai fod gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg.
Band 2	3-4 marciau	Mae'r dysgwr yn cynnig rhywfaint o wybodaeth berthnasol am y cwestiwn gosod sy'n cael ei ddethol a'i ddefnyddio'n briodol. Mae ymgais i ddarparu barn yn y cwestiwn a osodwyd. Mae ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig yn rhesymol ac yn cyfleu'r ystyr er efallai fod gwallau.
Band 1	1-2 marciau	Mae'r dysgwr yn darparu gwybodaeth gyfyngedig am y mater. Ceir fawr o ymgais i ddarparu barn am y cwestiwn a osodwyd. Mae ymgais i gyfleu ystyr ond mae gwallau i'w gweld.
Dylid dyfarnu 0 marc am ymateb amherthnasol neu anghywir.		

AA2: Dadansoddi a gwerthuso deunydd ffynhonnell briodol, sy'n gynradd a / neu'n gyfoes i'r cyfnod, o fewn ei gyd-destun hanesyddol

Band 6	13-15 marciau	Mae'r dysgwr yn dangos dealltwriaeth glir o gryfderau a gwendidau'r ffynonellau a ddewiswyd. Bydd y ffynonellau wedi'u dadansoddi a'u gwerthuso'n glir yn nghyd-destun hanesyddol yr ymholiad gosod. Bydd y dysgwr yn cynnal ac yn datblygu ei ymgais i ddefnyddio'r ffynonellau'n uniongyrchol i ateb y cwestiwn penodol a osodwyd.
Band 5	10-12 marciau	Mae'r dysgwr yn gallu dangos dealltwriaeth glir drwy ddadansoddi a gwerthuso'r ffynonellau a ddewiswyd yn eu cyd-destun hanesyddol, gan gynnwys ystyried eu cryfderau a'u gwendidau o ran yr ymholiad penodol. Mae'r dysgwr yn defnyddio'r ffynonellau'n briodol i gefnogi'r farn a luniwyd am yr ymholiad penodol.
Band 4	7-9 marciau	Mae'r dysgwr yn gallu dadansoddi a gwerthuso'r ffynonellau a ddewiswyd i ddatblygu ymateb sy'n dechrau trafod cryfderau a gwendidau'r ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol. Mae'r dysgwr hefyd yn dangos ymwybyddiaeth o'r cyd-destun hanesyddol ehangach gan ddefnyddio'r ffynonellau i gefnogi'r farn a luniwyd am yr ymholiad penodol.
Band 3	5-6 marciau	Mae'r dysgwr yn gallu dadansoddi a gwerthuso'r ffynonellau a ddewiswyd i ddatblygu ymateb sy'n dechrau trafod cryfderau a gwendidau'r ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol.
Band 2	3-4 marciau	Mae'r dysgwr yn dechrau dadansoddi a gwerthuso'r ffynonellau i ddatblygu ymateb sy'n gwneud ymgais i wneud sylwadau ar eu defnydd yn yr ymholiad penodol. Mae gwerthusiad y ffynonellau hyn yn fecanyddol ac mae diffyg cyd-destun.
Band 1	1-2 marciau	Mae'r dysgwr yn defnyddio'r ffynonellau ar gyfer eu cynnwys yn unig. Cyfyngedig yw'r dystiolaeth o ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau.
Dylid dyfarnu 0 marc am ymateb amherthnasol neu anghywir.		

AA3: Dadansoddi a gwerthuso, mewn perthynas â'r cyd-destun hanesyddol, ffyrdd gwahanol y cafodd agweddau ar y gorffennol eu dehongli.

Band 6	26-30 marciau	Mae'r dysgwr yn gallu trafod y cwestiwn a osodwyd yng nghyd-destun dehongliadau eraill. Mae'r dysgwr yn gallu ystyried dilysrwydd y dehongliadau yn nhermau datblygiad y cyd-destun hanesyddiaethol, ac yn gallu arddangos dealltwriaeth o sut a pham mae'r mater wedi'i ddehongli mewn ffyrdd gwahanol. Mae'r dysgwr yn gallu trafod pam mae hanesydd penodol neu ymagwedd ar hanes yn llunio dehongliad yn seiliedig ar y dystiolaeth yn y ffynhonnell a ddefnyddiwyd.
Band 5	21-25 marciau	Mae'r dysgwr yn gallu trafod y cwestiwn a osodwyd yng nghyd-destun dehongliadau eraill, ac yn benodol trafod gwaith haneswyr gwahanol a/neu ymagweddau ar hanes i ddangos dealltwriaeth o ddatblygiad y ddadl hanesyddol. Mae'r dysgwr yn gallu dadansoddi a gwerthuso'r materion allweddol yn y cwestiwn a osodwyd wrth ystyried y dehongliad yn y cwestiwn.
Band 4	16-20 marciau	Mae'r dysgwr yn gallu ystyried y cwestiwn a osodwyd yn nhermau sut datblygodd y ddadl hanesyddol dan sylw. Mae ymgais i egluro pam mae dehongliadau gwahanol wedi'u ffurfio a rhoddir ystyriaeth i wrthddadl i'r hyn a gyflwynwyd yn y cwestiwn.
Band 3	11-15 marciau	Mae'r dysgwr yn gallu trafod y cwestiwn a osodwyd yn nhermau sut datblygodd y ddadl hanesyddol dan sylw. Mae peth ymgais i egluro pam y lluniwyd y gwahanol ddehongliadau hyn.
Band 2	6-10 marciau	Mae'r dysgwr yn gallu dangos dealltwriaeth o'r cwestiwn a osodwyd. Mae ymgais i lunio barn am y cwestiwn a osodwyd ond nid yw wedi'i gefnogi'n gadarn nac yn gytbwys. Mae trafodaeth yr ymgeisydd o'r dehongliad yn ddilys, gyda chyfeiriad at ddehongliadau eraill.
Band 1	1-5 marciau	Mae'r dysgwr yn gwneud ymgais i drafod y dehongliad drwy dueddu i gytuno neu anghytuno â'r dehongliad. Mae unrhyw farn a luniwyd yn gyfyngedig ac nid yw wedi'i gefnogi.
Dylid dyfarnu 0 marc am ymateb amherthnasol neu anghywir.		

ATODIAD B

Mae'r codau cofrestru'n cael eu rhoi isod. **Mae'n hanfodol bod canolfannau yn cyfeirio at y cyfuniadau a ganiateir ar dudalen 17 y fanyleb hon wrth wneud cofrestrïadau, er mwyn sicrhau bod y cyfuniadau yn cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer TAG Hanes.**

		Teitl	Codau Cofrestru	
			Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg
UG Uned 1	Astudiaeth 1	Llywodraeth, Gwrthryfel a Chymdeithas yng Nghymru a Lloegr tua 1485-1603	2100UA	2100NA
	Astudiaeth 2	Llywodraeth, Chwyldro a Chymdeithas yng Nghymru a Lloegr tua 1603-1715	2100UB	2100NB
	Astudiaeth 3	Gwleidyddiaeth, Protest a Diwygio yng Nghymru a Lloegr tua 1780-1880	2100UC	2100NC
	Astudiaeth 4	Gwleidyddiaeth, Pobl a Chynnydd yng Nghymru a Lloegr tua 1880-1980	2100UD	2100ND
	Astudiaeth 5	Newid Gwleidyddol a Chrefyddol yn Ewrop tua 1500-1598	2100UE	2100NE
	Astudiaeth 6	Ewrop mewn Oes o Absoliwtiaeth a Chwyldro tua 1682-1815	2100UF	2100NF
	Astudiaeth 7	Chwyldro a Syniadau Newydd yn Ewrop tua 1780-1881	2100UG	2100NG
	Astudiaeth 8	Ewrop Mewn Oes o Wrthdaro a Chydweithredu tua 1890-1991	2100UH	2100NH
UG Uned 2	Astudiaeth 1	Rhan 1: Problemau, Bygythiadau a Sialensiau tua 1529-1553	2100U1	2100N1
	Astudiaeth 2	Rhan 1: Y Pwysau ar y Frenhiniaeth a'r Symudiad i Gyfeiriad Rhyfel Cartref tua 1625-1642	2100U2	2100N2
	Astudiaeth 3	Rhan 1: Radicaliaeth a'r Ymgyrch o blaid Diwygio'r Senedd tua 1783-1832	2100U3	2100N3
	Astudiaeth 4	Rhan 1: Gwleidyddiaeth, Cymdeithas a'r Rhyfel: Cymru a Lloegr tua 1900-1918	2100U4	2100N4
	Astudiaeth 5	Rhan 1: Dechreuad a Lledaeniad y Diwygiad Protestannaidd yn yr Almaen tua 1500-1531	2100U5	2100N5
	Astudiaeth 6	Rhan 1: Ffrainc: Achosion a Hynt y Chwyldro tua 1774-1792	2100U6	2100N6
	Astudiaeth 7	Rhan 1: Gwahaniaethau Adrannol a'r Llwybr i Ryfel Cartref tua 1840-1861	2100U7	2100N7
	Astudiaeth 8	Rhan 1: Weimar a'i Sialensau tua 1918-1933	2100U8	2100N8

U2 Uned 3	Astudiaeth 1	Cymru: Gwrthwynebu, Goresgyn a Gwrthryfel, tua 1240-1415	1100UA	1100NA
	Astudiaeth 2	Tlodi, Protest a Gwrthryfel yng Nghymru a Lloegr, tua 1485-1603	1100UB	1100NB
	Astudiaeth 3	Diwygio a Darganfod: Ewrop, tua 1492-1610	1100UC	1100NC
	Astudiaeth 4	Brenhiniaeth, Chwyldro ac Adfer yng Nghymru a Lloegr, tua 1603-1715	1100UD	1100ND
	Astudiaeth 5	Ffrainc: Yr Ancien Régime hyd Napoleon, tua 1715-1815	1100UE	1100NE
	Astudiaeth 6	Diwygio'r Senedd a Phrotest yng Nghymru a Lloegr, tua 1780-1885	1100UF	1100NF
	Astudiaeth 7	Newid a Diwygio Cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr, tua 1890-1990	1100UG	1100NG
	Astudiaeth 8	Canrif yr Americanwyr, tua 1890-1990	1100UH	1100NH
	Astudiaeth 9	Y Newid yn Arweinyddiaeth a Chymdeithas yr Almaen, tua 1871-1989	1100UJ	1100NJ
	Astudiaeth 10	Y Newid yn Arweinyddiaeth a Chymdeithas Rwsia, tua 1881-1989	1100UK	1100NK
	U2 UNED 4	Astudiaeth 1	Rhan 2: Sialensiau yn Wynebu Mari ac Elisabeth, tua 1553-1570	1100U1
Astudiaeth 2		Rhan 2: Rhyfel Cartref, Gwerinlywodraeth a Phrotectoriaeth, tua 1642-1660	1100U2	1100N2
Astudiaeth 3		Rhan 2: Protestiadau ac Ymgyrchu o blaid Diwygio Cymdeithasol, tua 1832-1848	1100U3	1100N3
Astudiaeth 4		Rhan 2: Sialensiau Economaidd a Chymdeithasol yng Nghymru a Lloegr, tua 1918-1939	1100U4	1100N4
Astudiaeth 5		Rhan 2: Lledaeniad Protestaniaeth a'r Gwrthddiwygiad, tua 1531-1564	1100U5	1100N5
Astudiaeth 6		Rhan 2: Ffrainc: Gweriniaeth a Napoleon, tua 1792-1815	1100U6	1100N6
Astudiaeth 7		Rhan 2: Rhyfel Cartref ac Ailymgorffori, tua 1861-1877	1100U7	1100N7
Astudiaeth 8		Rhan 2: Yr Almaen Natsïaidd, tua 1933-1945	1100U8	1100N8
U2 UNED 5	Aseu di-arholiad	Dehongliadau Hanesyddol	1100UN	1100NN
Cyfnewid Cymhwyster UG			2100QS	2100CS
Cyfnewid Cymhwyster Safon Uwch			1100QS	1100CS